

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Adroddiad Blynyddol ar Gyflawni Amcanion Llesiant (Cynllun Gwella Rhan 2) – 2020/21



Dull Graddol yn y Tymor Byr a Chanolig - Ymatebol, Effeithiol ac yn Sicrhau Diogelwch			
Gweithio Tuag at Amcanion Hirdymor	Llewyrch	Cydnerth	Iechyd a Lles
	Cydraddoldeb	Cymunedol	Diwylliant
	Byd-eang	Llywodraethu a Chynaliadwyedd Ariannol	
	Ymateb i'r Argyfwng Newid Hinsawdd	Ymateb i Golli Bioamrywiaeth	Tirweddau i Bawb

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Ffeithlun cryno – Cyflawni Ein Hamcanion Llesiant 2020/21	5
Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro	6
Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro	6
Dibenion y Parc a Chynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol	7
Cyllid	8
Cyd-destun Polisi Ehangach	8
Mesur Perfformiad – Amcanion Llesiant	9
Ein Hamcanion Llesiant a'u cyfraniad at Nodau Llesiant Cymru	11
Amcan Llesiant: Ymatebol, Effeithiol ac yn Sicrhau Diogelwch	12
Amcan Llesiant Llewyrchus – Diogelwr Taith	27
Amcan Llesiant Llewyrchus – Ffrydiau gwaith	28
Amcan Llesiant Cydnerth – Diogelwr Taith	39
Amcan Llesiant Cydnerth – Ffrydiau gwaith	40
Amcan Llesiant Iechyd a Lles – Diogelwr Taith	49
Amcan Llesiant Iechyd a Lles – Ffrydiau gwaith	50
Amcan Llesiant Cydraddoldeb – Diogelwr Taith	57
Amcan Llesiant Cydnerth – Ffrydiau gwaith	55
Amcan Llesiant Cymunedol – Diogelwr Taith	65
Amcan Llesiant Cymunedol – Ffrydiau gwaith	63
Amcan Llesiant Diwylliant – Diogelwr Taith	70
Amcan Llesiant Diwylliant – Ffrydiau gwaith	71
Amcan Llesiant Byd-eang – Diogelwr Taith	80
Amcan Llesiant Byd-eang – Ffrydiau gwaith	81

Llywodraethu a Chynaliadwyedd Ariannol – Diogelwr Taith	91
Llywodraethu a Chynaliadwyedd Ariannol – Ffrydiau gwaith	92
Atodiad 1: Data Cydraddoldeb Cyflogaeth (CB)	104

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn nodi cyfraniad a pherfformiad Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP) yn 2020/21 i'w amcanion llesiant hirdymor a'i ymateb i bandemig COVID-19. Mae hefyd yn dangos sut yr ydym wedi defnyddio'r 5 ffordd o weithio o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ein gwaith. Mae hefyd yn gweithredu fel Ein Cynllun Gwella Rhan 2 o dan y Mesur Llywodraeth Leol.

Yn ystod mis Mawrth 2020, bu'r Awdurdod wrthi ochr yn ochr â chyrrff cyhoeddus a sefydliadau eraill yn ymateb i bandemig COVID-19, rheoliadau newydd cysylltiedig ac yn rhoi mesurau ar waith i amddiffyn ei staff, cymunedau a'r cyhoedd a wasanaethir ganddo. Oherwydd yr angen i'r Awdurdod allu ymateb yn effeithiol i amgylchiadau newidiol tra hefyd yn ymateb i ganlyniadau tymor hwy, rhannwyd Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau 2020/21 yn ddau a'i ad-drefnu i dalu sylw i effaith y pandemig COVID-19. Roedd yr adran gyntaf yn seiliedig ar flaenoriaethau tymor byr a thymor canolig oedd yn canolbwyntio ar ein hymateb i COVID-19 ac ar gynllunio adferiad. Seiliwyd yr adran gyntaf ar flaenoriaethau tymor byr a chanolig a oedd yn canolbwyntio ar ein hymateb COVID-19 a chynllunio adferiad. Ei nod oedd cefnogi'r Awdurdod i fabwysiadu dull gweithredu fesul cam ac ymatebol yn ystod y flwyddyn wrth iddo ymateb i ffactorau allanol a newidiadau mewn rheoliadau.





















Cedwid blaenoriaethau a chymunedau gweithredu hirdymor a gynlluniwyd yn wreiddiol ar gyfer 2020/21 a oedd yn parhau'n berthnasol yn ail adran y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau.

Sylweddolwyd efallai na fyddai modd symud ymlaen â'r gweithgareddau hyn yn ystod y flwyddyn, ond roedd eu cynnwys yn sicrhau, wrth i'r amgylchiadau ganiatáu, y gallai'r Awdurdod barhau i gynnal gweithgareddau sy'n cyfrannu at gyflawni ei Amcanion Llesiant a'i effeithiau yn y tymor hwy o fewn Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol. Yn ôl y disgwyl, llwyddwyd i fwrw ymlaen â rhai gweithgareddau o fewn y ffrydiau gwaith yn ystod 2020/21, ond cafodd nifer ohonynt, yn enwedig y rhai oedd yn golygu cyswllt wyneb yn wyneb rhwng unigolion, eu heffeithio oherwydd gosod neu ailosod cyfyngiadau a rheoliadau neu oherwydd bod yr Awdurdod yn gorfod addasu neu ail-flaenoriaethu ei waith i ganolbwyntio ar ymatebion oedd yn ymwneud â COVID-19.

Hoffem ddiolch i staff, Aelodau, gwirfoddolwyr, partneriaid a chymunedau o fewn a thu hwnt i'r Parc am ein helpu i ddarparu gweithgareddau a amlygwyd yn y ddogfen hon yn ystod blwyddyn o her ddigynsail i bawb.

Nodyn ar Ddyletswydd Adran 6: Mae gan yr Awdurdod [ddogfen Gyfeirio Adran 6 \(Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau\)](#) dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 sy'n nodi'r dull a ddefnyddir gan yr Awdurdod i wreiddio'r ddyletswydd o fewn ei fframwaith a threfniadau adrodd ar gyfer cynllunio corfforaethol. Yr adroddiad hwn yw un elfen o drefniadau'r Awdurdod i adrodd ar y modd y mae'n cydymffurfio â'r ddyletswydd A6. Mae A6 wedi'i nodi ar bwys ffrydiau gwaith perthnasol yn yr adroddiad.

Nodyn ar yr Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol: Er mwyn sicrhau bod camau gweithredu cydraddoldeb strategol yn cael eu cyflawni maent yn cael eu prif-ffrydio o fewn fframwaith ein cynllun corfforaethol ac mae'r adroddiad hwn yn gweithredu fel ein hadroddiad blynyddol ar gydraddoldeb hefyd. Mae CB wedi'i nodi ar bwys ffrydiau gwaith perthnasol yn yr adroddiad

<p>Prif feysydd</p>  <p>Mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol 2</p>	<p>Prif feysydd</p>  <p>Lansio'r Cynllun Ffiniau Traddodiadol</p>	<p>Prif feysydd</p>  <p>Cymeradwyo 102 o unedau tai fforddiadwy</p>	<p>Prif feysydd</p>  <p>12 prosiect datgarboneiddio cymunedol Cyllid CDGC</p>	<p>Prif feysydd</p> <p>Prynwyd 1 safle at ddibenion dal a storio carbon gan gyllid Tirweddau Cynalladwy</p> 
<p>Prif feysydd</p>  <p>Strategaeth ar gyfer Cadwraeth Glöyn Britheg y Gors</p>	<p>Prif feysydd</p> <p>Panelli Pwynt Darganfod wedi'u gosod mewn 7 busnes</p> 	<p>Prif feysydd</p> <p>167.3 hectar o gynefin pryfed peillio newydd a grëwyd</p> 	<p>Ymgysylltu Digidol</p>  <p>Mynychodd 180 o bobl Ddiwrnod Archaeoleg rhithwir</p>	<p>Ymgysylltu Digidol</p>  <p>Ffilm ar Adfer Natur a wyllwyd gan 500 mil yn ystod y penwythnos cyntaf</p>
<p>Ymgysylltu Digidol</p> <p>Animeiddiad Newid Hinsawdd CCUHP a grëwyd gan y Pwyllgor Ieuenctid</p> 	<p>Ymgysylltu Digidol</p>  <p>Ymgysylltu Digidol 36.9% yn nifer y gwirfoddolwyr sy'n mynychu sesiynau hyfforddi</p>	<p>Ymgysylltu Digidol</p> <p>1 arddangosfa ar-lein ac 1 gorymdaith ddraig dydd Gŵyl Dewi rithwir</p> 	<p>Ymgysylltu Digidol</p> <p>Ap wedi'i ddylunio i'w ddefnyddio i wneud arolwg o'r clefyd coed ynn</p> 	<p>Ymgysylltu Digidol</p> <p>30 o We-ddarllodiadau Pwyllgor gyda 342 wedi'u gwyllo</p> 
<p>Pan ganiatawyd gan reoliadau</p> <p>593 o gyfranogwyr ar delthiau cerdded dan arweiniad APCAP</p> 	<p>Pan ganiatawyd gan reoliadau</p> <p>201 o gyfranogwyr mewn Cerdded er Lles ar draws 35 sesiwn, 107 mewn sesiynau Dwech i Cerdded ar draws 16 sesiwn</p> 	<p>Pan ganiatawyd gan reoliadau</p>  <p>Cymerodd 1,904 o ddisgyblion ran mewn sesiynau dysgu yn yr awyr agored</p>	<p>Pan ganiatawyd gan reoliadau</p> <p>73 diwrnodau gwirfoddoli wedi cyfrannu at blannu coed. Cyfrannodd 17 diwrnod gwirfoddol i lanhau traethau</p> 	<p>Pan ganiatawyd gan reoliadau</p> <p>Pan ganiatawyd gan reoliadau 5 marchnad awyr agored dros dro a gynhelir yn Oriel y Parc</p> 

Cyflawni ein Hamcanion Llesiant 2020/21



Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Cafodd Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ei ddynodi yn 1952 o dan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949. Mae'r Parc Cenedlaethol yn cwmpasu ardal o 612 cilomedr sgwâr, ac mae tua 23,000 o bobl yn byw mewn rhyw 50 o ardaloedd cyngor cymuned. Mae'r rhan fwyaf o'r Parc Cenedlaethol mewn perchenogaeth breifat a dim ond tua 1% y mae'r Awdurdod yn berchen arno.

"Nodweddion arbennig" y Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yw:

Hgyrchedd	Ysblander arfordirol
Daeareg amrywiol	Amrywiaeth y dirwedd
Treftadaeth ddiwylliannol	Ynysoedd
Amgylchedd hanesyddol cyfoethog	Lle i anadlu
Cyfoeth cynefinoedd a bioamrywiaeth	Natur anghysbell, llonyddwch a gwylltineb
Cymeriad unigryw aneddiadau	Amrywiaeth y profiadau a'r cyfuniad o nodweddion unigol

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Cafodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ei greu fel awdurdod lleol annibynnol ac iddo ddiben arbennig, a hynny o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (y Ddeddf). Mae'r Awdurdod yn cynnwys 18 Aelod, y mae 12 ohonynt wedi'u henwebu gan

Gyngor Sir Penfro a chwech wedi'u penodi gan Lywodraeth Cymru



Dibenion y Parc a Chynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol

Mae Deddf yr Amgylchedd 1995 yn nodi mai Dibenion Awdurdod Parc Cenedlaethol yw

- ❖ **Gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol ardal y parc**
- ❖ **Hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig yr ardal.**

Hefyd mae'r Ddeddf yn nodi bod dyletswydd ar yr Awdurdod, wrth fynd ar drywydd y dibenion uchod, i feithrin llesiant cymdeithasol ac economaidd cymunedau lleol.

Bob pum mlynedd mae'n ofynnol i'r Awdurdod lunio Cynllun Rheoli y Parc Cenedlaethol sy'n pennu sut yr hoffai weld y Parc Cenedlaethol yn cael ei reoli, a hynny nid gan yr Awdurdod yn unig ond gan yr asiantaethau a'r sefydliadau eraill y gallai eu gweithgareddau effeithio ar y Parc. Cytunodd yr Awdurdod [Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol 2020-24](#) newydd ym mis Rhagfyr 2019.

Er mwyn cynorthwyo i integreiddio cyflawni Effeithiau Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol â Chynllunio Corfforaethol, mae'r Awdurdod wedi clustnodi 3 maes effaith allweddol y bydd ffrydiau gwaith sy'n cyflawni yn erbyn ei amcanion llesiant hefyd yn cyfrannu iddynt yn ystod 2020/21. Mae'r rhain yn themâu sy'n mynd ar draws y pum maes thema gweithredu partneriaeth.

Meysydd Effaith	Pam
Ymateb i Argyfwng Newid Hinsawdd	Mae'r newid yn yr hinsawdd a cholli bioamrywiaeth yn heriau byd-eang cydgysylltiedig a gan ddefnyddio ein profiad blaenorol, uchelgais cyfredol a sgiliau a gwybodaeth ein staff, rydym mewn sefyllfa dda i ymateb i'r heriau hyn.
Ymateb i Golli Bioamrywiaeth	
Tirweddau ar Gyfer Pawb	Gallwn gael effaith gadarnhaol ar helpu mwy o bobl gael mynediad i Rinweddau Arbennig y Parc a chael budd o'r rhinweddau hynny, a chael effeithiau ar iechyd a lles. Mae hyn yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun yr effaith y mae COVID 19 wedi'i gael ar iechyd meddwl a iechyd corfforol pobl a'r diddordeb cynyddol mewn ymgysylltu yn yr awyr agored.

Cynllun Datblygu Lleol.

Yr Awdurdod yw'r awdurdod cynllunio statudol ar gyfer ardal y Parc Cenedlaethol ac mae'n gyfrifol am baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol. Cymeradwywyd [Cynllun Datblygu Lleol 2](#) yr Awdurdod ym mis Medi 2020, a chaiff ei fonitro drwy ei Adroddiad Monitro Blynyddol.

Cyllid

Caiff gwariant net yr Awdurdod ei bennu'n bennaf gan Lywodraeth cymru, ar ffurf y Grant Parc Cenedlaethol (G.P.C.) blynyddol ac ardoll gysylltiedig gan Gyngor Sir Penfro. Yn 2020/21 roedd y Grant Parc Cenedlaethol (GPC) yn £3,419k o'i gymharu â £2,954k yn 2019/20 a'r Ardoll yn £985k ar gyfer 2020/21 a 2019/20. Cynyddwyd y GPC ar gyfer 2020/21 o'i sylfaen o £2,954k gan ddau grant ychwanegol yn ystod y flwyddyn o £248k a £217k ac ni ddenodd yr un o'r ddau ychwanegiad Ardoll. Fodd bynnag, mae cyllid craidd yr Awdurdod wedi gostwng yn sylweddol dros y degawd diwethaf. Pan gymhwysir y mynegai prisiau defnyddwyr, mae'r gostyngiad cyffredinol mewn termau real ers 2013/14 yn cyfateb i 23.6% neu oddeutu £1.1m. Mae arbedion gweithredol a chynnydd yn yr incwm o werthu nwyddau yn y canolfannau, incwm o'r meysydd parcio a thaliadau eraill ac incwm grant wedi gwneud iawn am y gostyngiad yn yr arian craidd.

Cyd-destun Polisi Ehangach

Mae gwaith yr Awdurdod tuag at gyflawni ei Amcanion Llesiant yn rhan o gyd-destun polisi ehangach sy'n dylanwadu ar ein gwaith, ein cyfleoedd a'n dull gweithredu.

Mae ystyriaethau polisi allweddol yn cynnwys:

Llywodraeth Cymru - Blaenoriaethau ar gyfer	Ymateb i Argyfwng Newid yn yr Hinsawdd a
---	--

Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol 2018 (gwerthfawr a chydnerth)	Llywodraeth Cymru – Ffyniant i Bawb: cymru carbon isel
Strategaeth Llywodraeth Cymru: Cymru Iachach: ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol	Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 – Dyletswydd Adran 6 a Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy
Llywodraeth Cymru - Cymraeg 2050 - Miliwn o siaradwyr Cymraeg	Polisi Cynllunio Cymru a'r Siarter Creu Lleoedd .
Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol 2020 (SoNaRR)	“ Dyfodol Llwyddiannus ” Cwricwlwm Cenedlaethol newydd Cymru
Cynllun Llesiant Sir Benfro	Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol
Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, yn arbennig materion sy'n ymwneud â rheoli tir.	Cynllun Rheoli Cyrchfannau Sir Benfro
Datganiad Ardal De-orllewin Cymru CNC	Datganiad Ardal Morol Cymru
Croeso Cymru – Strategaeth Croeso i Gymru	Cynlluniau COVID-19 Strategol Llywodraeth Cymru

Mesur Perfformiad – Amcanion Llesiant

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus weithredu'n unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy: Hirdymor, Atal, Integreiddio, Cydweithredu a Chynnwys. Trwy gydol y ddogfen darperir enghreifftiau o sut rydym wedi cymhwyso'r egwyddorion hyn yn ymarferol.

Rydym hefyd wedi asesu ein cynnydd tuag at ein Hamcanion Llesiant trwy ystyried:

- [Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020](#) ac [Offer Diogelwr Taith](#) y Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
- Adroddiadau Archwilio Cymru o ran 5 ffordd o weithio
- [Dangosyddion Llesiant i Gymru](#)
- Data Meincnodi lle bo ar gael.

Nodir mesurau perfformiad, data tueddiadau a champau gweithredu'r Awdurdod yn ei Gynllun Corfforaethol ac Adnoddau. Ar gyfer 2020/21 defnyddiwyd data a gasglwyd i asesu'r effaith y mae COVID-19 a'r rheoliadau cysylltiedig wedi'i chael ar ein gwasanaethau a hefyd i helpu i lywio cynlluniau adfer a'u gweithredu. Mae'r Awdurdod yn monitro ei gynnydd yn erbyn ei amcanion llesiant yn ystod y flwyddyn, drwy adroddiadau perfformiad a ddarperir i Aelodau drwy Bwyllgorau perthnasol. Mae rhai ystadegau'n cael eu cofnodi'n flynyddol. Mae'r Awdurdod hefyd yn defnyddio data

ansoddol i helpu i gefnogi'r gwaith o ddadansoddi ei berfformiad.

Ein Hamcanion Llesiant a'u cyfraniad at Nodau Llesiant Cymru

Isod rydym wedi amlinellu sut mae ein Hamcanion Llesiant yn cyfrannu at Nodau Llesiant Cymru. Byddwn yn ceisio adolygu ein Hamcanion Llesiant a blaenoriaethau'r Awdurdod yn 2021/22. Hefyd cafodd mesurau a chamau gweithredu eu sefydlu ar gyfer llywodraethu a bod yn gynaliadwy yn ariannol i allu cynnal yr Awdurdod i gyflawni'r canlyniadau uchod yn effeithiol yn awr ac yn y tymor hirach.

Amcanion Llesiant APCAP	Sut rydyn ni'n cyfrannu at Nodau Llesiant ar gyfer Cymru
<p>Amcan Llesiant: Dull graddol yn y Tymor Byr a Chanolig: Ymatebol, Effeithiol ac yn Sicrhau Diogelwch</p>	<ul style="list-style-type: none"> ✓ Cymru Lewyrchus – Trwy gyfranogi mewn prosesau paratoi cynlluniau adfer ar gyfer cyrchfannau a hamdden yn y Parc ac adnabod ffyrdd o gefnogi busnesau lleol a'r economi leol. ✓ Cymru Iachach – Trwy weithredu rheoliadau mynediad a mesurau sy'n diogelu'r iechyd staff, a defnyddwyr gwasanaethau a chefnogi'r ymdrechion ehangach i gyfyngu ar ymlediad COVID-19 o fewn cymunedau. ✓ Cymru o Gymunedau Cydlynus, Cymru sy'n Fwy Cyfartal – Trwy gynlluniau a gweithgareddau adfer bydd yr Awdurdod yn amcanu at gynorthwyo cymunedau gyda'r broses adfer ac yn parhau i gefnogi'r cyrff cyhoeddus sy'n bartneriaid iddo yn eu gwaith, lle bynnag y bo'n bosibl.
<p>Amcan Llesiant Llewyrchus: Cefnogi ac annog datblygiad cyflogaeth a busnesau cynaliadwy, yn enwedig ym maes twristiaeth a hamdden.</p>	<ul style="list-style-type: none"> ✓ Cymru Lewyrchus - Trwy hyrwyddo busnesau cynaliadwy a chefnogi'r diwydiant twristiaeth drwy weithio i ymestyn y tymor twristiaeth traddodiadol a chynnal yr ased twristiaeth a hamdden allweddol yn y Parc, sef Llwybr yr Arfordir. ✓ Cymru Gydnerth - Trwy gefnogi twristiaeth gynaliadwy a rheolaeth hamdden yn y Parc. ✓ Cymru Iachach – Trwy gynnal a hyrwyddo Hawliau Tramwy Cyhoeddus a helpu i gynnwys mwy o bobl mewn gweithgareddau cerdded a gweithgareddau cysylltiedig.
<p>Amcan Llesiant Cydnerth: Gwella iechyd ecosystemau'r Parc Cenedlaethol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> ✓ Cymru Gydnerth - Trwy gyfrannu at wella iechyd ecosystem Cymru a cheisio mynd i'r afael â'r mater o golli bioamrywiaeth yn y Parc. ✓ Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang - Trwy weithgareddau sy'n ymateb i golli bioamrywiaeth sydd hefyd yn cefnogi'r her o ymateb i newid yn yr hinsawdd sy'n gysylltiedig â'i gilydd. ✓ Cymru o Gymunedau Cydlynus – Trwy gynnig cyfleoedd i bobl gymryd rhan mewn edrych ar ôl ecosystem y Parc.

Amcanion Llesiant APCAP	Sut rydyn ni'n cyfrannu at Nodau Llesiant ar gyfer Cymru
<p>Amcan Llesiant Iechyd a Lles: Galluogi ac annog mwy o bobl i wella'u llesiant trwy wneud mwy o ddefnydd o'r Parc Cenedlaethol ni waeth beth fo'u hamgylchiadau.</p>	<ul style="list-style-type: none"> ✓ Cymru Iachach, Cymru sy'n fwy Cyfartal, Cymru o Gymunedau Cydlynus – Trwy hyrwyddo defnydd mwy rheolaidd o'r awyr agored, profiadau awyr agored i blant, annog gwirfoddolwyr, a chael gwared ar rwystrau i fynediad, bydd yr amcan hwn, yn arwain at fanteision cadarnhaol i les corfforol a meddyliol pobl ac yn helpu i fynd i'r afael â materion megis arwahanrwydd cymdeithasol.
<p>Amcan Llesiant Cydraddoldeb: Parhau i sicrhau bod cydraddoldeb wedi'i sefydlu yng ngwaith a diwylliant yr APC.</p>	<ul style="list-style-type: none"> ✓ Cymru sy'n fwy Cyfartal, Cymru Iachach, Cymru o Gymunedau Cydlynus - Trwy weithio tuag at gyflawni ein nodau tymor hir yng Nghynllun Cydraddoldeb yr Awdurdod a chwalu'r rhwystrau rhag gallu manteisio ar gyfleoedd yn y Parc, bydd yr Awdurdod yn cefnogi'r nodau hyn.
<p>Amcan Llesiant Cymunedol: Gweithio ochr yn ochr â chymunedau i'w helpu i gael y gorau o'r Parc Cenedlaethol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> ✓ Cymru Gydnerth, Chymru â diwylliant bywiog – Trwy ddenu cyfraniad cymunedau, cymunedau buddiant megis tîrfeddianwyr a grwpiau lleol, a gwirfoddolwyr mewn gweithgareddau sy'n cefnogi ecosystemau a threftadaeth Cymru. ✓ Cymru o Gymunedau Cydlynus – Trwy hyrwyddo cyfleoedd i bobl ddod ynghyd yn y Parc sydd hefyd yn helpu i leihau arwahanrwydd cymdeithasol. ✓ Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang – Trwy gynorthwyo cymunedau i ddatblygu prosiectau datgarboneiddio yn y gymuned drwy'r gronfa CDC
<p>Amcan Llesiant Diwylliant: Gwarchod a hyrwyddo diwylliant lleol o ran iaith, y celfyddydau a threftadaeth yn yr ardal.</p>	<ul style="list-style-type: none"> ✓ Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu – Trwy gefnogi gweithgareddau sy'n hyrwyddo ac yn amddiffyn diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n ceisio ennyn cyfranogiad mwy o bobl yn y gweithgareddau hyn. ✓ Cymru o Gymunedau Cydlynus, Cymru Gydnerth – Trwy ennyn cyfranogiad cymunedau a gwirfoddolwyr i edrych ar ôl safleoedd treftadaeth.
<p>Amcan Llesiant Byd-eang: Sicrhau bod ein gwaith yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant byd-eang.</p>	<ul style="list-style-type: none"> ✓ Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang - Trwy ymateb i her fyd-eang yr argyfwng Newid Hinsawdd, tra hefyd yn ennyn diddordeb pobl mewn natur, yr awyr agored a threftadaeth i gael eu hysbrydoli i edrych ar ôl a dysgu am y byd o'u cwmpas. ✓ Cymru Gydnerth, Cymru Lewyrchus, Cymru Iachach – Bydd gweithgareddau sy'n ymateb i'r argyfwng Newid Hinsawdd hefyd yn cyfrannu i nodau hyn gan eu bod yn gysylltiedig â'i gilydd.

Amcan Llesiant: Ymatebol, Effeithiol ac yn Sicrhau Diogelwch

Ein Dull Gweithredu

Aethom ati i weithredu'r dull gweithredu canlynol yn 2020/21 mewn ymateb i Bandemig COVID-19 a'i effaith ar y gweithle, ein gwasanaethau, ein cymunedau, ein rhanddeiliaid a'n partneriaid:

- ✓ Dull gweithredu fesul cam, sy'n galluogi'r Awdurdod i ymateb i newidiadau mewn ffactorau a rheoliadau allanol.
- ✓ Dull gweithredu a oedd yn cydymffurfio â rheoliadau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.
- ✓ Dull gweithredu wedi'i oleuo gan ganllawiau Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
- ✓ Dull gweithredu sy'n rhoi diogelwch yn gyntaf, gan sicrhau iechyd a diogelwch a llesiant staff, defnyddwyr gwasanaethau a'r cyhoedd.
- ✓ Dull gweithredu sy'n yn gefnogol i staff, cymunedau yn y Parc a chyrrff sy'n bartneriaid yn y Sector Cyhoeddus ehangach
- ✓ Dull gweithredu yn seiliedig ar adfer, gan edrych ymlaen at sut orau i gynorthwyo'r Awdurdod, y Parc a chymunedau lleol a'r economi i gael adferiad
- ✓ Dull gweithredu sy'n nodi cyfleoedd a all ein helpu i gyflawni amcanion tymor hyr.

Meysydd Gwaith Blaenoriaeth y Dull Graddol yn y Tymor Byr a Chanolig

Clustnodwyd nifer o feysydd gwaith graddol a blaenoriaethol i helpu i gyflawni'r dull hwn.

- ➔ Maes Gwaith 1: Ymateb yn effeithiol i reoliadau a chanllawiau sy'n gysylltiedig â COVID-19.
- ➔ Maes Gwaith 2: Sicrhau llesiant a diogelwch staff.
- ➔ Maes Gwaith 3: Rhoi Arferion Gweithio Effeithiol ar Waith
- ➔ Maes Gwaith 4: Rhoi help llaw, cefnogi Cyrff Cyhoeddus eraill a'n cymunedau
- ➔ Maes Gwaith 5: Cynllunio ar gyfer Adferiad
- ➔ Maes Gwaith 6: Cyflawni ein cyfrifoldebau cynllunio statudol
- ➔ Maes Gwaith 7: Sicrhau bod mecanweithiau llywodraethu ac atebolrwydd effeithiol yn eu lle.
- ➔ Maes Gwaith 8: Cyflawni ein rhwymedigaethau ariannol.
- ➔ Maes Gwaith 9: Gweithgareddau sy'n ategu amcanion hirdymor yr Awdurdod a monitro effeithiau ar ein gwasanaethau a'n prosiectau.

Maes Gwaith 1 - Ymateb yn effeithiol i reoliadau a chanllawiau sy'n gysylltiedig â COVID-19

Cau Hawliau Tramwy Cyhoeddus (Cyfnod Clo 1)

Mae APCAP yn gyfrifol am gynnal a chadw 1,043 km o hawliau tramwy cyhoeddus (HTC) ar draws y Parc Cenedlaethol. Mae'r rhwydwaith helaeth o Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn gyfrwng hanfodol o isadeiledd sy'n ategu gallu'r trigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd gael mynediad i'r Parc Cenedlaethol, ac yn ei dro, yn gwella llesiant a rhoi manteision economaidd i'r sir ehangach.

Ar 24 Mawrth, caeodd APCAP rannau helaeth o Lwybr Arfordir Sir Benfro o dan bwerau brys Llywodraeth Cymru. Caewyd cyfanswm o 80 o hawliau tramwy cyhoeddus unigol ar ffyrdd Llwybr yr Arfordir er mwyn cau'r prif bwyntiau mynediad i Lwybr yr Arfordir. Caewyd rhyw 70% o'r llwybr dynodedig oddi ar y ffordd o Lwybr yr Arfordir. Cafodd gwybodaeth yn ymwneud â'r cau ei rhoi ar wefan APCAP yn unol â rheoliadau brys Llywodraeth Cymru. Roedd proffil uchel Llwybr yr Arfordir fel atyniad i ymwelwyr yn golygu bod cau'r llwybr dros dro yn rhan bwysig o'r pecyn cau a chyfyngu i gau Sir Benfro fel cyrchfan i ymwelwyr ac atal pobl rhag teithio o ranbarthau eraill yng Nghymru a'r DU yn ystod y clo cenedlaethol cyntaf. Yn ogystal, caewyd 38 o feysydd parcio a reolir gan yr APCAP. Wedi hynny, gwiriwyd arwyddion cau Llwybr yr Arfordir yn wythnosol. Parhaodd Llwybr yr Arfordir ar gau yn ystod Ebrill a Mai i gydymffurfio â'r cyfyngiadau ar symudiadau teithio a orfodwyd gan Lywodraeth Cymru. Pan

ganiatawyd teithio yn lleol o fewn parth 5 milltir o'r 3ydd o Fehefin, parhaodd Llwybr yr Arfordir ar gau i atal teithio o'r tu allan i'r sir.

Mewn manau eraill, cadwyd y rhwydwaith ehangach o hawliau tramwy cyhoeddus ar agor, ac yn ystod y cyfnod clo cyntaf, roedd hyn yn chwarae rhan bwysig mewn cynnig cyfleoedd ar stepen y drws i gael ymarfer corff, yn enwedig mewn llefydd sy'n agos i aneddiadau.

Hawliau Tramwy Cyhoeddus – Adfer a Rheoli

Rhan allweddol o adferiad oedd ysgogi'r gweithlu sy'n gyfrifol am gynnal hawliau tramwy Cyhoeddus. Roedd yn rhaid asesu tasgau cynnal a chadw arferol timau wardeiniaid er budd diogelwch a lles y staff. Addaswyd y gweithdrefnau gweithio i sicrhau bod gan bob warden ei gerbyd a'i offer ei hun yn ogystal ag offer amddiffynnol personol sy'n cydymffurfio â'r rheolau. Cafodd ymweliadau â depos eu trefnu am yn ail er mwyn osgoi cyswllt. Roedd System Rheoli Swyddi APCAP, sy'n defnyddio meddalwedd ESRI ArcGIS wedi bod o gymorth i gefnogi gweithio o bell a chyfyngu ar gyswllt wyneb yn wyneb.

Ailddechreuodd y timau wardeniaid i gynnal hawliau tramwy cyhoeddus o'r 18fed o Fai ymlaen, a'r flaenoriaeth oedd rheoli'r llystyfiant ar Lwybr yr Arfordir yn barod i sicrhau y byddai'r llwybr yn ddiogel ac yn addas i'w ddefnyddio erbyn y deuai'r adeg pan fyddai'r cyfyngiadau clo yn cael eu codi. Hefyd rhoddwyd blaenoriaeth i'r rhwydwaith o hawliau

tramwy cyhoeddus o fewn 1.5km i'r prif aneddiadau yn y Parc Cenedlaethol er mwyn sicrhau y gallai'r trigolion lleol wneud ymarfer corff yn rheolaidd 'ar garreg eu drws' yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Hefyd paratowyd asesiad risg i arwain y gwaith o ailagor Llwybr yr Arfordir. Defnyddiwyd y fethodoleg a ddyfeisiwyd gan y Grŵp Diogelwch Ymwelwyr yng Nghewn Gwlad ynghyd â chanllawiau gan Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru.

Ailagorodd Llwybr yr Arfordir yn ei gyfanrwydd ar 29 Mehefin. Erbyn hyn roedd y staff wedi archwilio pob rhan o Llwybr yr Arfordir i sicrhau nad oedd unrhyw beryglon megis tirlithriadau neu rannau ansefydlog. Yn ogystal, roedd y gwaith o dorri llystyfiant o wyneb ac ymylon y Llwybr wedi mynd rhagddo yn hwylus i sicrhau bod Llwybr yr Arfordir yn addas i'w ddefnyddio. Dros ddeuddydd cafodd yr holl arwyddion cau yn y prif fannau mynediad eu dileu a'u disodli gan arwyddion rhagofalon Covid-19. Agorwyd Meysydd Parcio APCAP hefyd ym mis Mehefin

O ran y "torriad tan" dilynol, ym mis Hydref /Tachwedd ac yna mis Rhagfyr i fis Mawrth, penderfynwyd peidio â chau Llwybr yr Arfordir na meysydd parcio. Seiliwyd hyn ar y ffaith y byddai disgwyl i lefelau is o ddefnydd yn ystod dymor y gaeaf ac ni fyddai cau Llwybr yr arfordir a meysydd parcio yn cael eu hystyried yn angenrheidiol fel rhwystr ar gyfer unrhyw deithio hamdden ddiangen/ anghyfreithlon. O dan yr amgylchiadau, helpodd Llwybr yr Arfordir i ddarparu cyfleoedd ar gyfer ymarfer corff dyddiol i gymunedau lleol ac felly cyfrannu at eu hiechyd a'u lles

Nid oedd y tîm Wardeniaid wedi bod yn gweithio dros y cyfnod "torriad tan" a chyfnod cychwynnol y cyfnod clo dilynol. Fodd bynnag, roeddent wedi dychwelyd yn raddol o dan asesiad risg newydd ar 18 Ionawr i wneud gwaith oedd yn ymwneud â diogelwch y cyhoedd ac atal difrod sylweddol. Cafodd hyn ei ymestyn i gynnwys gwaith cynnal a chadw ar Chwefror 15fed 2021.

Ail-flaenoriaethwyd rhaglennu gwaith ar gyfer cadwraeth er mwyn ystyried y galw a roddwyd ar agor llwybrau troed yn gynharach yn y flwyddyn ac effeithiwyd ymhellach gan y cyfnod atal byr a'r cyfnod clo dilynol. Cafwyd trafodaethau rhwng timau perthnasol yn ystod y flwyddyn i edrych ar sut i fynd i'r afael â hyn yn 2021/22.

Canolfannau

Yn unol â gofynion rheoleiddio, caewyd pob un o'r tair Canolfan APCAP o'r 20fed o Fawrth 2020 tan i'r rheoliadau gael eu llacio, ac roedd y safleoedd wedi gallu ailagor fis Gorffennaf 2020. Yn ystod rhan fawr o'r cyfnod hwn roedd y mwyafrif o aelodau'r Tîm Gwasanaethau Ymwelwyr ar ffyrlo.

Wrth baratoi ar gyfer ailagor fis Gorffennaf 2020, rhaid oedd gwneud addasiadau ffisegol yn gyflym i'r safleoedd i'w gwneud yn ddiogel i ymwelwyr ac i'r staff, ac roedd adolygiad a diweddariad cynhwysfawr wedi'i wneud o bob polisi, gweithdrefn ac asesiad risg oedd yn ymwneud â iechyd a diogelwch. Hefyd cafodd system archebu ar-lein newydd ei lansio ar gyfer ymwelwyr er mwyn cyfyngu ar y niferoedd ar y safleoedd ac i gynorthwyo gyda gwasanaeth Tracio ac Orlhain

Llywodraeth Cymru. Derbyniodd pob canolfan y safon diwydiant COVID-19 "Barod Amdani". Derbyniodd staff hyfforddiant dwys ac 'ail-ymgyfarwyddo' yn barod ar gyfer y ffordd newydd hon o weithio. Roedd staff y Gwasanaethau Ymwelwyr ar draws pob safle yn ymwneud yn uniongyrchol â chyflwyno'r newidiadau diogelwch er mwyn hwyluso dychwelyd i'r gwaith. Gwnaed y penderfyniadau ar y cyd yn ogystal ag unigolion yn cymryd cyfrifoldeb am weithredu'r newidiadau allweddol.

Caeodd pob canolfan yn ystod y cyfnod atal byr a phenderfynwyd y byddai'r Canolfannau'n parhau i fod ar gau am gyfnod y gaeaf (yna roedd yn ofynnol i bob canolfan gau o dan y cyfyngiadau a oedd ar waith yn ystod Ionawr – Mawrth 2021). Dychwelodd y mwyafrif o staff y gwasanaeth ymwelwyr i fod ar ffyrlo neu'n rhannol ar ffyrlo. Fodd bynnag, cynhaliwyd gweithgareddau cynllunio ailagor ym mis Mawrth cyn agor ym

mis Ebrill 2021, gan gynnwys cwblhau asesiadau risg diwygiedig ar gyfer pob canolfan.

Gwasanaethau Wyneb yn Wyneb

Yn ystod y cyfnod clo cyntaf, cafodd pob digwyddiad a gwasanaeth wyneb yn wyneb eu hatal. Wrth i'r cyfnod clo cyntaf fynd rhagddo roedd y staff yn addasu ac yn symud rhai gweithgareddau lle roedd hynny'n bosibl i fod ar-lein, gan gynnwys darparu adnoddau ar-lein i rieni a gwarcheidwaid i addysgu gartref yn ystod y cyfnod clo drwy Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro, hyfforddiant rhithiol i wirfoddolwyr a chynnal cyfarfodydd Pwyllgor Ieuenctid ar-lein. Parhaodd y dulliau hyn yn ystod y flwyddyn, gyda'r staff yn magu hyder wrth ddarparu gweithgareddau rhithiol ar-lein, gan gynnwys sesiynau rhithiol o hyfforddi athrawon, sesiwn addysg rithiol a gyflwynwyd gan Castell Henllys, a diwrnod Archaeoleg rhithiol mewn partneriaeth â Planed

Mewn ymateb i leddfu rhai o'r rheoliadau yn Chwarter 2 a Chwarter 3, gwelodd APCAP ailgychwyn a darparu gwasanaethau wyneb yn wyneb oedd wedi'u haddasu. Roedd y gweithgareddau'n canolbwyntio ar ymgysylltu yn yr awyr agored ac yn cael eu darparu yn unol ag asesiadau risg. Cyfyngwyd ar y niferoedd ar gyfer sesiynau yn unol â'r rheoliadau. Roedd hyn yn cynnwys darparu rhaglen ddigwyddiadau a gweithgareddau diwygiedig yn canolbwyntio ar deithiau tywys, darparu sesiynau cerdded â chymorth drwy Dewch i Gerdded a rhan Sir Benfro o Brosiect Cerdded er Lles Gorllewin Cymru, gwirfoddoli mewn grwpiau, gweithgareddau parcryn haf wedi'u haddasu a rhaglen



ysgolion diwygiedig a oedd yn canolbwyntio ar ddysgu yn yr awyr agored, drwy weithio'n agos gydag ysgolion lleol i nodi ffyrdd diogel o gyflwyno sesiynau.

Roedd cymorthfeydd cynllunio wyneb yn wyneb wedi'u hatal yn ystod y flwyddyn, a defnyddiodd swyddogion cynllunio gyfarfodydd fideo i ymgysylltu â defnyddwyr allanol y gwasanaethau cynllunio. Bu'n rhaid i weithgareddau ymweld â'r safle yn ystod y flwyddyn hefyd ymateb i newidiadau yn y cyfyngiadau, gyda staff yn defnyddio ymweliadau rhithwir lle bo hynny'n bosibl ac yn addas.

Arhosodd prif swyddfa ffisegol APCAP Llanion a'i dderbynfa ar gau i'r cyhoedd tan Fedi 1af, lle agorodd i'r cyhoedd fesul apwyntiad yn unig ac yn unol ag asesiad risg perthnasol. Caedd eto yn ystod y cyfnod toriad tan, ond ail-agorodd am amser fyr ar ddiwedd y cyfnod hwn ym mis Tachwedd. Caewyd Llanion unwaith eto ar ôl i Gymru gyflwyno cyfnod clo arall fis Rhagfyr. Yn ystod yr adeg yr oedd y swyddfeydd ar gau, roedd aelodau'r cyhoedd yn dal i allu cysylltu â staff APCAP dros y ffôn neu drwy'r e-bost.

Ymgysylltu â Llywodraeth Cymru

Roedd uwch swyddogion APCAP yn cymryd rhan mewn deialog barhaus a chyfarfodydd rhanddeiliaid gyda Llywodraeth Cymru yn ystod 2020/21. Mae hyn wedi helpu APCAP i ymateb i newidiadau mewn deddfwriaeth ac asesu effaith ar waith yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn.

Roedd tîm cyfathrebu APCAP wedi ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a Croeso Cymru ynghyd â phartneriaid eraill yn ystod y flwyddyn drwy gyfarfodydd rheolaidd, datblygu negeseuon ar y cyd, a 'llais' cyson ac unedig ar draws y cyfryngau traddodiadol a'r cyfryngau cymdeithasol. Roedd hyn yn golygu bod APCAP yn gallu cefnogi hyrwyddo'r prif negeseuon a chanllawiau oedd yn cael eu gweithredu yn ystod y flwyddyn.



Maes Gwaith 2: Sicrhau llesiant a diogelwch staff.

Roedd yn bwysig bod APCAP yn ymateb i wahanol anghenion iechyd a diogelwch y staff ar draws pob tîm yn ystod y flwyddyn mewn ymateb i effaith COVID-19 a'r rheoliadau cysylltiedig. Roedd hyn yn amrywio o dalu sylw i anghenion y

Adroddiad Blynyddol ar Gyflawni Amcanion Llesiant 2020/21 - Amcan Llesiant: Ymatebol, Effeithiol ac yn Sicrhau Diogelwch

rhai oedd wedi symud i weithio gartref, y rhai yr oedd yn dal yn ofynnol iddynt gyflawni tasgau gweithredol ar lawr gwlad, y staff ar ffyrlo a'r staff oedd yn gorfod yn unol â'r rheoliadau i ddarparu gwasanaethau wyneb yn wyneb.

Yn ystod 2020/21, cymerodd APCAP y dull canlynol o sicrhau lles a diogelwch staff ar draws timau:

- ✓ Roedd APCAP wedi sefydlu Tîm Ymateb Brys ar ddechrau'r Pandemig, dan gadeiryddiaeth y Prif Weithredwr. Diben y grŵp hwn oedd ymateb yn gydgysylltiedig i gyngor y Llywodraeth. Cyhoeddwyd nodiadau briffio yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn i'r rheolwyr ac i'r staff i helpu i reoli'r materion iechyd a diogelwch corfforol a llesiant a grëwyd gan y pandemig.
- ✓ Creu cynllun adfer trawsbynciol APCAP a chynlluniau adfer adrannol.
- ✓ Adolygu a diweddarau asesiadau risg yn barhaus ar draws yr Awdurdod ar y cyd â'r staff yr effeithir arnynt, ac alinio â'r newidiadau i'r rheoliadau a'r canllawiau.
- ✓ Cwblhau asesiadau Cyfarpar Sgrîn Arddangos ar gyfer staff a symudodd i weithio gartref yn ystod.
- ✓ Cyfarfodydd tîm ar-lein a'r rheolwyr llinell yn cysylltu â'r staff gan gynnwys y rhai ar ffyrlo.
- ✓ Cytunwyd ar fesurau gweithio mwy hyblyg ar gyfer staff oedd ag ymrwymadau gofal plant. Roedd hyn yn arbennig o bwysig o ran cefnogi staff yr oedd angen iddynt addysgu eu plant ysgol yn ystod rhywfaint o'r cyfnodau clo.

- ✓ Rhoddwyd mesurau ffisegol yn eu lle yn adeiladau APCAP drwy gyfyngu ar nifer y bobl mewn adeiladau ac mewn swyddfeydd a rennir a threfnu ymweliadau am yn ail â depo.
- ✓ Addaswyd gweithdrefnau ar gyfer timau gweithredol fel y wardeiniaid gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â cherbydau.
- ✓ Darparwyd offer amddiffynnol personol i'r staff. Rhoddwyd arwyddion a negeseuon ar olchi dwylo, masgiau a phellter cymdeithasol ar waith ar draws safleoedd.
- ✓ Cafodd y timau gweithredol megis y Wardeniaid aros gartref o'u gwaith yn ystod y cyfnodau clo cychwynnol i alluogi rhoi asesiadau risg a gweithdrefnau diwygiedig yn eu lle.
- ✓ Cafodd y staff eu briffio ar fesurau iechyd a diogelwch a roddwyd yn eu lle mewn canolfannau, a rhoddwyd cyfle iddynt drafod ac ymdrin ag unrhyw bryderon oedd ganddynt am ddychwelyd i'r gweithle.
- ✓ Parhaodd hyfforddiant Cymorth Cyntaf i gael ei gynnal yn ystod y flwyddyn.
- ✓ Cynhaliwyd cyfarfod rhithiol o holl aelodau'r staff fis Rhagfyr 2020 oedd yn cadw'r cydbwysedd rhwng rhannu gwybodaeth, cydnabod staff, ac 'elfen o gael hwyl' i helpu i ddod â staff ynghyd ar ôl blwyddyn heriol.
- ✓ Gan ystyried yr hyn a ddysgwyd o'r flwyddyn a'r effaith y mae'r pandemig wedi'i chael ar iechyd a lles pobl, aildrafftwyd y ffurflen arfarnu i gynnwys trafodaeth â ffocws ar iechyd a lles.

- ✓ Yn dilyn cynnig gan Aelod o APCAP, cynhaliwyd gweithgareddau i gefnogi sefydlu Gwasanaeth Clust i Wrando a redir gan yr Aelodau ar gyfer y staff, i ategu'r cwnsela a gynigir eisoes gan Care First.
- ✓ Roedd rheolwyr llinell a staff yn gallu cael mynediad i'r gweminarau wythnosol ar iechyd a lles drwy'r gwasanaeth Care First.

Maes Gwaith 3: Rhoi Arferion Gweithio Effeithiol ar Waith

O ganlyniad i'r pandemig bu'n rhaid i APCAP addasu ei arferion gwaith yn gyflym, yn enwedig gwelodd gyflymiad arferion gwaith gweithio o bell a chyfathrebu digidol a'r angen i roi'r offer i staff gefnogi hyn. Roedd hyn yn arbennig o bwysig o ran sicrhau bod yr Awdurdod yn cefnogi gofynion y dylai pobl weithio o gartref lle bo hynny'n bosibl.

Cynhaliwyd y gweithgareddau canlynol yn 2020/21 i gefnogi hyn:

- ✓ Roedd cyllid Llywodraeth Cymru wedi cynorthwyo APCAP i brynu gliniaduron i ddisodli'r cyfrifiaduron pen desg presennol a monitorau ychwanegol, bysellfyrddau a mathau eraill o offer. Roedd hyn yn gymorth i sicrhau bod gan APCAP yr offer i gynorthwyo'r staff i weithio gartref, fydd hefyd yn hwyluso 'amgylchedd gwaith cyfunol' yn y dyfodol y tu hwnt i 2020/21. O ganlyniad i Aseidiadau Cyfarpar Sgrîn Arddangos ar gyfer amgylcheddau gweithio gartref a gweithio yn y swyddfa, roedd TG wedi bodloni'r ceisiadau ychwanegol am offer TG i sicrhau bod

gofynion yn cael eu bodloni yn y ddau amgylchedd gwaith.

- ✓ Yn dilyn llwyddiant fersiwn treialu am ddim o'r System Gyfathrebu Unedig, cafwyd cymeradwyaeth i ddisodli'r system ffôn llinell dir ar draws APCAP gan system Protocol Un Llais dros y Rhyngwyd o 3CX. Cafodd y system newydd hon ei chyflwyno'n llwyddiannus yn Llanion ar yr 28^{ain} o Hydref, gan gynnwys y prif rif switsfwrdd a reolir gan y Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid a phob estyniad deialu uniongyrchol yn Llanion. Y cam nesaf fydd gweithredu'r system yn y tair canolfan ymwelwyr.
- ✓ Derbyniodd pob aelod o staff y rhaglen Slack ar gydweithredu yn y gweithle sy'n galluogi anfon negeseuon preifat ac fel tîm a'r gallu i siarad un i un. Roedd hyn yn arbennig o bwysig i gefnogi cyfathrebu cyn i'r system newydd Protocol Un Llais dros y Rhyngwyd gael ei chyflwyno.
- ✓ Defnyddiodd APCAP y rhaglen fideo-gynadledda Lifesize i alluogi cynnal cyfarfodydd digidol. Cyflwynwyd y rhaglen ar bob gliniadur, crëwyd ystafelloedd rhithiol adrannol ac ystafell rithiol y gellir ei llogi, a'r gallu i logi cyfarfodydd diogel cyfrinair untro. Roedd y staff wedi ymgysgu'r ystod y flwyddyn â chymryd rhan, hwyluso a chynnal digwyddiadau, gweithdai, Pwyllgorau a hyfforddiant drwy'r plattform hwn. Hefyd mae'r timau wedi defnyddio'r plattform i gynnal cyfarfodydd tîm rhithiol yn rheolaidd

✓ Defnyddiwyd y System Rheoli Swyddi (Arconline) ac apiau Symudol gan y Wardeniaid a'r Parcmyn ar lawr gwlad i dderbyn rhestrau gwaith, ac roedd y Rheolwyr Wardeniaid yn gallu defnyddio'r system ar y we i ddyrannu gwaith ar draws y parc o'u cartref. Hefyd o ddiwedd mis Ionawr roedd gan Wardeniaid fynediad i Fideoalwad Lifesize drwy ap symudol, gydag Ystafell Fideoalwad benodedig. Roedd hyn mewn ymateb i'r angen am hwyluso gwell opsiynau cyfathrebu a chysylltu o bell a chefnogi llesiant i'r staff oedd gynt heb y cyfleusterau a ddarparwyd i weithwyr yn y Swyddfa.

✓ Er mwyn cefnogi cyfathrebu mewnol cyhoeddwyd cylchlythyr mewnol yn wythnosol ac yna'n fisol o fis Medi yn ystod y flwyddyn, gyda chyfraniadau gan bob tîm yn helpu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl am ddatblygiadau yn ystod y flwyddyn. Sefydlwyd cyfarfod Arweinydd Tîm misol hefyd yn ystod y flwyddyn, gan roi cyfle i gyfathrebu'n well rhwng y Tîm Arweinyddiaeth ac Arweinwyr Tîm.

Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod rheoliadau yn ystod y flwyddyn wedi effeithio ar ddarparu rhai gwasanaethau wyneb yn wyneb, y gallu i gyflawni rhai tasgau swyddfa (yn enwedig ar gyfer adran gynllunio'r Awdurdod) ac ymweliadau safle.

Y Camau Nesaf: Ystyriwyd papur gan y Fforwm Gweithwyr ym mis Mawrth 2021 i archwilio opsiynau ar gyfer gweithio o bell yn y dyfodol. Bydd APCAP yn adolygu ei bolisi gweithio hyblyg, gyda staff yn cymryd rhan yn 2021/22

Maes Gwaith 4: Rhoi help llaw, cefnogi Cyrff Cyhoeddus eraill a'n cymunedau

Wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio dros fisoedd yr haf, cododd pryderon ynghylch rheoli effaith y niferoedd uchel o ymwelwyr, tra hefyd yn rhoi sicrwydd i'r cymunedau lleol. Roedd Cyngor Sir Penfro wedi sefydlu canolfan rheoli digwyddiadau i ddelio â materion oedd yn codi yn sgîl y niferoedd uchel o ymwelwyr dros fisoedd yr haf. Roedd Parcmyn APCAP wedi patrolio a throsglwyddo materion i'r Ganolfan hon a hefyd wedi ymateb i bryderon a adroddwyd gan y Ganolfan megis materion gweryslla dros nos, defnyddio jetskis neu daflu sbwriel. Hefyd bu'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cefn Gwlad, Cymunedol ac Ymwelwyr yn cyfarfod yn gyson â chydweithwyr ar draws Cyngor Sir Penfro, yr Heddlu a phartneriaid eraill i helpu i ymateb ar y cyd i reoli materion lleol gan gynnwys mân achosion o dorri'r cyfyngiadau yn ystod y flwyddyn. Parhaodd Prif Weithredwr yr Awdurdod i gadeirio a mynychu cyfarfodydd Bwrdd Gwasanaethau Sir Benfro.

Roedd rhan benodol o faes parcio APCAP yn Saundersfoot wedi'i neilltuo i gefnogi'r rhaglen frechu COVID-19 ar y cyd â Chyngor Cymuned Saundersfoot a Chanolfan Feddygol Saundersfoot.

Maes Gwaith 5: Cynllunio ar gyfer Adferiad

Cynllunio Adferiad Mewnol

Wrth i Lywodraeth Cymru ddechrau proses o lacio cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â COVID-19 yn ystod y cyfnod clo cyntaf, gweithiodd yr Awdurdod gyda staff i ddrafftio Cynllun Adfer COVID-19. Roedd y Cynllun cyffredinol (â ffocws mewnol) yn cynnwys dwy ran:

Rhan A: a oedd yn cynnwys egwyddorion allweddol a ffactorau pwysig i'w hystyried er mwyn i staff barhau i ganolbwyntio ar ddiogelu eu hiechyd a'u lles eu hunain, cwsmeriaid a'r gymuned ehangach.

Rhan B: a oedd yn cynnwys nifer o gynlluniau manwl 'fesul adran' ar draws yr Awdurdod.

Rhan A oedd y fframwaith ar gyfer cynlluniau manwl ar lefel weithredol ac, yr un mor bwysig, ar gyfer asesiadau risg ar lefel adran a thasgau. Roedd y Cynllun(au) Adfer yn dilyn dull gweithredu fesul cam, a oedd yn bwysig o ran eu gwneud yn ymatebol i newidiadau mewn rheoleiddio yn ystod y flwyddyn.

Sefydlwyd proses gymeradwyo oedd yn cynnwys Tîm Arweinyddiaeth APCAP oedd yn cydweddu â'r cynllun i alluogi'r Awdurdod i ymateb i newidiadau yn y rheoliadau. Roedd Asesiadau Risg Adrannol yn mynd drwy broses o gymeradwyo gan lechyd a Diogelwch a gan y Cyfarwyddwr, i sicrhau bod mesurau digonol yn eu lle (gan gynnwys PPE) cyn bwrw ymlaen. Ymgynghorwyd yn helaeth â'r Staff a'r Undebau ar y Cynllun(iau) Adferiad, ac roeddent wedi cymryd rhan frwd yn y gwaith o lunio'r cynlluniau. Hefyd roedd y staff wedi cymryd rhan i ddatblygu'r Asesiadau Risg cysylltiedig, i sicrhau bod y staff yn cymryd rhan weithredol yn y broses o roi cynlluniau'r Awdurdod ar waith.

Cyfathrebu allan o COVID 19

Wrth ymateb i argyfwng COVID-19, roedd APCAP am ddarparu ffocws clir a gweledigaeth strategol i lywio ei gyfathrebu allanol. Yn sail i'r dull gweithredu hwn oedd yr angen i gyfathrebu'n glir ac yn gyson, gan ymateb yn aml pan oedd yr argyfwng yn ei anterth i ffactorau y tu hwnt i reolaeth yr Awdurdod. Datblygodd APCAP gynllun Cyfathrebu allan o COVID-19 oedd yn caniatáu i'r Awdurdod ymateb, ac ymateb yn ôl yr angen ac i sicrhau ei gynulleidfa oedd, yn enwedig y cymunedau lleol, mai eu blaenoriaeth yw eu diogelwch.


Y nod oedd i negeseuon adeiladu ar ddau gysyniad cyfarwydd â oedd yn canolbwyntio i ddechrau ar gadw'n ddiogel a dangos parch, gyda'r angen i negeseuon fod yn glir, ei gwneud yn hawdd i bobl wneud eu rhan a theimlo'n dda amdano.

Effaith gadarnhaol a hyd a lled y gweithgareddau o dan y cynllun:

- ✓ Oherwydd llwyddiant a chryfder y Cynllun Adferiad a'r modd y cyflawnir y cynllun, roedd APCAP wedi sicrhau cymorth mewn-da gan ddwy asiantaeth cysylltiadau cyhoeddus genedlaethol, y ddwy yn awyddus i gofleidio gweledigaeth gadarnhaol y Cynllun am ddiwydiant ymwelwyr mwy ymgysylltiol a chynaliadwy ar ôl COVID-19.
- ✓ Roedd y ffilmiau 'Adfer Natur' yn crisialu i'r dim naws a theimlad gwlad sy'n dyheu am well mynediad i'n tirweddau eiconig ac yn llwyr dderbyn ein negeseuon

'Troediwch yn Ysgafn'. Edrychwyd ar y ffilmiau bron i 500k o weithiau ac ymgysylltwyd â dros 600k o bobl ar draws ein sianeli cymdeithasol yn ystod y penwythnos cyntaf o wyntyllu, gan gysylltu â chynulleidfaoedd ledled y byd.

- ✓ Yn dilyn misoedd o faterion oedd yn ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ar draws pob Parc Cenedlaethol yn y DU, cymerodd APCAP y dull arloesol o weithio gyda'r actor Steffan Rhodri, sy'n fwyaf adnabyddus am ei rôl fel Dave Coaches ar gyfres gomedi boblogaidd y BBC Gavin and Stacey, i ymgysylltu â'r gynulleidfa anhraddodiadol oedd wedi profi i fod yn hynod anodd ei chyrraedd. Drwy ddefnyddio ein sianeli cyfryngau cymdeithasol, recordiwyd a chyhoeddwyd neges arbennig gan Steffan, yn annog pobl i ddefnyddio meysydd gwerysyla dynodedig wrth ymweld â'r Parc Cenedlaethol ac i barchu'r ardal. Roedd hanner miliwn a mwy o bobl (650k) wedi gwyllo'r fideo, ac roedd dros chwarter miliwn wedi gwyllo dros y pedwar diwrnod cyntaf o'i gyhoeddi. Mae Llywodraeth Cymru, Croeso Cymru a phartneriaid tirweddau gwarchoddedig ar hyd a lled y DU wedi cydnabod bod hyn yn fodd goleuedig o ymgysylltu â chynulleidfa oedd gynt yn anodd ei chyrraedd, ac mae'n enghraifft wych o fanteision defnyddio pobl ddylanwadol i ymgysylltu a lledaenu negeseuon y sector cyhoeddus heb fawr o gost.



Cefnogi Adferiad Allanol

Yn ystod y flwyddyn roedd APCAP wedi cyfrannu at nifer o grwpiau lleol a chenedlaethol megis Fforwm Mynediad Cymru ar COVID-19, Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Seilwaith Twristiaeth Sir Benfro, Croeso Cymru, Grŵp Cyfathrebu Awdurdodau Lleol a Grŵp Cyfathrebu Parciau Cenedlaethol

Cymru, i gyd yn ymwneud â gweithgareddau ehangach ar adfer twristiaeth a hamdden. Cafodd drafodaeth reolaidd hefyd gyda phartneriaid lleol a chenedlaethol fel Llywodraeth Cymru, Croeso Cymru, Heddlu Dyfed-Powys a Chyngor Sir Penfro. Mae staff hefyd wedi bod yn ymwneud â Chyngor Sir Penfro i gefnogi datblygiadau sy'n ymwneud â gwirfoddolwyr croesawu ymwelwyr. Ymweld â Sir Benfro yn parhau i gasglu cyngor ac arbenigedd i lywio gweithgarwch twristiaeth yn y dyfodol yn 2021, gydag Is-gadeirydd yr Awdurdod yn eistedd ar y bwrdd. Bu Parcmyr hefyd yn gweithio gyda phartneriaid i reoli materion hamdden wrth iddynt godi o ganlyniad i ddychwelyd ymwelwyr yn yr haf. Drwy ysgogi ei dîm Warden, roedd yr Awdurdod sicrhau bod Llwybr yr Arfordir wedi'i dorri a'i fod yn hygyrch pan ailagorodd.

O ran lechyd a Lles, roedd yr Awdurdod wedi cefnogi sefydlu gweithdai ar-lein gyda Rhwydwaith Gwasanaethau lechyd Naturiol Gorllewin Cymru, a sefydlu grŵp Basecamp ar-lein i helpu'r grŵp i gyfathrebu a rhannu gwybodaeth â'i gilydd. Datblygodd a chyflwynodd yr Awdurdod gais am gyllid Roots to Recovery mewn partneriaeth â MIND Sir Benfro a sicrhodd gyllid ar gyfer prosiect 1000 Diwrnod Cyntaf yn canolbwyntio ar blant cyn oed ysgol a'u rhieni a'u gwarcheidwaid.

Maes Gwaith 6: Cyflawni ein cyfrifoldebau cynllunio statudol

Gosod Cyfeiriad Hirdymor Polisi Cynllunio yn y Parc

Ar ôl derbyn adroddiad yr Arolygwyr ym mis Mai , mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol 2 yr Awdurdod (Dyddiad gorffen 2031) gan Aelodau yn yr APC ar 30 Medi 2020. Gohiriwyd mabwysiadu'r adroddiad ychydig oherwydd effaith cyfyngiadau COVID-19. Bydd y cynllun hwn yn dylanwadu ar gyfeiriad cynllunio'r Parc yn y dyfodol a chaiff ei weithredu ei fonitro drwy broses fonitro flynyddol.

Mae Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) yn nodi canllawiau manylach ar y ffordd y caiff polisiâu'r CDLI eu cymhwyso mewn amgylchiadau neu ardaloedd penodol. Cyhoeddwyd cyfres o ganllawiau cynllunio atodol ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod 2020/21 (Hydref 2020 -12 Chwefror 2021.) Roedd dau yn ddogfennau canllaw ar y cyd â Chyngor Sir Penfro ac Awdurdod y Parc Cenedlaethol:

- ✓ Archaeoleg (Ar y cyd)
- ✓ Bioamrywiaeth(Ar y cyd)
- ✓ Datblygu Carafannau, Gwersylla a Chalet
- ✓ Safonau Parcio
- ✓ Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol a Thai Fforddiadwy
- ✓ Ynni Adnewyddadwy
- ✓ Dylunio a Datblygu Cynaliadwy

Gwasanaeth Cynllunio – Effaith COVID-19 ac Ystadegau Perfformiad

Roedd y dull a gymerwyd i gyflawni cyfrifoldebau cynllunio yn ystod y flwyddyn yn unol â chyngor a roddwyd gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau cynllunio lleol. Effeithiwyd ar y gwasanaeth Rheoli Datblygu gan gyfyngiadau yn ystod y

flwyddyn oedd yn effeithio ar dasgau na ellid eu cyflawni gartref, yn enwedig yn ystod y cyfnod clo cyntaf, megis cyrchu archifau a deunydd arall copi caled, prosesu deunydd copi caled a dderbyniwyd yn Llanion, ymweld â safleoedd, creu hysbysiadau safle ar geisiadau cynllunio, ac argraffu ac anfon llythyrau hysbysu cymdogion. Roedd ceisiadau newydd a gyflwynwyd yn electronig yn parhau i gael eu prosesu ond yn y cyfnod cychwynnol Ch1 ni ellid penderfynu ar y ceisiadau hyn oherwydd yr anallu i ymweld â safleoedd a rhoi cyhoeddusrwydd i'r ceisiadau. Fodd bynnag, roedd yr Awdurdod yn gallu cyhoeddi penderfyniadau ar geisiadau cynllunio pe ymgynghorwyd yn llawn arnynt cyn y cyfyngiadau COVID-19.

Wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio fis Gorffennaf a dechrau ar weithgareddau adfer, roedd swyddogion wedi cynnal ymweliadau safle, roedd llythyrau a hysbysiadau safle yn cael eu prosesu, ac roedd hyn i gyd wedi golygu gallu symud ymlaen â'r gwaith o brosesu ceisiadau cynllunio a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod clo. Erbyn mis Awst roedd y swyddogion wedi llwyddo i bob pwrpas i glirio'r ôl-groniad o ymweliadau safle oedd yn gysylltiedig â cheisiadau cynllunio a gyflwynwyd adeg y cyfnod clo. Serch hynny, roedd nifer sylweddol o geisiadau yn aros i gael eu penderfynu ac wedi mynd dros y cyfnodau amser penderfynu.

Roedd caniatáu mwy o fynediad i Llanion fis Medi wedi cael effaith gadarnhaol ar allu'r tîm i symud ceisiadau yn eu blaen. Fodd bynnag, cafodd y cyfnod toriad tân a'r cyfnod clo dilynol effaith bellach ar allu swyddogion i gynnal ymweliadau swyddfa a safle, gydag ymweliadau safle yn bersonol yn ail-ddechrau fis Chwefror ond dim ond ar gyfer y rhai a ystyriwyd

yn flaenoriaeth uchel ac yn hanfodol. Yn ogystal â hyn, roedd yr adran yn wynebu problem sylweddol o ran cofrestru ceisiadau cynllunio newydd a cheisiadau cysylltiedig; prosesu ymholiadau; chwiliadau eiddo; ac achosion gorfodi newydd, oherwydd problem gyda chronfa ddata ceisiadau cynllunio APAS allanol yn Ch3. Cafodd y mater hwn ei ddatrys, ond roedd wedi achosi ôl-groniad ychwanegol o waith achos. Hefyd roedd absenoldeb salwch tymor hir wedi achosi problemau capasiti i'r tîm. Adlewyrchir effaith hyn yn yr ystadegau perfformiad cynllunio ar gyfer 2020/21.

Adroddiad Blynyddol ar Gyflawni Amcanion Llesiant 2020/21 - Amcan Llesiant: Ymatebol, Effeithiol ac yn Sicrhau Diogelwch

Mesur Perfformiad	2018/19 Gwirioneddol	2019/20 Gwirioneddol	2020/21 Gwirioneddol	2020/21 Targed	Meincnodi 2020/21
% y ceisiadau cynllunio a benderfynwyd o fewn y cyfnodau amser gofynnol (Dangosydd LLC)	89.8% (Gwyrdd)	92.64% (Gwyrdd)	66.31 (Ambr)	82%	APC Eryri: 64% APC Bannau Brycheiniog: 89%
Yr amser cyfartalog a gymerwyd i benderfynu ar bob cais cynllunio mewn diwrnodau (Dangosydd a Tharged LLC)	69 (Ambr)	88.25 (Ambr)	109.75 (Ambr)	<67	APC Eryri: 91 diwrnod APC Bannau Brycheiniog: 89 diwrnod
% y penderfyniadau a wnaed gan Aelodau yn erbyn argymhelliad swyddogion (Dangosydd a Tharged LLC)	3.85% (Gwyrdd)	9.09% (Coch)	7.14% (Ambr)	<5%	APC Eryri: 0% APC Bannau Brycheiniog: 0%
% yr apeliadau a wrthodwyd (Dangosydd a Tharged LLC)	100% (Gwyrdd)	71.43% (Gwyrdd)	75.00% (Gwyrdd)	>66%	APC Eryri: 67% APC Bannau Brycheiniog: 83%
Ceisiadau am gostau mewn apêl adran 78 a ganiatawyd yn ystod y cyfnod adrodd (Dangosydd a Tharged LLC)	0 (Gwyrdd)	0 (Gwyrdd)	0 (Gwyrdd)	0	APC Eryri: 0 APC Bannau Brycheiniog: 1
% y ceisiadau cynllunio a gymeradwywyd (nid yw hwn yn Ddangosydd gan Lywodraeth Cymru)	80.8% (Ambr)	79.75% (Coch)	92.45% (Gwyrdd)	90%	APC Eryri: 90% APC Bannau Brycheiniog: 94%
92.45%	o geisiadau cynllunio a benderfynwyd dan bwerau dirprwyedig yn 2020/21. Mae hyn yn ostyngiad o 93.25% yn 2019/20 a 94.80% yn 2018/19. Meincnodi 2020/21 – APC Eryri: 94%. APC Bannau Brycheiniog: 98%				
553	oedd nifer y ceisiadau cynllunio a gofrestrwyd yn 2020/21. Mae hyn yn ostyngiad ar 601 a gofrestrwyd yn 2019/20. Cofrestrwyd 487 yn 2018/19.				

Y Camau Nesaf: Cafodd y gwaith o brosesu a gweinyddu ceisiadau cynllunio ei effeithio gan reoliadau COVID 19 yn 2021/22. Bydd APCAP yn cymryd y dysgu o'n profiadau ac yn cychwyn adolygiad o'n prosesau a'n defnydd o dechnoleg i gefnogi proses gweinyddu ceisiadau cynllunio effeithlon. Dylai gwaith ehangach yr Awdurdod sy'n ymwneud â chefnogi lles staff hefyd helpu i feithrin gwydnwch o fewn y tîm rheoli datblygu yn y tymor hwy.

Maes Gwaith 7: Sicrhau bod mecanweithiau llywodraethu ac atebolrwydd effeithiol yn eu lle

Yn dilyn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (cyfarfodydd) (Cymru) 2020 symudodd cyfarfodydd pwyllgorau'r Awdurdod i gael eu cynnal yn rhithiol yn ystod 2020/21. Penderfynodd yr Awdurdod hefyd yn ei gyfarfod AP ar 6 Mai, i gynnal cyfarfodydd llif byw tra bod y rheoliadau hyn mewn grym.

30	Gweddarllediadau'r Pwyllgorau yn 2020/21.
342	Pobl yn edrych ar-lein ar weddarllediadau Pwyllgorau yn 2020/21.

Er mwyn cefnogi'r symudiad i gyfarfodydd rhithwir comisiynwyd sesiynau hyfforddi ffurfiol gan ddarparwr allanol i'r holl Aelodau ar gymryd rhan mewn a chadeirio cyfarfodydd o bell. Cynhaliwyd sesiynau ar wahân un-i-un hefyd gyda chadeiryddion pwyllgorau amrywiol.

Er mwyn galluogi parhad y gwasanaeth cynllunio yn ystod 2020/21 cytunodd yr Awdurdod ar ddiwygiad dros dro i'r cynllun o bwerau cynllunio dirprwyedig ar 6 Mai. Yna, estynnwyd y gwelliant dros dro hwn eto ar 29 Gorffennaf ac ar 2 Rhagfyr tan 16 Mehefin 2021.

Cynhaliwyd ymweliadau Safle Rhithwir hefyd i gefnogi Aelodau gyda'u penderfyniadau cynllunio.

Sefydlodd APCAP Dîm Ymateb Brys ar ddechrau'r Pandemig, dan gadeiryddiaeth y Prif Weithredwr. Pwrpas y grŵp yw ymateb ar y cyd i gyngor y Llywodraeth, lliniaru'r effeithiau ar adnoddau ariannol a phobl yr Awdurdod lle bo hynny'n bosibl, a rhoi arweinyddiaeth gref i'r staff. Cafodd Cyfarfodydd rhithiol o'r Tîm Arweinyddiaeth eu cynnal yn wythnosol i gefnogi'r llywodraethu mewnol, y rheoli gweithredol a'r gweithgareddau cynllunio adferiad. Parhaodd yr Awdurdod hefyd i fonitro risgiau drwy ei gofrestr risg, gyda'r gofrestr yn parhau i gael ei monitro a'i hadolygu gan Aelodau drwy'r Pwyllgor Archwilio a Gwasanaethau Corfforaethol a'r Pwyllgor Adolygu Gweithredol.

Maes Gwaith 8: Cyflawni ein rhwymedigaethau ariannol

Er gwaethaf effaith y symudiad i weithio o bell, parhaodd y tîm Cyllid i brosesu anfonebau a rhedeg y gofrestr gyflogau'n llwyddiannus yn ystod y flwyddyn. Cynhaliwyd gwaith parhaus o brosesu grantiau a chyfathrebu â chyllidwyr hefyd.

Roedd COVID-19 wedi effeithio ar incwm yr Awdurdod yn 2020/21, yn enwedig gan fod meysydd parcio yr Awdurdod ar gau am y rhan fwyaf o'r chwarter cyntaf, a chanolfannau APCAP ar gau am rannau helaeth o'r flwyddyn, a phan agorwyd y canolfannau hynny roedd hynny'n amodol ar gyfyngu nifer yr ymwelwyr. Hefyd roedd yr Awdurdod wedi ad-dalu tâl yr hysbysebwr yn Coast to Coast. Llwyddodd yr Awdurdod i liniaru'r colledion hyn yn yr incwm drwy gael grantiau cymorth ychwanegol drwy'r cynllun grant cynnal ardrethi, amrywiol grantiau cymorth Llywodraeth Cymru a Chynllun Cadw Swyddi Llywodraeth y DU.

Maes Gwaith 9: Gweithgareddau sy'n ategu amcanion hirdymor yr Awdurdod a monitro effeithiau ar ein gwasanaethau a'n prosiectau

Er gwaethaf effaith COVID-19, parhaodd APCAP yn ystod y flwyddyn i chwilio am gyfleoedd i ddarparu gweithgareddau sy'n cyfrannu at ei Amcanion Llesiant hirdymor a'i effeithiau o fewn Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol. Er gwaethaf effaith COVID-19, llwyddodd APCAP yn ystod y flwyddyn i barhau i chwilio am gyfleoedd i gyflawni gweithgareddau sy'n cyfrannu at ei Amcanion Llesiant tymor hir ac effeithiau hynny o fewn Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol. Mae'r adran nesaf hon yn rhoi mewnwelediad i effaith COVID-19 a'r adferiad ar gyflawni'r amcanion tymor hir ac ar brosiectau ar draws yr Amcanion Llesiant. Llwyddwyd i fwrw ymlaen â rhai gweithgareddau o fewn ffrydiau gwaith yn ystod 2020/21. Fodd bynnag, roedd codi neu ailosod cyfyngiadau a rheoliadau, neu gan yr Awdurdod yn gorfod addasu neu ail-flaenoriaethu ei waith i ganolbwyntio ar ymateb i faterion COVID-19, wedi effeithio ar nifer ohonynt, yn enwedig y rhai oedd yn golygu cyswllt wyneb yn wyneb rhwng unigolion. Yn ôl y disgwyl mewn rhai achosion roedd hyn yn golygu na chynhaliwyd gweithgareddau o dan rhai ffrydiau gwaith yn ystod 2020/21. Mae'r gweithgareddau sy'n cyfrannu at gyflawni ein Hamcanion Llesiant yn y tymor hir wedi'u hadolygu a'u blaenoriaethu fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau 2021/22. Mae rhai gweithgareddau heb eu cario ymlaen neu wedi'u diwygio i amlygu'r newidiadau yn y modd y cânt eu cyflawni. Bydd yr adolygiad ehangach o flaenoriaethau'r Awdurdod yn 2021/22 hefyd yn sbarduno adolygiad o Amcanion Llesiant yr Awdurdod a'r gweithgareddau a ymgwymerir gan yr Awdurdod i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r amcanion.

Amcan Llesiant Llewyrchus: Cefnogi ac annog datblygiad cyflogaeth a busnesau cynaliadwy, yn enwedig ym maes twristiaeth a hamdden.

Ffrydiau gwaith a roddodd gymorth i gyflawni'r amcan hwn yn 2020/21

Polisiâu Cynllunio a'r Gwasanaeth Cynllunio	Cynnal Hawliau Tramwy Cyhoeddus sy'n Ased Twristiaeth	Twristiaeth a Hamdden Gynaliadwy Rheoli a Hyrwyddo
Ymgysylltu â Thwristiaeth a Chynulleidfaoedd Newydd	Cefnogi Busnesau Lleol	Trawsnewid Cyflogaeth yn Sir Benfro

Crynodeb o'r Diogelwr Taith – Ein Cynnydd yn erbyn yr Amcan hwn

Yn ystod 2020/21 mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol 2 yr Awdurdod a bydd hyn yn dylanwadu ar gyfeiriad polisi cynllunio yn y Parc yn y dyfodol. Mae'r Awdurdod yn parhau i gynnal Llwybr yr Arfordir, ac roedd y gweithgareddau i ddefnyddio tîm y wardeniaid i dorri'r llystyfiant yn golygu, unwaith y byddai'r cyfnodau clo dros dro yn dod i ben, bod y cymunedau lleol ac ymwelwyr yn gallu cerdded ar y llwybr a chael budd o ddefnyddio Llwybr yr Arfordir yn 2020/21. Mae gweithio mewn partneriaeth wedi chwarae rhan hanfodol yn yr adferiad o reoli'r cyrchfannau yn dilyn effaith COVID-19 ar dwristiaeth leol, gyda strategaeth yr APCAP o Gyfathrebu Allan o COVID yn helpu i hyrwyddo negeseuon allweddol i gynulleidfaoedd. Wrth i'r rheoliadau gael eu llacio dros fisoedd yr haf roedd gweithio mewn partneriaeth hefyd yn ganolog i'r gwaith o reoli materion hamdden a'r pwysau yn sgîl hamdden.

Hefyd roedd Oriol y Parc wedi gallu parhau i gefnogi artistiaid a busnesau lleol, yn unol â'r rheoliadau, drwy gynnal arddangosfeydd, gwerthu nwyddau, a chyfleoedd i berchnogion gynnal stondinau yn y marchnadoedd pop-yp. Helpodd dulliau hyfforddi ar-lein yn ystod y flwyddyn i ddarparu cyfleoedd datblygu sgiliau i wirfoddolwyr.

Mae ein gwaith ar draws y ffrydiau gwaith hyn yn cyfrannu at y dangosyddion llesiant cenedlaethol canlynol

21. Y ganran o'r bobl sydd mewn gwaith	28. Y ganran o'r bobl sy'n gwirfoddoli
22. Y ganran o'r bobl mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, wedi'i mesur ar gyfer gwahanol grwpiau oedran	42. Allyriadau nwyon tŷ gwydr sydd i'w priodoli i ddefnyddio nwyddau a gwasanaethau byd-eang yng Nghymru
16. Y ganran o'r bobl sydd mewn gwaith, sydd ar gontractau parhaol (neu ar gontractau dros dro, ac nad ydynt yn ceisio gwaith parhaol) ac sy'n ennill mwy na 2/3 o gyflog canolrifol y DU.	

Mae'r adran nesaf yn amlinellu ein perfformiad yn 2020/21 yn erbyn y ffrydiau gwaith sy'n cyfrannu at ein Hamcan Llesiant Llewyrchus.

Gweler [Maes Gwaith 6: Cyflawni ein cyfrifoldebau cynllunio statudol](#) am wybodaeth am ffrwd waith Polisiau Cynllunio a'r Gwasanaeth Cynllunio.

Ffrwd Waith: Cynnal Hawliau Tramwy Cyhoeddus sy'n Ased Twristiaeth

Hirdymor - Ffyrdd Newydd o Weithio: Prosiect y Parc Digidol

Nod Prosiect y Parc Digidol yw gwella systemau 'cefn swyddfa' ar gyfer Wardeiniaid a thimau cysylltiedig, mewn meysydd fel cofnodi gwaith, casglu data ac amserlennu drwy broses ddigido a symleiddio. Yn 2020/21 cafodd y systemau a gyflwynwyd gan y broses Parc Digidol eu hymgorffori yn systemau'r tîm Wardeniaid oedd wedi helpu i gynnal rhywfaint o gyswllt wyneb yn wyneb a gweithio o bell.

Bellach mae Arc Online yn cael ei ddefnyddio ar draws y Tîm Wardeniaid gyda'r holl waith rheoli hawliau tramwy a llystyfiant yn cael ei reoli drwy'r Rheolwr Gweithlu. Defnyddir yr Ap Cofnodi Diffygion i gofnodi materion sydd angen eu trwsio, ac roedd Arolygon Llwybrau a Phontydd yn cael eu cofnodi drwy ddefnyddio Ap Symudol. Bellach mae'r Tîm Parcmy'n â mynediad i'r Ap Cofnodi Diffygion ac maent yn rhan o'r Rheolwr Gweithlu, felly gall y Rheolwyr Ardal ddyrannu gwaith naill ai i'r Timau Wardeniaid neu i'r Tîm Parcmy'n (ac felly i'r Gwirfoddolwyr). Mae'r Gronfa Ddata

Cadwraeth wedi'i chau, ac mae'r Gweinyddwr Cadwraeth yn mewnbynnu'r holl waith ar-lein i'r Rheolwr Gweithlu i'w ddyrannu ymlaen gan y Tîm Rheolwr Ardal. Mae gan y Tîm Hawliau Tramwy a'r Tîm Cadwraeth fynediad i Ddangosfwrdd i weld bod y gwaith yn cael ei gyflawni mewn amgylchedd byw.

Datblygu cysylltiadau llwybrau troed a chreu teithiau cylchol newydd

Erbyn diwedd 2020/21 cafodd Cytundebau Rheoli eu cwblhau a'u cyfnewid i'w llofnodi ar gyfer datblygu cyswllt llwybr troed newydd rhwng Casnewydd a Nanhyfer, Llwybr Pwll Cornel. Bydd hyn yn galluogi i waith gwella perthnasol gael ei wneud yn 2021/22.

Cafodd y gwaith ar wella'r llwybr cyhoeddus yn Nhrewyddel i ffurfio taith gylch o Landudoch drwy Trewyddel a Thraeth Poppit ei effeithio gan COVID-19. Serch hynny llwyddwyd i wneud gwaith ar y llwybr yn unol â'r cyfyngiadau/blaenoriaethau gwaith yn ystod y flwyddyn. Bydd gwaith ar yr adran olaf i'w wella yn cael ei wneud yn 2021/22.

Atal: Cynyddu cydnerthedd rhag difrod gan stormydd y gaeaf

Ym mis Medi cwblhawyd y gwaith o sefydlogi Llwybr Arfordir Aberforrest gan gontractwr. Roedd hyn yn dilyn derbyn Caniatâd Trwydded Forol ym mis Mai. Cynhaliwyd adlinio Llwybr yr Arfordir ger Ystagbwill, Maenorbÿr a De Studdock, Angle i adlinio Llwybr yr Arfordir i ffrwd o dir ansefydlog.

Cydweithredu: Partneriaethau Strategol ac Ymgysylltu

Cyngor Sir Penfro oedd Ysgrifenyddiaeth y Fforwm Mynediad Lleol yn 2020/21. Cafwyd rhai anawsterau wrth geisio cynnal cyfarfod rhithiol o'r fforwm ddechrau'r flwyddyn, oherwydd materion oedd yn ymwneud â mynediad aelodau'r fforwm i'r rhyngwyd. Serch hynny, parhaodd APCAP i ddiweddarau'r ysgrifennydd yn ystod y flwyddyn drwy'r e-bost a ddsbarthwyd wedyn i'r aelodau, a chynhaliwyd cyfarfod rhithiol mynediad lleol o'r fforwm fis Ionawr.

Parhaodd swyddog APCAP i gymryd rhan yng ngweithgareddau ymgysylltu Deddfwriaeth Mynediad Llywodraeth Cymru, gan gynnwys rhoi sylwadau ysgrifenedig ar rinweddau opsiynau polisi a chymryd rhan mewn cyfarfodydd rhithwir. Cynhaliwyd cyfarfod diwethaf panel arbenigol Llywodraeth Cymru ym mis Ionawr, gyda CNC yn paratoi adroddiad o'r opsiynau yr oeddent yn eu ffafrio ar gyfer diwygio deddfwriaeth mynediad.

Mynediad, Defnydd a boddhad

Cafodd rhannau o Lwybr yr Arfordir eu cau i'r cyhoedd yn ôl gofynion rheoliadau perthnasol COVID-19 rhwng mis Mawrth a Mehefin y 29ain 2020, a chyhoeddwyd manylion y llwybrau oedd ar gau ar wefan APCAP. Ar ôl i APCAP ailagor rhannau o Lwybr yr Arfordir, parhaodd yr Awdurdod i sicrhau bod dros 86% o Hawliau Tramwy Cyhoeddus y Parciau yn agored ac yn hygyrch yn 2020/21.

86.87%

yr Hawliau Tramwy Cyhoeddus sy'n agored ac ynhygyrch gan gyrraedd y safon ansawdd yn 2020/21. Mae hyn yn cymharu ag 86.83% yn 2019/20 ac 86.92% yn 2018/19.

Cadwodd Llwybr Arfordir Sir Benfro ei sgôr lefel 5 ar Trip Advisor yn 2020/21.

Mesur Perfformiad	2018/19	2019/20	2020/21	2020/21 Targed
Llwybr Arfordir Sir Benfro Sgôr Gyffredinol Trip Advisor 1-5.	5 (Gwyrdd)	5 (Gwyrdd)	5 (Gwyrdd)	5

Fel y disgwyliid, mae'r ffigurau o'r 7 cownter llwybr arfordir a 4 cownter hawliau tramwy mewndirol (HTM) yn adlewyrchu effaith COVID 19 ar gau llwybrau'r arfordir, haf prysur ac effaith teithiau cerdded ar y drws i'r rhai sy'n byw yn y Parc.

7 cownteri llwybr arfordir	C1	C2	C3	C4
2020/21	5,750	99,483	18,337	10,877
2019/20	62,916	79,992	17,922	13,276

4 cownteri HTM	C1	C2	C3	C4
2020/21	4,572	12,203	5,166	3,651
2019/20	7,798	8,315	4,100	3,429

Ffrwd Waith: Twristiaeth a Hamdden Gynaliadwy Rheoli a Hyrwyddo (A6)

Integreiddio: Rheoli Cyrchfannau

Roedd yr Awdurdod wedi cefnogi'r bwriad i gael Sefydliad annibynnol newydd i Reoli Cyrchfannau yn 2019/20 fel y ffordd orau ymlaen i gyflawni gwasanaethau twristiaeth ar hyd a lled Sir Benfro dros y pum mlynedd nesaf. I ddechrau yn 2020/21 sefydlwyd bwrdd cysgodol gyda Phrif Weithredwr APCAP yn cynrychioli'r Awdurdod ar y bwrdd. Daeth Croeso Sir Benfro yn endid cyfreithiol fis Tachwedd 2020, a phenodwyd Prif Weithredwr i'r sefydliad. Penodwyd Is-gadeirydd yr Awdurdod yn Gyfarwyddwr ar ei Fwrdd gan yr Awdurdod. Bydd yr Awdurdod yn parhau i ddatblygu perthynas waith gadarnhaol gyda Croeso Sir Benfro, gan helpu i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r cynllun rheoli cyrchfannau ac adferiad COVID-19.

Brandio APCAP

Yn dilyn amrywiaeth o weithgareddau brandio a gynhaliwyd yn 2019/20, elfen olaf y gwaith hwn oedd edrych ar Gynllun

Llysgenhadon Brand. Cynhaliwyd ymarfer cwmpasu yn 2020/21 a chynhyrwyd adroddiad dichonoldeb. Oherwydd effaith COVID-19 rhagwelir y bydd gwaith i ddatblygu Cynllun Llysgenhadon ymhellach yn cael ei oedi tan dymor 2022.

Cydweithio ac Integreiddio: Rheoli Hamdden Yn Gynaliadwy

Mae APCAP yn hwyluso'r Grŵp Hamdden, sy'n cynnwys ystod eang o rhanddeiliaid, gan gynnwys PCC, Fforwm Arfordir Sir Benfro, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt, Awdurdod Porthladd ac RNLI. Cymerodd aelodau'r grŵp hwn ran mewn gweithdai/cyfarfodydd ymgysylltu rhithwir yn ystod rhan gyntaf y flwyddyn i edrych ar faterion hamdden dros yr haf. Helpodd hyn gyda chynllunio a chydlynu materion gweithredol, rheoli safleoedd a gweithgarwch gyda sefydliadau partner yn ystod cyfnod y pandemig.

Mae'r grŵp hwn hefyd yn goruchwylio'r ddogfen 'Rheoli Pwysau a Phrofiadau Ymwelwyr yn Arfordir Penfro'. Diwygiwyd y ddogfen yn dilyn y gweithgareddau ymgysylltu hyn gyda materion cynllunio hamdden COVID-19 allweddol yn cael eu cynnwys, gan ymdrin ag ystyriaethau sy'n amrywio o aflonyddwch bywyd gwylt, teithio a thrafnidiaeth, gweithgareddau hunanarweiniedig, hylendid ac ymbellhau cymdeithasol, pwysau lleoliad, a chysylltiadau cymunedol. Bydd y ddogfen yn cael ei hadolygu ar gyfer tymor 2021 drwy ymgysylltu ag aelodau'r Grŵp Hamdden.

Parhaodd tîm y Ceidwaid yn ystod 2020/21 i weithio'n agos gyda phartneriaid a rhanddeiliaidaliad ar ddull cydweithredol o reoli hamdden yn gynaliadwy yn y Parc:

- ✓ Parhau i ymgysylltu â Fforwm Diogelwch Dŵr Sir Benfro, sy'n cynnwys PCNPA, RNLI, Cyngor Sir Penfro, Gwylwyr y Glannau a phartneriaid eraill Mae'r Awdurdod yn cofnodi digwyddiadau blaendraeth i fwydo i mewn i waith y Fforwm Diogelwch Dŵr. Roedd tymor gwyliau'r haf yn eithriadol o brysur ar ôl datgloi gyda chynnydd sydyn mewn digwyddiadau, yn ymwneud yn bennaf â dŵr fel toriad llanw a kayaks wedi'u capio.
- ✓ Roedd Rheolwr y Gwasanaeth Parcmyn wedi cadeirio'r Grŵp Cyswllt Traethau Sir Benfro yn ystod y flwyddyn. Mae'r grŵp hwn yn bartneriaeth sydd wedi hen sefydlu o bartneriaid statudol, cyhoeddus a gwirfoddol sy'n cyflawni Strategaeth Traethau Sir Benfro.
- ✓ Roedd y Parcmyn wedi cyfarfod â Chyngor Cymuned Llandyfai a phartion oedd â budd mewn rheoli jetskis yn Freshwater East ac wedi cysylltu â defnyddwyr jetskis yn dilyn cwynion.
- ✓ Cadeiriodd APCAP Grŵp Cyswllt Dringo'r Clogwyni Blynyddol. Cynhaliwyd ymgynghoriad â Grŵp Hamdden a Mynediad Ystod Castellmartin drwy gyfnewidfa e-bost yn hytrach na'r cyfarfod blynyddol arferol oherwydd COVID-19.
- ✓ Roedd y swyddogion wedi parhau i ymgysylltu drwy gynnal cyfarfodydd rhithiol yn ystod y flwyddyn â'r Grŵp Llywio'r Siarter Awyr Agored a'r Grŵp Rheoli Hamdden Dyfrffordd Aberdaugleddau, gan gyfrannu at ail-drafftio'r Cynllun Rheoli Hamdden Dyfrffordd Aberdaugleddau.
- ✓ Parcmyn yn cyfrannu at sesiynau hyfforddi ar gyfer Aelodau Fforwm Arfordirol Sir Benfro a Busnesau Twristiaeth a chyflwynodd ddiwyddiad hyfforddi ar adar

môr ar gyfer y Siarter Awyr Agored, y Cod Morol ac aelodau PCF.

- ✓ Cymerodd Rheolwr Gwasanaeth Parcmyn ran yng Ngweithdy Rheoli Hamdden Cynaliadwy Morol Cymru.

Mae'r Awdurdod wedi ariannu Prifysgol Abertawe i wneud ymchwil i reoli digwyddiadau'n gynaliadwy. Y nod yw y bydd yr ymchwil hon yn helpu'r Awdurdod a phartneriaid i ddefnyddio dull rhagweithiol o reoli digwyddiadau, gan ein helpu i ymgysylltu'n well â threfnwyr digwyddiadau ac i reoli'r nifer gynyddol o ddiwyddiadau 'her' cyn ein bod yn dod ar draws materion o ran gordefnyddio Yn anffodus oherwydd effaith COVID-19 ar ddarparwyr digwyddiadau a'r sector hamdden a chyfranogwyr posibl ar ffyrlo, ni lwyddodd y prosiect i gynnal gweithdai oedd wedi'u cynllunio gyda'r sector yn ystod 2020/21. Mae dyddiad cau'r prosiect wedi'i ymestyn a'r gobaith yw y bydd amgylchiadau'n galluogi i'r prosiect gael ei ddatblygu yn 2021/22.

Tueddiadau Ymholiadau a Thrwyddedau Ffilmio

6	o drwyddedau ffilmio wedi'u rhoi gan APCAP yn 2020/21. Dyma'r un nifer ag yn 2019/20. Cyhoeddwyd 14 yn 2018/19.
26	ymholiadau ffilmio a dderbyniwyd gan yr Awdurdod yn 2020/21. Mae hyn yn ostyngiad ar y 45 ymholiad yn 2019/20 a 65 yn 2018/19.

Ffrwd Waith: Ymgysylltu â Thwristiaeth a Chynulleidfaedd Newydd

Cynnwys a Chydweithio: Ymgysylltu â chynulleidfaedd newydd a busnesau lleol

Roedd sefydlu Mannau Darganfod ar safleoedd ledled y Parc Cenedlaethol yn argymhelliad o'r ymgynghoriad dehongli, 'Cipio'r Arfordir' 2019. Mae'r pwyntiau hyn a sefydlwyd mewn partneriaeth â sefydliadau a busnesau yn rhoi cyfle i roi gwybod i'r cyhoedd am gyfleoedd o fewn y Parc Cenedlaethol ac yn ategu'r wybodaeth sydd ar gael ar Coast to Coast a gwefan APCAP. Cynhyrchwyd 9 paneli pwyntiau darganfod a'u gosod mewn 7 lleoliad busnes ar draws y Parc yn 2020/21, gyda chynlluniau ar gyfer rhoi o leiaf 60 yn fwy o bwntiau yn 2021/22. Mae lleoliadau 2020/21 yn cynnwys:

Caffi Whitesands	Hufen Ia Pointz Castle
Tregroes Carafanau, Gwersylla a Chlampio	Llinell Stena yn Wdig
Hostel Ieuenctid Aberllydan	Hostel Ieuenctid Maenorbŷr
Hostel Ieuenctid Pwll Deri	

Cyflogodd APCAP un parcryn haf ar gyfer tymor yr haf 2020/21. Drwy ddarparu gwybodaeth yn y fan a'r lle, syniadau am weithgareddau a gweithgareddau naid o bell, gan gynnwys ar draethau, roeddent yn cynorthwyo'r Awdurdod i estyn allan at gynulleidfaedd ymwelwyr newydd. Roedd gweithgareddau o bell yn cynnwys gweithgareddau sbotio natur ym Mhen Strumble, adnabod creaduriaid pwll creigiau yn Poppit Sands a Maenorbŷr a chrancod yn Abergwaun Isaf a Phorthclais.

Digwyddodd y gweithgareddau hyn yn ystod chwarter 2 yn unol â'r rheoliadau COVID-19 perthnasol ar y pryd.

888

Pobl yn yn mynychu digwyddiadau pop-yp yn 2020/21. Mae hyn yn cymharu â 1,212 yn 2019/20 a 2,098 yn 2018/19. Yn 2019/20 ac yn 2018/19 roedd dau barcryn haf yn gweithio i'r Awdurdod.

Mewn blynyddoedd blaenorol canolbwyntiodd gweithgareddau ymgysylltu parcryn yr haf ar feithrin cysylltiadau cadarnhaol â busnesau lleol, ond eleni roedd eu ffocws yn fwy ar ddarparu gwybodaeth i dwristiaid. Darparodd Parcryn yr Haf wybodaeth i dwristiaid ar draws y lleoliadau canlynol Maenorbŷr, Caerfai, Solfach, Niwgwyl, Poppit Sands, Aberllydan, Little Haven, Nolton Haven, Strumble, Abergwaun Isaf, Porthclais, Bae Gorllewin Angle.

1,282

o bobl yr ymgysylltwyd â hwy drwy waith y parcryn haf, gwybodaeth i dwristiaid a'r gweithgareddau rhwydweithio â'r cyhoedd yn gyffredinol yn 2020/21. Mae hyn yn gynydd ar 395 yn 2019/20, ond mae'n amlygu mwy o ffocws ar ymgysylltu drwy gyflwyno gwybodaeth i dwristiaid.

Mae'r Awdurdod wedi sicrhau cyllid i recriwtio pedwar parcryn haf ar gyfer tymor yr haf 2021. Dylai ychwanegu mwy o barcryn haf roi hwb cadarnhaol i'r gweithgareddau o ymgysylltu ag ymwelwyr yn ystod cyfnod sy'n argoeli i fod yn haf prysur iawn.

Mae Staff APCAP wedi gweithio gyda Croeso i Sir Benfro a Chyngor Sir Penfro i gefnogi prosiect Croeso i Ymwelwyr Sir Benfro ar gyfer tymor 2021. Bydd gwaith gwirfoddolwyr Croeso i Ymwelwyr APCAP yn cael ei gyfuno â'r prosiect Croeso i Ymwelwyr ehangach ar gyfer Sir Benfro. Mae Timau Darganfod a Parmon o dan faner Golwg ar y Parc wedi creu amrywiaeth o fideos byr a chynnwys ategol a ddefnyddir fel rhan o hyfforddiant/ymsefydlu'r timau Croeso i Ymwelwyr (staff a gwirfoddolwyr.)


Cyflwynwyd sesiwn hyfforddi Golwg ar y Parc i wirfoddolwyr ym mis Rhagfyr gan y Swyddog Datblygu Gwirfoddolwyr ac un o'r Tîm Parcmyrn. Sesiwn hybrid oedd hon gydag adran rithiol yn y bore a ategwyd gan daith gerdded pellter cymdeithasol yng Nghastell Caerw yn y prynhawn. Bwriedir cynnal sesiynau tebyg yn ystod 2021.

Hirdymor: Creu Ardal Coetir yn OYP (A6)

Er bod y ganolfan ar gau ac roedd y staff ar ffyrlo ar gyfer rhannau helaeth o'r flwyddyn, parhaodd y staff gweithio pan allent ar gynllun dehongli'r ganolfan sydd yn rhan allweddol o gynllun busnes y ganolfan. Drwy weithio mewn partneriaeth â'r Tîm Wardeniaid a'r Warden Peillwyr i helpu i gefnogi gwell bioamrywiaeth, mae gwrych newydd, coed ffrwythau a llwyni ffrwythau wedi'u plannu yn y Coetir yn Oriol y Parc. Mae cynlluniau ar y gweill i ychwanegu rhywfaint o ddeunydd esboniadol, cerflun helyg, blychau adar, 'crow-cam' a llawer mwy yn 2021/22.

Effaith COVID 19 ar # Ymwelwyr yn Oriol Y Parc

Gostyngodd nifer yr ymwelwyr yn Oriol Y Parc 76% yn 2020/21 gan adlewyrchu effaith rheoliadau COVID-19 ar y ganolfan. Ailagorodd y ganolfan ym mis Gorffennaf, ar ôl bod ar gau ers canol mis Mawrth 2020 oherwydd cyfyngiadau COVID-19, fe'i caewyd eto yn ystod y cyfnod atal byr, ac arhosodd ar gau o 4 Rhagfyr ymlaen am weddill y flwyddyn. Pan agorwyd cyfyngwyd niferoedd i gydymffurfio â rheoliadau ar ymbellhau cymdeithasol



Mesur Perfformiad	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21
Nifer Ymwelwyr OYP	127,205	129,004	113,394	27,208

Arhosodd sgôr Trip Advisor Oriol Y Parc am 4.5 allan o 5 yn 2020/21.

Mesur Perfformiad	2018/19	2019/20	2020/21	2020/21 Targed
Sgôr Gyffredinol 1-5 Trip Advisor am Oriol y Parc	4.5 (Gwyrdd)	4.5 (Gwyrdd)	4.5 (Gwyrdd)	4.5

Cynnwys: Gwefan APCAP

Yn ystod 2020/21 lansiodd APCAP ei wefan newydd sy'n cydfynd â'r brandio cyrchfan. Mae'r wefan newydd wedi cynyddu ymarferoldeb gan gynnwys system archebu ar-lein ar gyfer digwyddiadau ac wedi chwarae rhan bwysig yn y gwaith o ddarparu gwybodaeth wedi'i diweddarau am gyngor sy'n gysylltiedig â COVID-19 i'r rhai sy'n ymweld â'r Parc neu'n defnyddio gwasanaethau APCAP.

Ar ôl symud i wefan newydd, system rheoli cynnwys a system archebu ar-lein, darparwyd hyfforddiant i staff perthnasol. Bydd yr hyfforddiant hwn, gan gynnwys hyfforddiant gloywi, yn parhau yn 2021/22 o ran sicrhau bod yr holl staff canolfan perthnasol a oedd gynt ar ffyrlo neu staff tymhorol newydd yn gallu defnyddio'r systemau.

Oherwydd y trosglwyddiad i'r wefan newydd, nid oedd data Google Analytic ar gyfer mis Mai ar gael ar gyfer 2020/21. Mae hyn wedi effeithio ar ffigurau golygfeydd tudalennau'r prif wefan a defnyddwyr y prif wefan yn 2020/21.

217,710	ddefnyddwyr y prif wefan yn 2020/21. Mae hyn yn cymharu â 281,598 yn 2019/20 a 342,780 yn 2018/19.
810,199	golygfeydd tudalennau'r prif wefan yn 2020/21. Mae hyn yn cymharu 1,430,889 yn 2019/20 a 1,301,963 o safbwyntiau yn 2018/19.

Cydweithio ac Integreiddio: Prosiect ar y cyd i farchnata Cymru ac Iwerddon

Prosiect partneriaeth Interreg ym maes treftadaeth twristiaeth yw "Llwybrau Celtaidd". Mae'r prosiect yn cael ei arwain gan Gyngor Sir Caerfyrddin ac mae hefyd yn cynnwys Cyngor Sir Ceredigion, APCAP a Chynghorau Sir Wicklow, Wexford a Waterford yn Iwerddon. Mae Llwybrau Celtaidd yn gasgliad o brofiadau twristiaeth, wedi'i frandio sy'n annog teithwyr i Ddeddwyrain Iwerddon a Gorllewin Cymru drwy gynnig nifer o brofiadau treftadaeth ddiwylliannol trochi a dilys

Roedd gweithgareddau a chanlyniadau'r prosiect yn 2020/21 yn cynnwys:

- ✓ Cyllid ar gyfer cais cam 2 a Gymeradwywyd gan WEFO cyllid ar gyfer cais cam 2. Cafodd y cais gefnogaeth gan Aelodau'r Awdurdod ar 2 Rhagfyr. Bydd Cam 2 yn ymestyn y prosiect presennol tan ddiwedd Mai 2023.
- ✓ Mae 'porthol pecyn brand' wedi'i ddatblygu i ganiatáu i ystod o sefydliadau ddefnyddio'r deunyddiau marchnata (yn enwedig y llyfrgell helaeth o fideos a ffotograffiaeth) a

grëwyd ar gyfer y prosiect Llwybrau Celtaidd, a hynny yn ddi-dâl.

Ffrwd Waith: Cefnogi Busnesau Lleol

Cydweithio: Cefnogi Busnesau Lleol

Yn anffodus oherwydd effaith COVID-19 gorfodwyd Oriol y Parc i ganslo Gŵyl Bwyd a Chefn Gwlad Wyllt 2020 ar ddydd Sadwrn 30 Mai. Mewn ymateb, cynhaliodd Wyl Bwyd a Chefn Gwlad Rhithwir ym mis Mai

Drwy gydol mis Mai, defnyddiwyd y cyfryngau cymdeithasol i arddangos y busnesau bach, elusennau, sefydliadau ac artistiaid a fyddai wedi bod yn yr Wyl, drwy bostio ychydig am bob un ar ei thudalennau Facebook.

Ail-agorodd arddangosfeydd artistiaid lleol ym mis Awst 2020 yn Oriol y Parc gyda thri artist yn arddangos ar y safle a oedd yn cynnwys cyfleoedd gwerthu manwerthu ychwanegol ochr yn ochr â'r arddangosfeydd. Roedd gwerthiant arddangosfeydd ar gyfer mis Awst yn dda, gydag adborth cadarnhaol gan yr artistiaid, gan gynnwys:

“Roedd ailagor Oriol y Parc yn hwb i'r galon i mi ac rwy'n hynod ddiolchgar fy mod wedi cael cyfle i arddangos fy ngwaith yno fis Awst. Rwy'n arlunydd hunangyflogedig ac rwyf hefyd yn cynnal gweithdai celf yn bennaf ar gyfer ymwelwyr. Cafodd y cyfnodau clo effaith fawr ar fy ngallu i ennill bywoliaeth gan fod pob oriel sy'n dangos fy ngwaith ar gau, ac nid oedd cyfle ychwaith i addysgu. Nid yw pob oriel

wedi ailagor hyd yn hyn felly roedd cael y cyfle i gynnal yr arddangosfa hon wedi bod yn fendith i mi ac wedi bod o gymorth i'm cael yn ôl ar fy nhraed. Gwnaeth y tîm yn Oriol y Parc bopeth yn hwylus ac yn ddiogel yn yr amgylchiadau sydd ohoni. Mae'r gefnogaeth wedi bod yn arbennig. Diolch.”

Er mwyn cefnogi gwneuthurwyr lleol i werthu eu gwaith, trefnodd Oriol y Parc dri phenwythnos o farchnadoedd Nadolig dros dro yn ei cwrt allanol ym misoedd Tachwedd a Rhagfyr. Er i OYP gau ar 4 Rhagfyr oherwydd cyfyngiadau Llywodraeth Cymru, roedd ei marchnadoedd Nadolig awyr agored dros dro ym mis Rhagfyr yn ei chwrt allanol yn dal i allu digwydd ar y 5ed, y 6ed a'r 12fed. Roedd presenoldeb da yn y marchnadoedd ac adborth cadarnhaol gan ddeiliaid stondinau:

“Diolch o galon am drefnu'r digwyddiadau. Roedd pob un a fynychwyd gennym wedi bod yn llwyddiant mawr i ni ac yn ffynhonnell wych o incwm ychwanegol mewn blwyddyn oedd fel arall yn flwyddyn ddilewyrch.”

38

o stondinwyr a gymerodd ran mewn ffeiriau a digwyddiadau yn Canolfannau yn 2020/21. Mae hyn yn cymharu â 185 yn 2019/2020 a 249 yn 2018/19

13

o artistiaid a chrefftwyr a gefnogir yn Oriol y Parc yn 2020/21. Mae hyn yn cymharu â 27 yn 2019/20 a 22 yn 2018/19.

Llwyddodd yr Awdurdod drwy gymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru i ad-dalu hysbysebwr Coast 2 Coast a oedd wedi gosod hysbysebion yn Coast to Coast 2020.

Roedd hyn yn arbennig o bwysig o ran dangos cefnogaeth i fusnesau lleol yr oedd COVID-19 a chyfyngiadau cysylltiedig wedi effeithio ar weithgareddau busnes nifer fawr ohonynt.

Cydnherth: Caffael a Chefnogi Cyflenwyr Lleol

Gwelodd yr Awdurdod ostyngiad yng % ei wariant a wariwyd yn lleol (cod post SA) o'i gymharu â 2019/20.

39.14%

y gwariant yr Awdurdod a wariwyd yn lleol yn ardal cod post SA yn 2020/21. Mae hyn yn ostyngiad o 48.42% yn 2019/20 a 46.44% yn 2018/19.

Mae talu cyflenwyr yn brydlon yn arbennig o bwysig o ran cefnogi busnesau llai. Gwelodd yr Awdurdod ostyngiad bach yn % yr anfonebau a dalodd yn brydlon yn 2020/21 o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol.

95.65%

yr anfonebau a dalwyd ar amser (Cyfartaledd) yn 2020/21. Mae hyn yn ostyngiad o 97.01% yn 2019/20 a 96.33% yn 2018/19. Meincnodi 2020/21 – APC Eryri: 99.28%. APC Bannau Brycheiniog: 76%.

Y Camau Nesaf: Oherwydd effaith ail-flaenoriaethu gweithgareddau oherwydd COVID-19 yn ystod y flwyddyn, nid oedd APCAP yn gallu cynnal adolygiad o'i brosesau a'i arferion caffael yn 2020/21, gan gynnwys arferion budd cymunedol a chynaliadwyedd posibl. Fodd bynnag, mae'r

Awdurdod yn cydnabod mai Caffael yw un o'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer gweithredu o ran map llwybrau'r sector cyhoeddus i Statws Di-garbon Net erbyn 2030. Yn 2021/22 bwriedir mynd ati mewn partneriaeth â'r ddau Awdurdod Parc Cenedlaethol arall yng Nghymru i geisio cyngor ar y mater hwn.

Ffrwd Waith: Trawsnewid Cyflogaeth yn Sir Benfro

Hirdymor a Chydweithio: Lleoliadau Gwaith

Ataliwyd Cynllun Lleoliadau Gwaith Coleg Sir Benfro yn ystod 2020/21 oherwydd COVID-19 a hefyd lleoliadau a ddarperir i fyfyrwyr Coleg Plas Dwbl yng Nghastell Henllys. Fodd bynnag, roedd yr Awdurdod yn gallu darparu dau leoliad i fyfyrwyr y Brifysgol. Roedd lleoliad Myfyriwr Prifysgol yn yr adran Darganfod o Brifysgol Abertawe wedi cynorthwyo Prosiect Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro drwy helpu i ddatblygu deunydd digidol. Roedd y lleoliad myfyriwr prifysgol arall yn gweithio gydag archaeoleg gymunedol yn canolbwyntio ar edrych ar gyflwr safleoedd archaeolegol a hanesyddol yn y Parc.

2

lleoliadau profiad gwaith a myfyriwr gyda'r Awdurdod yn 2020/21. Mae hyn yn ostyngiad ar 5 lleoliad a ddarparwyd yn 2019/20.

Y Camau Nesaf: Mae APCAP wedi ymrwymo i Gynllun Kickstart llywodraeth y DU ar gyfer 2021/22 mewn partneriaeth ag Awdurdodau Parciau Cenedlaethol eraill

ledled y DU. Mae'r cynllun hwn yn ariannu lleoliadau gwaith 6 mis ar gyfer pobl ifanc (16 - 24 oed) sydd ar hyn o bryd ar Gredyd Cynhwysol. Bydd yn monitro effeithiolrwydd y cynllun hwn, a hyn wedyn fydd yn llywio ac yn pennu a oes angen rhaglen ychwanegol tebyg i'r cyn brosiect Sgiliau ar Waith neu ddewis arall yn y dyfodol

Cynnwys: Datblygu sgiliau a hyfforddiant i Wirfoddolwyr

Roedd y cyfleoedd gwirfoddoli corfforol, grŵp ac wyneb yn wyneb wedi'u cyfyngu yn ystod 2020/21 oherwydd rheoliadau COVID-19. Hefyd cafodd cyfleoedd gwirfoddoli yn y canolfannau ac yn Llanion eu heffeithio gan i'r canolfannau orfod cau yn ystod y flwyddyn a gan y canllawiau gweithio gartref.

9.3

Diwrnodau gwirfoddolwyr mewn swyddfeydd a chanolfannau drwy goruchwylwyr oriel gwirfoddol OYP. Mae hyn yn cymharu â 105.6 yn 2019/20.

Datblygwyd rolau gwirfoddoli annibynnol ar gyfer monitro bywyd gwyllt, monitro treftadaeth a gwarcheidwaid llwybrau troed, gyda hyfforddiant ar-lein yn cael ei ddarparu i gefnogi'r rolau hyn. Gallai gweithgareddau o fewn y rolau hyn gael eu cynnal gan unigolion, nid mewn grwpiau heb hwylusydd APCAP.

Mae hyfforddiant rhithwir a'r rolau gwirfoddoli annibynnol ar gyfer monitro treftadaeth wedi helpu i sefydlu grŵp o

wirfoddolwyr treftadaeth sy'n cefnogi'r Archeolegydd Cymunedol gyda'r cynllun heneb gofrestrdig.

Er gwaethaf y cyfyngiadau a gafodd effaith ar gyfleoedd gwirfoddoli, roedd staff yr Awdurdod yn croesawu cyfleoedd ymgysylltu rhithwir i ddarparu ystod eang o sesiynau hyfforddi i wirfoddolwyr yn ystod y flwyddyn. Gwelodd yr Awdurdod gynnydd o 36.9% yn nifer y cyfranogwyr mewn sesiynau hyfforddi gwirfoddoli o'i gymharu â 2019/20.

297

cyfranogwyr mewn sesiynau hyfforddi gwirfoddolwyr a drefnwyd gan APCAP yn 2020/21. Mae hyn yn gynnydd ar 217 yn 2019/20 a 107 yn 2018/19.

Cyflwynwyd amrywiaeth eang o sesiynau hyfforddi, gan gynnwys

Amrywiaeth o Hyfforddiant Adnabod Pryfed Peillio, Ffyngau a Blodau Gwyllt	Hyfforddiant i Arweinwyr Gwirfoddolwyr Gwylio Morloi
Hyfforddiant ar Gofnodi Glöynnod Byw	Hyfforddiant Adar Môr
Hyfforddiant Rhywogaethau Ymledol	Hyfforddiant Arweinydd Cerdded
Cymraeg yn y Dirwedd	Hyfforddiant Archaeoleg
Hyfforddiant Golwg ar y Parc	Walïau Cerrig Sych
Hyfforddiant Cymorth Cyntaf	Newid yn yr hinsawdd

Y Camau Nesaf: Bydd yr Awdurdod yn comisiynu adolygiad allanol o'i gynnig gwirfoddoli yn 2020/21 a bydd canlyniad yr adolygiad hwn yn effeithio ar weithgareddau yn y maes hwn yn y dyfodol.

Amcan Llesiant Cydnerth: Gwella iechyd ecosystemau'r Parc Cenedlaethol (A6)

Ffrydiau gwaith a roddodd gymorth i gyflawni'r amcan hwn yn 2020/21

Gwasanaeth Rheoli Tir - Cadwraeth	Prosiectau Bioamrywiaeth a Chysylltedd	Edrych ar ôl y Coed yn y Dirwedd
Ymgysylltu a Gwirfoddoli o ran edrych ar ôl Ecosystemau'r Parc	Partneriaethau Strategol Cadwraeth ac Ymgysylltu	Cynllunio: RHA NG ac ymateb i golli bioamrywiaeth
Amgylchedd Morol a'r Blaendraeth		

Crynodeb o'r Diogelwr Taith – Ein Cynnydd yn erbyn yr Amcan hwn

Cymeradwyodd yr Awdurdod gynllun Gweithredu Rheoli Parc Cenedlaethol Adfer Natur yn 2020/21 ac mae hyn yn darparu ffocws strategol ar gyfer gweithgareddau a fydd yn cefnogi'r Awdurdod i ymateb i heriau colli bioamrywiaeth yn y Parc, a hefyd rôl gweithgareddau cadwraeth wrth ddatblygu ymatebion i'r argyfwng newid yn yr hinsawdd. Mae'r Awdurdod wedi parhau i wneud gwaith cadwraeth gyda Thirfeddianwyr ac ar ei ystâd ei hun, gyda 167.3 hectar o gynefin pryfed peillio newydd wedi'i greu yn 2020/21. Lansiodd hefyd gynllun ffiniau traddodiadol peilot newydd.

Fel y caniateir rheoliadau yn ystod y flwyddyn, parhaodd yr Awdurdod i gyflawni ei brosiect Pobl, Planhigion a Phryfed Peillio, gwaith ar rywogaethau goresgynnol drwy ei brosiect Pwyth mewn Pryd a gweithgareddau gwirfoddoli cadwraeth gan gynnwys plannu coed. Mae dull yr Awdurdod o fynd ar drywydd cadwraeth yn y Parc yn dal i fod yn seiliedig ar gydweithio, gan gyflawni effeithiau trwy gefnogi rhwydwaith Pori Sir Benfro, Grŵp Tanau Gwylt Sir Benfro, Partneriaeth Natur Sir Benfro, prosiect WAM Fforwm Arfordir Sir Benfro a Grwpiau Awdurdodau Perthnasol Morol ar gyfer ACA. Drwy ddatblygu a defnyddio Ap Symudol, mae'r Awdurdod wedi arolygu a datblygu rhaglen waith i reoli Clefyd Coed ynn ar ei ystâd.

Mae ein gwaith ar draws y ffrydiau gwaith hyn yn cyfrannu at y dangosyddion llesiant cenedlaethol canlynol

13. Crynodeb carbon a deunydd organig mewn pridd	43. Ardaloedd o ecosystemau iach yng Nghymru
28. Y ganran o'r bobl sy'n gwirfoddoli	44. Statws amrywiaeth Fiolegol yng Nghymru
45. Y ganran o'r cyrff dŵr wyneb, a'r cyrff dŵr daear, sy'n cyrraedd statws da neu uchel ar y cyfan	

Mae'r adran nesaf yn amlinellu ein perfformiad yn 2020/21 yn erbyn y ffrydiau gwaith sy'n cyfrannu at ein Hamcan Llesiant Cydnerth.

Ffrwd Waith: Gwasanaeth Rheoli Tir - Cadwraeth (A6)

Atal a meithrin cydnerthedd: Rheoli Tir Cadwraeth

Fel rhan o raglen rheoli tir yr Awdurdod, mae gwaith cadwraeth yn cael ei wneud ar dros gant o safleoedd, sef cyfanswm o rhyw 4,585.69 hectar gyda'r nod o fod o fudd i gynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth yn y Parc. Cyflawnir hyn drwy reoli'r ystâd sy'n eiddo neu ar brydles i'r Awdurdod, cefnogi partneriaethau rheoli tiroedd comin a hefyd drwy weithio mewn partneriaeth â thirfeddianwyr preifat gyda'n cynllun 'Gwarchod y Parc'.

463	Hectar – eiddo y mae'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn berchen arno neu'n ei brydlesu a reolir ar gyfer bioamrywiaeth yn 2020/21, yr un fath ag yn 2019/20. Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys y safle a gaffaelwyd gan PCNPA yn Trefin ar ddiwedd 2020/21 gan nad oedd unrhyw reolaeth weithredol ar y safle wedi dechrau yn 2020/21.
1,372.69	Hectar – Tir a reolir ar gyfer bioamrywiaeth mewn partneriaeth â Thirfeddianwyr preifat yn 2020/21. Mae hyn yn gynydd ar 1,288.6 hectar yn 2019/20.

2,750	Hectar – Tir mynediad lle mae'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn cefnogi partneriaethau rheoli tir comin yn 2020/21, yr un fath ag yn 2019/20.
--------------	---

Mae'r agwedd cytundeb rheoli ffurfiol o gyllideb y cynlluniau bellach yn llawn ac mae'r Awdurdod ond yn ymgymryd â chytundebau newydd mewn amgylchiadau eithriadol. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod hefyd wedi bod yn gweithio ac yn cefnogi perchnogion safleoedd ychwanegol (y tu allan i'r cytundebau rheoli ffurfiol) gyda gweithgareddau cadwraeth a chynefinoedd drwy gyngor a gweithgareddau eraill.

Mesur Perfformiad	2018/19	2019/20	2020/21	2020/21 Target
Safleoedd Cadwraeth - % yn unol â'u Cynllun Rheoli ffurfiol	100 (Gwyrdd)	100 (Gwyrdd)	100 (Gwyrdd)	100

0	cytundebau rheoli ffurfiol newydd a wnaed trwy Warchod y Parc yn 2020/21. Mae hyn yn cymharu â 3 yn 2019/20 (sy'n cwmpasu 21.94 hectar) a 2 yn 2018/19 (sy'n cwmpasu 6 hectar).
24	Hectar a gwmpesir gan gytundebau rheoli ffurfiol newydd trwy Warchod y Parc yn 2020/21 (sy'n cwmpasu 167.3 hectar). Mae hyn yn gynydd ar 11 safle newydd yn 2019/20 (sy'n cwmpasu 67.03 hectar.)

Meithrin cydnerthedd: Cynefinoedd Pryfed Peillio

Ers 2017/18 mae'r Awdurdod wedi creu 222.04 hectar o gynefin pryfed peillio newydd.

167.3

Hectar – cynefin pryfed peillio newydd sydd wedi'i greu yn 2020/21, mae hyn yn cymharu â 10.74 yn 2019/20 a 6 yn 2018/19.

Mynychodd swyddogion yr awdurdod gyfarfodydd Grŵp Dolydd Sir Benfro yn C4 a hwyluswyd gan Plant Life. Roedd cyfarfod mis Mawrth yn cynnwys cyflwyniad ysbrydoledig gan wahanol grwpiau dolydd ledled Cymru ac o'r cyfarfodydd cafwyd sawl ymholiad newydd mewn perthynas â chynllun Gwarchod y Parc yr Awdurdod.

Cynnwys: Gweithgaredd Ymgysylltu â'r Diwydiant Llaeth

Roedd gweithgareddau yn yr ardal hon wedi'u gohirio ar gyfer rhan helaeth o 2020/21 gan fod swydd Swyddog Cadwraeth Fferm yr Awdurdod yn wag, fe'i llenwyd wedyn ym mis Chwefror 2021.

Y Camau Nesaf: Bydd dau brosiect sy'n dechrau yn 2021/22 y prosiect 'Amaethyddiaeth Wyrdd' a ariennir gan Dirweddau Cynaliadwy, Mannau Cynaliadwy a phrosiect 'Dawnsio ar y Dibyn' SMS yn helpu i hwyluso gweithgareddau ymgysylltu â'r Diwydiant Llaeth a Ffermwyr Sir Benfro.

Ffrwd Waith: Prosiectau Bioamrywiaeth a Chysylltedd (A6)

Meithrin cydnerthedd: Pobl, Llwybrau a Pheillwyr

Mae'r prosiect yn gwella bioamrywiaeth ar hyd rhan Niwglw i Aberdeidd o Lwybr Arfordir Sir Benfro. Mae'r ardal hon yn dod o fewn Ardal Infertebratau Pwysig Arfordir Sir Benfro. Ymhlith y gweithgareddau mae arolygu'r rhwydwaith llwybrau a chyflawni ystod o waith rheoli cynefinoedd ar raddfa fach fydd yn gwella cysylltedd rhwng ardaloedd cadwraeth a reolir ar hyn o bryd ac yn ymgorffori gweithgareddau cyfeillgar i bryfed peillio yn y gwaith o reoli llwybr yr arfordir o ddydd i ddydd. Er i'r Warden Pryfed Peillio gael ei adleoli i gynorthwyo'r tîm Warden ehangach gyda gweithgareddau torri i gefnogi agor Llwybr yr Arfordir, cynhaliwyd y gweithgareddau canlynol yn ymwneud â'r prosiect:

- ✓ Arolygu Llwybr yr Arfordir sy'n cwmpasu Wdig i Gelliswick
- ✓ Dros fisoedd y gaeaf, cyn y tymor nythu adar torrodd wardeiniaid y Parc Cenedlaethol tua 2000m o dwneli gwynt Llwybr yr Arfordir. Mae wardeiniaid hefyd yn gadael planhigion i flodeuo ac i hadu cyn eu torri yn ogystal â chreu mwy o fanciau gwenyn. Ysgrifennwyd canllawiau drafft hefyd ar reoli llwybrau arfordir ar gyfer pryfed peillio a fydd yn llywio'r gwaith o reoli Llwybr yr Arfordir yn y dyfodol.
- ✓ Parhau ag arolygon gwenyn pan ganiateir y cyfyngiadau. Roedd arolwg cacwn a gynhaliwyd ar drawsllun o Faes

Awyr Tyddewi wedi cofnodi chwe rhywogaeth wahanol a 159 a mwy o wenyn mewn tair awr.

- ✓ Gweithredu Cynlluniau Pryfed Peillio ym Mhorthgain ac Oriol y Parc.

Hirdymor: Prosiect Ffiniau Traddodiadol.

Mae gan Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro gyfoeth o fathau traddodiadol o ffiniau caeau, gan gynnwys cloddiau Sir Benfro, cloddiau pridd a waliau carreg sych. Mae'r math o ffin yn aml yn amlygu'r amodau lleol, y deunyddiau oedd ar gael ac oedran y ffin ei hun. Mae'r ffiniau hyn yn gwneud cyfraniad sylweddol i dirwedd ac ecoleg y Parc Cenedlaethol.

Mae pwysigrwydd ffiniau traddodiadol o fewn y system ffermio wedi dirywio, ynghyd â'r llafur fferm sydd ar gael i'w cynnal. Heb waith cynnal a chadw cyson, mae gwrychoedd yn mynd yn denau ac yn fylchog ac mae cloddiau pridd heb eu ffensio yn erydu ac yn cwmpo, proses a waethygir gan symudiadau da byw. Heb weithredu'n sylweddol, mae perygl y gallai llawer o'n ffiniau ddiflannu am byth.

Ym mis Awst lansiodd yr Awdurdod ei Gynllun Grant Ffiniau Traddodiadol peilot i roi cyfleoedd i dirfeddianwyr gael cymorth ariannol gyda phob agwedd ar reoli ac adfer ffiniau caeau traddodiadol. Cafodd y cynllun ymateb cadarnhaol o ran ceisiadau, proseswyd y rhain a dechreuwyd ar waith ar safleoedd llwyddiannus. Erbyn diwedd Mawrth 2020/21 roedd tri chlawdd newydd wedi'u plannu a wal wedi'i hadfer o dan y Cynllun Ffiniau Traddodiadol.

970

Meter o ffiniau traddodiadol a adferwyd yn 2020/21.

Ffrwd Waith: Ymgysylltu a Gwirfoddoli o ran edrych ar ôl Ecosystemau'r Parc (A6)

Atal a Meithrin Cydnerthedd: Prosiect Pwyth mewn Pryd

Prosiect sy'n canolbwyntio ar gefnogi cadwraeth trwy frwydro yn erbyn rhywogaethau estron goresgynol mewn rhai dalgylchoedd yn y Parc – dalgylchoedd Cwm Gwaun, Clydach, Porthgain a Castellmartin yw Pwyth mewn Pryd. Mae wedi cael cyllid am 3 blynedd o gynllun Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant yng Nghymru (ENRaW) Llywodraeth Cymru a chyllid ychwanegol trwy Ymddiriedolaeth Parc Genedlaethol Arfordir Penfro. Mae Rhywogaethau Estron Goresgynol yn ffactor allweddol sy'n arwain at golli bioamrywiaeth yn fyd-eang ac yn lleol. Mae'r prosiect Pwyth mewn Pryd yn treialu dull rheoli dalgylchoedd o'r brig i lawr ar dair Rhywogaeth Estron Oresgynol a dargedir, sef Clymog Japan, Jac y Neidiwr a Rhododendron Ponticwm.

Yn ystod 2020/21 roedd Contractwyr, Parcmyn a'r swyddog Prosiectau wedi torri a chlirio llystyfiant i gael mynediad i drin y tir, trin ardaloedd o Glymog Japan, Llawr-geiriosen a Rhododendron, a monitro a chynnal dalgylchoedd oedd yn golygu cadw llygad am dyfiant oedd heb ei glirio.

54.15	Hectar - Rhywogaethau ymledol wedi'u gwaredu yn y tarddiad/chwistrellu yn 2020/21. Mae hyn yn cymharu â 53.44 hectar yn 2019/20 a 57.31 hectar yn 2018/19.
14.21	Hectarau o Jac y Neidiwr yn cael eu dosbarthu fel 'Rheoli ar y Gweill' ar draws y dalgylchoedd ar hyn o bryd.

Effeithiwyd weithgareddau gwirfoddoli gan gyfyngiadau COVID-19 yn 2020/21, fodd bynnag, mae'r prosiect wedi darparu hyfforddiant ar-lein yn ystod y pandemig ar rywogaethau estron goresgynnol, pryfed peillio a blodau gwyllt.

Cynhaliwyd mewn partneriaeth â PLANED Digwyddiad Arfer Gorau ar-lein yn dangos y dulliau a ddefnyddiwyd ar gyfer dalgylch llwyddiannus o reoli jac y neidiwr. Hefyd, roedd y swyddog Prosiectau wedi cyflwyno'r prosiect Pwyth mewn Pryd i gynhadledd ar-lein Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru 'Cydnerthedd rhwydweithiau ecolegol.'

Ymgysylltu a Chynnwys: Cefnogi pobl i ofalu am ecosystemau'r Parc

Cafodd y cyfyngiadau ar weithgareddau grwpiau awyr agored effaith ar weithgareddau gwirfoddoli Cadwraeth yn 2020/21. Fodd bynnag, mewn ymateb i hyn, darparodd APCAP ystod eang o gyfleoedd i wirfoddolwyr gymryd rhan mewn cyfleoedd hyfforddi sy'n gysylltiedig â chadwraeth, gan ganolbwyntio'n benodol ar fonitro bywyd gwyllt.

279	Diwrnodau gwirfoddolwyr a gyfrannwyd at waith sy'n gysylltiedig â chadwraeth yn y Parc yn 2020/21. Mae hyn yn cymharu â 1,149 yn 2019/20 a 975.5 yn 2018/19.
58	Diwrnodau gweithredu cymdeithasol sy'n gysylltiedig â chadwraeth yn y Parc yn 2020/21. Mae hyn yn cymharu â 162 yn 2019/20.
18.5	Diwrnodau gwirfoddolwyr a gyfrannwyd at waith rhywogaethau goresgynnol yn y Parc yn 2020/21. Mae hyn yn cymharu â 112.50 yn 2019/20 a 105.50 yn 2018/19.

Ni allai'r Awdurdod ddatblygu'r Prosiect Cysylltu'n Naturiol a oedd yn un o'r prosiectau a flaenoriaethwyd ar gyfer ceisio cyllid yn 2020/21. Mae hyn oherwydd bod y prosiect yn canolbwyntio ar ymgysylltu'n benodol â busnesau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth, nad oedd yn bosibl yn ystod 2020/21 oherwydd effaith COVID-19 ar y busnesau hyn.

Ffrwd Waith: Partneriaethau Strategol Cadwraeth ac Ymgysylltu (A6)

Hirdymor: Ymgysylltu â Pholisi ar Reoli Tir

Cyflwynodd yr Awdurdod ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ffermio cynaliadwy a'n tir: symleiddio cymorth amaethyddol. Cyfrannodd yr Awdurdod hefyd at ymateb Parc Cenedlaethol Cymru i Fil Amaethyddiaeth (Cymru). Mae cynnydd pellach ar hyn yn dibynnu ar weithredoedd Llywodraeth Cymru yn dilyn etholiadau'r Senedd.

Cydweithio ac Integreiddio: Partneriaeth Natur Sir Benfro

Mae Partneriaeth Natur Sir Benfro'n darparu trosolwg strategol a fforwm ar gyfer cydweithio o ran cyflawni blaenoriaethau'r UE, y DU, Cymru a lleol ar gyfer bioamrywiaeth trwy'r Cynllun Adfer Natur ar gyfer Sir Benfro. Parhaodd APCAP i fynychu cyfarfodydd Partneriaeth a chytuno ar ddyrannu grantiau bach bioamrywiaeth drwy'r Partneriaeth yn 2020/21.

Yn dilyn cyllid gan Partneriaeth Natur Sir Benfro roedd APCAP wedi cynhyrchu strategaeth ar gyfer gwarchod glöynnod byw britheg y gors yn Sir Benfro. Mae'r ddogfen yn gosod gwaith cadwraeth amrywiol bartneriaid yn ei gyddestun ac yn pennu blaenoriaethau clir ar raddfa tirwedd ar gyfer arolygu a gwarchod y rhywogaeth hon sydd â dyfodol ansicr yn y sir ar hyn o bryd. Mae'r dulliau a ddefnyddir yn unol â phrotocolau Cyfoeth Naturiol Cymru a'r protocolau ar Warchod Glöynnod Byw ar ddadansoddi metapoblogi a chymharu â phoblogaethau ledled y wlad.

Cydweithio: Rhwydwaith Pori Sir Benfro

Bellach mae Rhwydwaith Pori Sir Benfro yn un o'r prosiectau o'i fath sydd wedi bod yn rhedeg hiraf yng Nghymru. Y nod yw hwyluso pori er mwyn gwarchod natur, trwy sefydlu system ble mae safleoedd neu stoc sydd ar gael a safleoedd neu'r stoc sydd eu hangen, yn gallu cael eu cyfateb ble'n bosib. Felly, gellir cydlynu ymdrechion mudiadau cadwraeth a'r gymuned ffermio, a'u hintegreiddio, fel bod modd rhannu stoc, safleoedd, offer ac arbenigedd ers lles pawb.

Parhaodd Rhwydwaith Pori Sir Benfro i dyfu yn 2020/21 gyda safleoedd newydd yn ymuno â'r rhwydwaith. Mae trosglwyddo safleoedd yn llwyddiannus i borwyr newydd wedi golygu nad yw safleoedd wedi gorfod wynebu unrhyw oedi na thoriadau mewn mesurau rheoli. Mae gan rai o'r safleoedd fynediad cyhoeddus, felly mae'r diffyg pwysau cyhoeddus eleni oherwydd COVID-19 wedi golygu ein bod yn gallu pori safleoedd am fwy o amser yn ystod yr haf.

Cydweithio: Grŵp Tanau Gwylltion Sir Benfro

Partneriaeth o sefydliadau sy'n cynnwys yr Awdurdod, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC), Cyfoeth Naturiol Cymru, Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac a reolir dan nawddogaeth Rhwydwaith Amaethyddiaeth Gynaliadwy PLANED yw Grŵp Tanau Gwyllt Sir Benfro. Mae'r Grŵp yn gweithio gyda ffermwyr, tiffeddianwyr a phorwyr i roi cyngor a chynhorthwy iddynt o ran cynnal gweithgarwch dan reolaeth i losgi llystyfiant a materion cysylltiedig. Parhaodd APCAP i ymwneud â'r grŵp yn 2020/21.

Ffrwd Waith: Cynllunio - SMNR ac ymateb i gollu bioamrywiaeth (A6)

Atal: Cynllunio

Mae'r Awdurdod yn parhau i fonitro effaith ei benderfyniadau cynllunio er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â pholisïau

diogelu'r dirwedd. Parhawyd i gyrraedd y targed o 0 datblygiad wedi'i gymeradwyo yn groes i bolisiâu amddiffyn y dirwedd (Polisi 8 yn y Cynllun Datblygu Lleol) yn 2020/21.

Mesur Perfformiad	2018/19	2019/20	2020/21	2020/21 Target
# y datblygiadau a gymeradwywyd yn groes i bolisiâu gwarchod y dirwedd (Polisi 8 yn y Cynllun Datblygu Lleol)	0 (Gwyrdd)	0 (Gwyrdd)	0 (Gwyrdd)	0

Mae amodau gwella bioamrywiaeth yn cael eu cynnwys fel mater o drefn ar bob cais lle mae'n rhesymol cael ei gynnwys yn unol â chynghor Llywodraeth Cymru. Mae'r Awdurdod yn parhau i gael Ecolegydd Cynllunio ar y cyd â Chyngor Sir Penfro, mae hon yn parhau i fod yn bartneriaeth barhaus a llwyddiannus.

Ffrwd Waith: Edrych ar ôl y Coed yn y Dirwedd (A6)

Atal: Ymateb i Glefyd Coed Ynn yn Ardal y Parc

Er mwyn ymateb i sefyllfa clefyd coed ynn o fewn ystâd y Parc Cenedlaethol, dechreuodd y Tîm Rheoli Cefn Gwlad arolwg wedi'i dargedu yn ystod haf 2020 – gan ganolbwyntio ar y cyfnod pan oedd y coed mewn dail a'r clefyd yn fwyaf amlwg. Y nod oedd darparu llinell sylfaen at ddibenion cynllunio, ac ar yr un pryd i ddechrau cynllunio ac amserlennu unrhyw gamau adfer angenrheidiol yn ystod gaeaf 2020/21.

Hyd at y pwynt hwn, roedd coed â chlefyd coed ynn wedi'u rheoli gan ddefnyddio prosesau rheoli coed presennol APCAP.

Dyluniwyd Ap Ffôn Symudol ar y platfform Arc Online i gynnal yr arolwg. Roedd yn bwysig sicrhau bod yr arolwg yn casglu'r wybodaeth ofynnol mewn fformat safonol - er mwyn sicrhau ein bod yn defnyddio dull cyson ar draws pob safle. Canllaw'r penderfynwr oedd y sail i'r fanyleb a'r meini prawf ar gyfer yr arolwg, gyda chyflwr y goeden a'r canlyniad yn cael eu cofnodi yn unol â'r canllawiau a ddefnyddiwyd.

Penderfynwyd tagio pob coeden gyda chyfeirnod unigryw, fel y gellid ail-adnabod y goeden yn ystod ymweliadau dilynol, gan osgoi'r risg o ail-arolygu neu gwympto'r goeden anghywir. Roedd natur yr ap hefyd yn golygu y gellid cofnodi union leoliad pob coeden a llun o gyflwr y goeden ym mhob ymweliad. Bydd hyn yn caniatáu i APCAP olrhain hynt y clefyd fesul coeden yn fwy effeithiol. Hefyd roedd monitor syml ar y we wedi'i greu fel bod rheolwyr yn gallu olrhain a monitro hynt y clefyd a chynllunio'r gwaith o reoli'r clefyd yn barhaus 'fesul coeden'.

- ✓ Cynhaliodd Oriel y Parc gorymdaith Ddraig Dydd Gŵyl Dewi rithwir gan na ellid cynnal y digwyddiad corfforol blynyddol. Cynhaliwyd y digwyddiad ar draws Facebook, Twitter ac Instagram. Cymerodd pobl ran drwy anfon eu creadigaethau o ddreigiau drwy'r cyfryngau cymdeithasol neu drwy e-bost. Cafwyd cyflwyniadau gan 3 dosbarth ysgol lleol (Redhill Prep, Ysgol Glannau Gwaun ac Ysgol Penrhyn Dewi) yn ogystal â llawer o gyflwyniadau gan Gofal Dewi Sant yn y Gymuned a thros 25 o unigolion a bostiodd eu gwaith celf o bob oedran a galluoedd amrywiol.
- ✓ Cynhaliodd Oriel y Parc arddangosfa ar-lein (oherwydd bod y ganolfan ar gau ym mis Rhagfyr). Hon oedd cystadleuaeth flynyddol Cyfeillion Oriel y Parc i blant ysgol ar draws Campysau Tyddewi. Pwnc y gystadleuaeth oedd ymateb y plant i COVID-19. Byddai fel arfer wedi cael ei arddangos yn y Tŵr.
- ✓ Ym mis Awst cymerodd rheolwr Canolfan Oriel y Parc ran mewn grŵp cymunedol newydd sy'n anelu at greu Llwybr ar gyfer Tyddewi a ysbrydolwyd gan Eiriau Coll.

- ✓ Darparodd cydlynedd Pwyth mewn Pryd sesiynau hyfforddi i wirfoddolwyr, roedd y cyfranogwyr yn cynnwys aelodau o Grŵp Llwybrau Trefdraeth a Chyfeillion y Parc Cenedlaethol. Cynhaliodd y prosiect hefyd ddiwyddiad arfer gorau ar-lein gyda PLANED.
- ✓ Cyflwynodd y Parcmyn a thîm Darganfod gwaith tir ysgol a phlannu coed mewn ysgolion yn y Parc a'r cyffiniau.
- ✓ Teithiau tywys ar gyfer grwpiau cymunedol gan gynnwys Cymdeithas Llwybr Troed Llandudoch, Cerddwyr Sir Benfro, Grŵp Cerdded U3A Rovers ac Oriol VC.
- ✓ Darparu diwrnod archaeoleg blynyddol rhithwir a chymryd rhan gyda chyfarfodydd Fforwm Treftadaeth Sir Benfro a Grŵp Llywio Calon Preseli.
- ✓ Cyfarfodydd Archaeolegydd Cymunedol gyda Chyngor Cymuned Nanhyfer i drafod cynnal a chadw, cadwraeth a dehongli Castell Nanhyfer.
- ✓ Cefnogi, gan gynnwys hyfforddi gwirfoddolwyr i'w galluogi i gynnal gweithgareddau gwirfoddoli annibynnol yn eu cymuned leol sy'n ymwneud â llwybrau troed a monitro bywyd gwylt a threftadaeth.

521	Prosiect cymunedol/ gweithgareddau ymgysylltu yn 2020/21. Mae hyn yn cymharu ag 866 yn 2019/20 ac o'i gymharu â 708 yn 2018/19.
58	diwrnodau cyfranogwyr gweithredu cymdeithasol a gyfrannwyd yn 2020/21, mae hyn yn cymharu â 471.5 yn 2019/20 a 581 yn 2018/19.
6	Digwyddiadau a ffeiriau cymunedol a gynhaliwyd yn y canolfannau yn 2020/21,

	mae hyn yn cymharu â 15 yn 2019/20 ac 11 yn 2018/19.
73	Wardeiniaid Gwirfoddol yn 2020/21, mae hyn yn cymharu â 65 yn 2019/20 a 53 yn 2018/19.

Parhaodd Rheolwr Gwasanaeth y Parmyn i fynychu Cyfarfodydd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol yn ystod y flwyddyn a mynychodd gyfarfod o'r Bartneriaeth Troseddau Gwledig ym mis Mai.

Ffrwd Waith: Cronfa Datblygu Cynaliadwy (CDC) (AC/A6)

Mae Cronfa Datblygu Cynaliadwy Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn gronfa sy'n cefnogi prosiectau cymunedol yng nghyffiniau Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

Ym mis Mehefin 2020, cymerodd Pwyllgor Awdurdod y Parc Cenedlaethol benderfyniad i newid pwyslais y Gronfa. Bydd y gronfa bellach yn cefnogi prosiectau sy'n cael eu harwain gan y gymuned sy'n cyfrannu at ostwng carbon ac yn helpu i ymateb i'r argyfwng hinsawdd.

12	brosiectau datgarboneiddio cymunedol dyfarnwyd cyllid CDC i yn 2020/21 i werth £189,824.
77.87%	o'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy a ddyrannwyd yn 2020/21. Mae hyn yn cymharu ag 84.49% yn 2019/20 a 24.10% yn 2018/19. Derbyniodd cyllideb y CDC arian ychwanegol yn 2020/21 drwy Gyllid Tirweddau Cynaliadwy, Mannau

Cynaliadwy a Chyllid Adfer Gwyrdd
Llywodraeth Cymru.

Roedd y prosiectau a ddyfarnwyd yn 2020/21 yn cynnwys:

- ✓ Theatr Gwaun – cyllid i osod paneli solar fel rhan o'i waith i leihau'r defnydd o ynni yn y theatr, y sinema a'r lleoliad digwyddiadau.
- ✓ Marloes & Neuadd Bentref Sain Ffraid – cyllid i brynu a gosod System Batri i ategu system ffotofoltäig (PV) newydd, gan alluogi'r neuadd i storio unrhyw warged pŵer ac yn ei dro lleihau costau rhedeg a lleihau ôl troed carbon cymunedol.
- ✓ Mencap Sir Benfro Ltd – cyllid i gyfrannu at bedwar maes o fesurau effeithlonrwydd ynni yng Ngerddi Ystafbwl, Penfro gan gynnwys pibellau i gysylltu â thanc casglu dŵr glaw i bwl, gwella insiwleiddio i bibellau dŵr poeth ac uned solar ar gyfer gorsaf ymolchi.
- ✓ Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru – cyllid ar gyfer gwelliannau i system ddŵr Goleudy yn Skokholm ac system sterileiddio UV a phaneli solar ac uwchraddio'r system yn Sgomer.
- ✓ Cwmni Buddiannau Cymunedol Clynyw – cyllid ar gyfer prosiect compostio mwydod.
- ✓ Grŵp Amgylchedd Ardal Trefdraeth (NAEG) – cyllid ar gyfer prosiect plannu cymunedol sy'n hyrwyddo datgarboneiddio drwy fioamrywiaeth.
- ✓ Ynni Adnewyddadwy Cwm Arian Ltd (CARE) – cyllid i ymchwilio i raglen Effeithlonrwydd Ynni ledled Sir Benfro, gyda'r nod o leihau'r defnydd o ynni a mynd i'r afael â thlodi

tanwydd drwy gynyddu a normaleiddio'r defnydd o ddewisiadau bywyd carbon isel.

- ✓ Cyllid ar gyfer paneli PV ar gyfer Cymdeithas Chwaraeon a Hamdden, Cymdeithas Gymunedol South Ridgeway, Clwb Rygbi Crymych Cyf, Neuadd Gymuned Bwlchgyroes a'r RSPB – Cyrchfan Natur Ynys Dewi.

Ffrwd Waith: Gwasanaeth Cynllunio - Gorfodi ac Ymgysylltu â'r Gymuned

Atal ac Adeiladu Cydnerthedd: Perfformiad Gorfodi Cynllunio

Erbyn diwedd 2020/21 cafodd COVID-19 effaith ar berfformiad gorfodi, yn enwedig oherwydd effaith y cyfyngiadau symud ar ymweliadau safle.

78.15%

yr achosion gorfodaeth a ymchwiliwyd (o fewn 84 diwrnod) yn 2020/21, mae hyn yn cymharu â 100% yn 2019/20 ac 80.47% yn 2018/19. Meincnodi 2020/21 - APC Eryri: 100%. APC Bannau Brycheiniog: 66%, 1 aelod o staff wedi'u secondio i Reoli Datblygu.

71.75

amser cyfartalog a gymerir i ymchwilio i achosion gorfodi mewn diwrnodau yn 2020/21. Mae hyn yn gynyddu o 38.5 diwrnod yn 2019/20, ond mae'n sylweddol is na'r 160.5 diwrnod yn 2018/19. Meincnodi 2020/21 - APC Eryri: 44 days. APC Bannau Brycheiniog: 201.4 days

103	amser cyfartalog a gymerir i gymryd camau gorfodi mewn diwrnodau yn 2020/21. Mae hyn yn cymharu â 95.5 diwrnod yn 2019/20 a 334.25 diwrnod yn 2018/19. Meincnodi 2020/21 - APC Eryri: 201 days. APC Bannau Brycheiniog: 88.87 days.
8	Ceisiadau cynllunio ôl-weithredol a gofrestrwyd yn 2020/21. Mae hyn yn cymharu ag 11 yn 2019/20 a 28 yn 2018/19.

Parhaodd y prosiect gorfodi cynllunio ar anheddau amaethyddol a gosodiadau gwyliau i beidio â symud ymlaen yn 2020/21 oherwydd diffyg capasiti. Ni fydd y prosiect â ffocws hwn yn cael ei gario ymlaen i 2021/22 oherwydd bod angen canolbwyntio gweithgareddau cynllunio ar weithgareddau'r gwasanaeth gorfodi craidd. Os yw'r capasiti'n caniatáu yn y dyfodol, efallai y bydd yr Awdurdod yn ystyried gwneud gwaith ychwanegol wedi'i dargedu.

Cynnwys: Cyngor Cynllunio a Chymuned

Er gwaethaf COVID-19 parhaodd APCAP i gyfathrebu â chynghorau cymuned ynghylch ymateb i geisiadau a sicrhau eu bod yn gallu rhoi sylwadau i'r Awdurdod. Fodd bynnag, roedd COVID-19 yn cyfyngu ar rai cyfleoedd i ymgysylltu â chynghorau cymuned.

Hirdymor: Creu Lleoedd

Mae Polisi Cynllunio Cymru ynghyd ag aildrafftio'r

Fframwaith Datblygu Cenedlaethol / Dyfodol Cymru 2040 yn pwysleisio creu lleoedd ar lefel strategol gyda'r amcanion o gael gwell cysylltiadau, lleihau teithio a hybu gwasanaethau lleol i wella hunaniaeth, cymeriad, ymdeimlad o gymuned a chyd-berchnogaeth drwy'r system gynllunio.

Mae llesiant yn ganolog i'r broses o greu lleoedd ac yn rhoi pwys ar yr angen i weithio gyda'n gilydd i adeiladu lleoedd gwell. Cyflawnir hyn drwy gymhwyso agwedd gyfannol at y broses gynllunio: un sy'n ystyried y cyd-destun, y swyddogaeth a'r cysylltiadau rhwng safle datblygu a'r ardal ehangach.

Fis Chwefror 2021 cymeradwyodd yr Aelodau i'r Awdurdod lofnodi'r Siarter Creu Lleoedd.

Mae Siarter Creu Lleoedd Cymru wedi cael ei datblygu gan Phartneriaeth Creu Lleoedd Cymru. Mae'r bartneriaeth hon yn grŵp amlddisgyblaethol sy'n cynrychioli proffesiynau a sefydliadau sy'n gweithio o fewn yr amgylchedd adeiledig a naturiol.

Mae'r Siarter yn cynnwys chwe egwyddor sy'n cwmpasu:

Pobl a'r Gymuned	Lleoliad
Hunaniaeth	Symud
Cymysgedd o Ddefnyddiau	Tir y Cyhoedd

Wrth lofnodi'r Siarter Creu Lleoedd mae'r Awdurdod yn cytuno i gefnogi creu lleoedd ym mhob maes perthnasol wrth weithio a hyrwyddo'r chwe egwyddor creu lleoedd o ran cynllunio, dylunio a rheoli lleoedd newydd a lleoedd sydd eisoes yn bodoli.

Amcan Llesiant Diwylliant: Gwarchod a hyrwyddo diwylliant lleol o ran iaith, y celfyddydau a threftadaeth yn yr ardal.

Ffrydiau gwaith a roddodd gymorth i gyflawni'r amcan hwn yn 2020/21

Ysbrydoliaeth a Phrofiadau ar Hanes	Ysbrydoliaeth ac Ymgysylltu â Chelf	Yr Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol ac Archaeoleg Gymunedol
Partneriaeth Treftadaeth a Chydweithio	Hyrwyddo'r Gymraeg: Sgiliau, cyfleoedd ac ysbrydoliaeth	

Crynodeb o'r Diogelwr Taith – Ein Cynnydd yn erbyn yr Amcan hwn

Roedd cyfyngiadau COVID-19 yn golygu bod gweithgareddau'r Awdurdod sy'n rhoi cyfleoedd i bobl brofi a dysgu am y diwylliant, treftadaeth a chelf leol yn y Parc wedi'u heffeithio yn 2020/21, yn enwedig o ran cyfleoedd yn y canolfannau. Fodd bynnag, helpodd ymgysylltu rhithwir yr Awdurdod i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd o ran ei ddarpariaeth archaeoleg gymunedol, gyda 180 o bobl yn mynychu ei Ddiwrnod Archaeoleg ac roedd yn gallu recriwtio gwirfoddolwyr monitro treftadaeth newydd, gyda chymorth cyfleoedd hyfforddi rhithwir. Fe barhaodd yr Awdurdod i ymgysylltu â'r fenter cydweithio Gwyllo Treftadaeth gyda Heddlu Dyfed Powys a Cadw sydd wedi'i bwriadu i ymateb i fater troseddau treftadaeth

Mae mwy o staff wedi bod yn ymgysylltu â chyrsiau ar-lein Gwaith Cymraeg yn 2020/21 a chyflwynwyd sesiwn Cymraeg yn y Tirweddau i wirfoddolwyr. Effeithiwyd ar ddigwyddiadau a gweithgareddau a sesiynau addysg a gyflwynir yn Gymraeg gan gyfyngiadau COVID-19 a'i effaith ehangach ar ddigwyddiadau, gweithgareddau, canolfannau a rhaglen addysg yr Awdurdod. Roedd hyn yn arbennig o wir o ran Castell Henllys, ond y gobaith yw y gall ail-ymgysylltu â gweithgareddau i'w gefnogi i fod yn Ganolfan Gymraeg.

Mae ein gwaith ar draws y ffrydiau gwaith hyn yn cyfrannu at y dangosyddion llesiant cenedlaethol canlynol

29. Sgôr llesiant meddyliol cymedrig ar gyfer pobl	35. Y ganran o'r bobl sy'n bresennol neu'n cyfranogi mewn gweithgareddau ym maes y celfyddydau, diwylliant neu dreftadaeth o leiaf deirgwaith y flwyddyn
36. Y ganran o'r bobl sy'n siarad Cymraeg yn feunyddiol ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg	37. Y ganran o'r bobl sy'n gallu siarad Cymraeg
40. Y ganran o asedau dynodedig yr amgylchedd hanesyddol sydd mewn cyflwr sefydlog neu well	



Mae'r adran nesaf yn amlinellu ein perfformiad yn 2020/21 yn erbyn y ffrydiau gwaith sy'n cyfrannu at ein Hamcan Llesiant Diwylliant.

Ffrwd Waith: Ysbrydoliaeth a Phrofiadau ar Hanes

Effaith COVID-19 ar # Ymwelwyr yng Nghaeriw a Chastell Henllys

Gostyngodd nifer yr ymwelwyr yng Nghaeriw 74% ac yng Nghastell Henllys gostyngodd 71% yn 2020/21 gan adlewyrchu effaith rheoliadau COVID-19 ar yr atyniadau i ymwelwyr. Ail-agorodd y ddau ym mis Gorffennaf, ar ôl bod ar gau ers canol mis Mawrth 2020 oherwydd cyfyngiadau COVID-19, fe'u caewyd eto yn ystod y cyfnod Toriad Tan, ac roeddent yn parhau i fod ar gau am weddill y flwyddyn. Adeg agor, cyfyngwyd ar y niferoedd i gydymffurfio â'r rheoliadau ar bellhau cymdeithasol, ac roedd system archebu ymlaen llaw yn eu lle ar gyfer y ddau atyniad.

Mesur Perfformiad	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21
Niferoedd Ymwelwyr Caeriw	23,266	24,916	23,231	10,237
Niferoedd Ymwelwyr Castell Henllys	11,958	11,178	9,546	4,425



Fe arhosodd sgôr Caeriw a Chastell Henllys ar Trip Advisor yn 4.5 allan o 5 yn 2020/21.

Mesur Perfformiad	2018/19	2019/20	2020/21	2020/21 Target
Sgôr gyffredinol 1-5 Trip Advisor am Caeriw	4.5 (Gwyrdd)	4.5 (Gwyrdd)	4.5 (Gwyrdd)	4.5
Sgôr gyffredinol 1-5 Trip Advisor am Castell Henllys	4.5 (Gwyrdd)	4.5 (Gwyrdd)	4.5 (Gwyrdd)	4.5

Hirdymor: Buddsoddi yn ein Profiad Ymwelydd Hanesyddol

Yn ystod 2020/21, cynhaliodd yr Awdurdod gwaith buddsoddi yng Nghastell Caeriw a Chastell Henllys i wella profiad yr ymwelydd.

- ✓ Cwblhawyd y gwaith o saernïo'r ystafell arddangos yng Nghaeriw. Casglwyd arddangosfeydd, gyda gwaith yn cael ei wneud ar ddehongli. Cwblhau terfynol wedi'i ohirio yn chwarter pedwar oherwydd bod y safle ar gau.
- ✓ Daeth cyfleoedd newydd i'r fei yng Nghastell Henllys yn sgîl gwneud newidiadau hanfodol i gynllun y lle er mwyn cydymffurfio â gofynion pellter cymdeithasol, ac mae'r ardal manwerthu bellach wedi'i symud i'r ardal ddehongli fel yr awgrymwyd gan y cynllun busnes.

- ✓ Cwblhawyd y gwaith ym Mhantglas Isaf yng Nghastell Henllys gan ei alluogi i gael ei ddefnyddio fel ystafell ddarganfod i gynnal gweithdai.
- ✓ Mae gwelliannau ffisegol yng Nghastell Henllys yn cynnwys gwaith ail-arwynebu trac ac mae gwaith ail-fetio afonydd wedi'i gwblhau i gynnal ardal awyr agored defnyddiadwy y tu allan i'r ganolfan ymwelwyr. Yn dilyn ymweliad safle yn chwarter 4 clustnodwyd bod ardal y trogylch amser wedi dod yn berygl iechyd a diogelwch gan fod y trogylch mor agos i'r afon. Mae warden y safle wedi cloddio'r slabiau concrit a bydd Castell Henllys yn troi'r ardal hon yn 'ardal Chwarae yn y Baw a'r Llaca' gan ddefnyddio'r adnoddau a'r sgiliau sydd ar y safle. Bydd hyn yn datblygu eu cynnig ac yn rhoi elfen ychwanegol o ddysgu yn yr awyr agored i ymwelwyr gan ychwanegu gwerth pellach at eu hymweliad.
- ✓ Crëwyd Arweinlyfr dwyieithog newydd Castell Henllys gyda chopi electronig ar gael i'w brynu ar y wefan dros yr haf.

Cynnwys: Digwyddiadau Hanesyddol (AC)

Effeithiwyd yn sylweddol ar nifer y digwyddiadau hanesyddol Awdurdod gan reoliadau COVID-19 yn 2020/21, yn arbennig gan fod cyfyngiadau'n cyfyngu ar natur a nifer y digwyddiadau y gellid eu cynnal yng Nghaeriw a Chastell Henllys. Roedd gweithgareddau hanesyddol yn canolbwyntio ar deithiau tywys yng Nghastellmartin, Tyddewi, Solfach a Phorthgain,

digwyddiadau archaeoleg rithwir, sgysiau a hyfforddiant a gweithdai pellter cymdeithasol yng Nghastell Henllys.

588

o gyfranogwyr mewn gweithgareddau a digwyddiadau hanesyddol gynhaliwyd gan yr Awdurdod yn y parc yn 2020/21. Mae hyn yn cymharu â 15,572 o gyfranogwyr yn 2019/20 a 14,012 yn 2018/19.

Yn ystod mis Tachwedd 2020, cynhaliodd yr Awdurdod ei Ddiwrnod Archaeoleg blynyddol gyda PLANED. Oherwydd COVID-19 a'r cyfyngiadau cysylltiedig, cynhaliwyd y digwyddiad ar-lein. Roedd y pynciau a drafodwyd yn ystod y dydd yn cynnwys:

- ✓ Pentyrrau, clogwyni a chrochanau: Gwaith maes diweddar ar y caerau penrhynnau arfordir rhyfeddol ardal Castlemartin, Sir Benfro
- ✓ Cysylltiadau Hunafol: Cloddio Capel Sant Padrig. Defnyddio Ffotogrametreg i Ail-greu Olion Arth o'r Oes Gynhanes yn Ddigidol
- ✓ Waun Mawn: safle cerrig cylch blaenorol ger y chwareli cerrig glas ar gyfer Côr y Cewri
- ✓ Effaith COFID-19 ar y sector archaeolegol yn Gymru
- ✓ Dehongli Archaeoleg; defnyddio ymgysylltiad digidol hefo cymunedau o dan COFID-19
- ✓ Datwaddoli y Mesolithig? Adlewyrchiad ar ddehongli treftadaeth yn ystod cyfnod yr ol-drefferigaethol.

- ✓ Gwladychwyr, Ymfudwyr a Ffoaduriaid yn Hanes Sir Benfro.

Mae fideos o'r digwyddiad ar gael ar y [Sianel You Tube Y Diwrnod Archaeoleg](#).

180

Pobl mynychodd Ddiwrnod Archeoleg Blynyddol yr Awdurdod yn 2020/21, o'i gymharu â 170 yn 2019/20.

Ysbrydoliaeth Hanesyddol – Tueddiadau'r Rhaglen Addysg

Cafodd gallu APCAP i ddarparu gweithgareddau rhaglenni addysg yng Nghastell Henllys a Caeriw ei effeithio'n sylweddol yn 2020/21 gan gyfyngiadau COVID-19, yr angen i'r canolfannau ganolbwyntio ar ailagor y canolfannau i ymwelwyr cyffredinol pan allent agor ac effaith COVID-19 ar allu'r ysgol i deithio i safleoedd. Mae'r ystyriaeth olaf yn arbennig o berthnasol i Gastell Henllys gan fod ei chynnig addysg fel arfer yn denu lefel uchel o gyfranogiad gan ysgolion y tu allan i Sir Benfro. Creodd Castell Henllys sesiwn rithwir ar gyfer Ysgol Gynradd Alltwen ac Ysgol Gymraeg Aberystwyth.

192

Nifer y cyfranogwyr yr ymgysylltwyd â hwy trwy'r rhaglen addysg yng Nghastell Henllys yn 2020/21. Mae hyn yn cymharu â 4,257 o gyfranogwyr yn 2019/20 a 4,058 yn 2018/19.

48

Nifer y cyfranogwyr yr ymgysylltwyd â hwy trwy'r rhaglen addysg yng Nghaeriw yn 2020/21. Mae hyn yn cymharu â 1,622 o gyfranogwyr yn 2019/20 a 2,013 yn 2018/19.

Ffrwd Waith: Ysbrydoliaeth ac Ymgysylltu â Chelf

Cydweithio: Arddangosfeydd a gweithio gyda Amgueddfa Cymru

Roedd rheoliadau COVID-19 yn golygu mai dim ond am gyfnod byr rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2020 y gellid agor gofod oriel Amgueddfa Cymru yn Oriel y Parc.

997

Ymwelwyr i'r Oriel yn Oriel y Parc yn 2020/21. Mae hyn yn cymharu â 23,341 yn 2019/20 a 21,949 yn 2018/19.

Cynhaliwyd cyfarfodydd yn ystod 2020/21 rhwng Amgueddfa Cymru ac Oriel y Parc i drafod y rhaglen o arddangosfeydd a gynlluniwyd ar gyfer 2021/22, gan gynnwys Tir a Môr gan Mike Perry a'r arddangosfa Geiriau Diflanedig.

Oherwydd rheoliadau'n ymwneud â gweithgareddau dan do ac ar yr oriel nid oedd Oriel y Parc yn gallu darparu unrhyw weithgareddau rhaglen addysg yn 2020/21 na'i chlwb celf gwyliau arfaethedig.

Ail-agorodd arddangosfeydd artistiaid lleol ym mis Awst 2020 yn Oriel y Parc gyda thri artist yn arddangos ar y safle a oedd yn cynnwys cyfleoedd gwerthu manwerthu ychwanegol ochr yn ochr â'r arddangosfeydd. Cynhaliodd Oriel y Parc arddangosfa ar-lein (oherwydd bod y canolfannau ar gau ym mis Rhagfyr). Dyma gystadleuaeth flynyddol Cyfeillion Oriel y Parc i blant ysgol ar draws Campysau Tyddewi a fyddai fel arfer wedi cael eu harddangos yn y Tŵr.

Ffrwd Waith: Yr Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol ac Archaeoleg Gymunedol

Atal a Meithrin Cydnerthedd: Gweithgareddau i gefnogi adeiladau sydd mewn perygl

Parhaodd yr Awdurdod i gynghori perchnogion adeiladau hanesyddol a safleoedd ynghylch rheoli trwy ei Swyddog Cadwraeth Adeiladau. Arhosodd y % o fewn y targed, sef llai na 6%, gyda chynnydd bach o'i gymharu â 2019/20. Mae'r ffigyrau'n seiliedig ar arolygon Cadw o adeiladau sydd mewn perygl.

Mesur Perfformiad	2018/19	2019/20	2020/21	2020/21 Targed
% Adeiladau mewn Perygl	4.8% (Gwyrdd)	5.0% (Gwyrdd)	5.0% (Gwyrdd)	<6

Ymgysylltu a Chynnwys: Arwyr Amser (AC)

Effeithiwyd ar weithgareddau'r Gwarcheidwad Treftadaeth gan gyfyngiadau a chyfyngiadau COVID-19 yn ystod 2020/21 a

oedd yn atal cyflwyno sesiynau wyneb yn wyneb gydag ysgolion sy'n rhan o'r prosiect yn ystod y flwyddyn.

Oherwydd effaith y cyfyngiadau cynhyrchodd APCAP fideos byr Cymraeg a Saesneg i addysgu disgyblion Ysgol Gelli Aur am archaeoleg, oedran metelau, y Parc Cenedlaethol a Siambrau Claddu Neolithig. Fel rhan o'r cynhyrchiad hwn, rhoddwyd tasgau i'r disgyblion hefyd i ategu eu dysgu gan gynnwys ymchwilio ac ail-greu siambrau claddu yn ardal y Parc Cenedlaethol, cynhyrchu gwaith creadigol a chwblhau cwis.

Cynnwys: Codi ymwybyddiaeth ac Ymgysylltu â phobl i ofalu am safleoedd o ddiddordeb hanesyddol (AC)

Er gwaethaf COVID-19, roedd nifer o weithgareddau'n gallu cael eu cynnal gan archaeolegydd cymunedol APCAP yn 2020/21 i godi ymwybyddiaeth ac ennyn diddordeb pobl wrth ofalu am safleoedd o ddiddordeb hanesyddol. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys:

- ✓ Datblygu cyfleoedd gwirfoddoli ar gyfer cynllun heneb gofrestredig. Cynhaliwyd sesiynau hyfforddi rhithiol gyda gwirfoddolwyr i ennyn eu diddordeb mewn monitro henebion i glustnodi unrhyw faterion oedd yn codi. Canlyniad hyn oedd bod 16 o wirfoddolwyr Treftadaeth wedi cael henebion i ymweld â hwy a'u monitro (tua hanner yr henebion sydd yn y Parc Cenedlaethol). Cafodd yr asesiadau arolwg a gwblhawyd eu cyflwyno yn ystod y flwyddyn drwy ddefnyddio ffurflen ddynodedig ar Arolwg ArcGIS123. Bydd y wybodaeth a gyflwynir yn helpu'r

Archeolegydd Cymunedol i ddatblygu rhaglen waith ar gyfer henebion sy'n hygyrch i'r cyhoedd.

- ✓ Cyfarfodydd gyda Chyngor Cymuned Nanhyfer i drafod cynnal a chadw, cadwraeth a dehongli Castell Nanhyfer gan gynnwys eu arweinlyfr.
- ✓ Rhoi crynodeb byr o safleoedd archaeolegol allweddol i fynd ar wefan Canolfan Gymunedol Brynberian.
- ✓ Gweithio gyda PLANED i sefydlu a hwyluso Fforwm Treftadaeth Sir Benfro ar gyfer sefydliadau, cymdeithasau ac unigolion sy'n gweithredu o fewn treftadaeth yn Sir Benfro. Parhau i gymryd rhan yng Ngrŵp Llywio Calon Preseli.
- ✓ Yn ystod mis Awst, cyflwynodd yr Archeolegydd Cymunedol ddigwyddiad rhithwir a helpodd y cyhoedd i ddysgu am archaeoleg y Parc Cenedlaethol, o safleoedd a nodweddion hawdd eu hadnabod i'r rhai sy'n fwy gwibiog ac anodd eu hadnabod. Arweiniodd y digwyddiad at dros 27 o wylwyr ac roedd yn cynnwys y rhai o Gaer, Llundain a Chaerlŷr.
- ✓ Cyflwynwyd sgwrs rithwir ar Archaeoleg yn y Parc Cenedlaethol i Gymdeithas Gymraeg Reading a District.

142

o safleoedd archeolegol lle mae'r amodau wedi gwella gyda chymorth gwirfoddolwyr a chyfranogwyr gweithredu cymdeithasol.

170

o safleoedd archeolegol lle mae'r amodau wedi gwella.

Er mwyn helpu i gefnogi gwaith ymgysylltu digidol comisiynodd APCAP ddelwedd ailadeiladu newydd o hen

gaer Napoleonig yn Abergwaun, gan gynnwys defnyddio realiti estynedig.

Cydweithredu: Cefnogi Ymchwil

Drwy weithio gyda Chyngor Archaeoleg Prydain, roedd Archaeolegydd Cymunedol APCAP wedi gwneud cais i'r rhai hynny sy'n gweithio yn y sector archaeolegol yng Nghymru i lenwi arolwg ar effaith COVID-19 ar y sector. Roedd hyn yn cynnwys sefydliadau sy'n gweithredu yn ardal y Parc Cenedlaethol. Roedd nifer yr ymatebwyr yn gadarnhaol ac yn cynnwys sbectwm eang o'r sector archaeolegol yng Nghymru gyda'r canlyniadau a gyflwynwyd yn y Diwrnod Archeoleg ym mis Tachwedd 2020.

Mae'r Archaeolegydd Cymunedol yn aelod o'r Is-grŵp Amgylchedd Hanesyddol ar Newid Hinsawdd yng Nghymru ac mae wedi cefnogi'r grŵp hwn i gynnal arolwg i gasglu enghreifftiau o'r gwaith y mae'r sefydliadau wedi'i wneud i liniaru effaith newid yn yr hinsawdd ar yr amgylchedd hanesyddol.

Y Camau Nesaf: Fel rhan o brosiect 'Dawnsio ar y Diben' SMS bydd £50k yn cael ei ddefnyddio i ymgymryd ag ymchwil LiDAR i wella ein dealltwriaeth o nodweddion archaeolegol yn y Parc Cenedlaethol. Penodwyd cymorth technegol ar gyfer y prosiect yn y Preseli ym mis Mawrth.

Ffrwd Waith: Partneriaeth Treftadaeth a Chydweithio

Cydweithredu ac Integreiddio: Cynllun Gwarchod Treftadaeth

Fe barhaodd yr Awdurdod i ymwneud â'r fenter Gwyllo Treftadaeth gyda Heddlu Dyfed Powys a Cadw sy'n amcanu at ymateb i fater troseddau treftadaeth. Roedd gweithgareddau a chyflawniadau yn 2020/21 yn cynnwys:

- ✓ Cynhaliwyd patrolau mewn 25 o safleoedd i sicrhau nad oedd difrod yn digwydd yn ystod y Gyhydros ym mis Medi. Roedd hyn yn ymdrech ar y cyd rhwng yr Archeolegydd Cymunedol, Parcmyr y Parc Cenedlaethol (Gogledd) a Heddlu Dyfed Powys.
- ✓ Cynhaliwyd patrolau ym mis Mawrth i gyd-fynd â'r Cyhydros y Gwanwyn i safleoedd agored i niwed (ymwelodd 10 â chyfanswm). Yn ogystal, adroddwyd am faterion mewn pedwar safle a rhoddwyd gwybod i'r Heddlu a Cadw. Yn un o'r safleoedd yr effeithiwyd arnynt, tynnwyd graffiti o'r safle.
- ✓ Roedd partneriaid Gwarchod Treftadaeth wedi cymeradwyo arwyddion i'w defnyddio wrth groes y pererinion yn Nanhyfer i atal ymwelwyr rhag gadael darnau arian allai achosi difrod i'r heneb.
- ✓ Mae hysbysu'r heddlu am ddigwyddiadau wedi parhau er mwyn i'r digwyddiadau hyn gael eu cofnodi a'u neilltuo i'r timau plismona cymdogaeth perthnasol i dderbyn sylw, a hefyd i Cadw. Gan gynnwys digwyddiadau sy'n ymwneud â chanfod metel mewn safleoedd.
- ✓ .Postiadau Cyfryngau Cymdeithasol yn ystod y flwyddyn i godi ymwybyddiaeth ac annog adrodd.

✓ Ym mis Gorffennaf, hwylusodd yr Archaeolegydd Cymunedol ddigwyddiad hyfforddiant treftadaeth rithwir ar y cyd ar gyfer Cymru gyfan yn canolbwyntio ar droseddau treftadaeth. Roedd y rhai a oedd yn bresennol yn cynnwys Heddlu Dyfed-Powys, Heddlu Gwent, Heddlu Gogledd Cymru, Heddlu Swydd Gaer, Cadw, Lloegr Hanesyddol, APCAP, APCB, APCE, pob un o bedair Ymddiriedolaeth Archaeolegol Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru. Cynhaliwyd cyfarfod ym mis Medi gyda chydgyssylltydd Cynllun Gwyllo Treftadaeth Gwent a hefyd eraill sy'n gweithio yn y sector amgylchedd hanesyddol ynghylch gosod cynlluniau mewn rhannau eraill o Gymru, gan gynnwys ardaloedd y Parciau Cenedlaethol perthnasol.

Cydweithredu ac Integreiddio: Ysbrydoli Sir Benfro

Mae yr Awdurdod yn un o'r partneriaid ffurfiol mewn menter newydd ar draws y sir gyfan (sy'n dwyn y teitl 'Ysbrydoli Sir Benfro') i greu strategaeth ddiwylliannol ar gyfer Sir Benfro gan gydweithio'n agos gyda chydweithwyr yng Nghyngor Sir Penfro a PLANED. Mae'r gwaith yn bwysig o ran cefnogi a gwella treftadaeth ddiwylliannol leol ac o ran sbarduno ceisiadau am gyllid yn y dyfodol a chefnogaeth wleidyddol ehangach i ystod o weithgareddau a chyrrff y celfyddydau a diwylliannol yn lleol. Mae Rheolwr Gwasanaethau Ymwelwyr (Gorllewin) yr Awdurdod yn cynrychioli'r Awdurdod yn ffurfiol ar Grŵp Llywio Ysbrydoli Sir Benfro a pharhaodd i fynychu cyfarfodydd rithwir yn 2020/21.

Cydweithredu ac Integreiddio: Cyfranogiad yn y Prosiect Aiddarganfod Cysylltiadau Hynafol

Mae'r prosiect partneriaeth Aiddarganfod Cysylltiadau Hynafol a ariennir â chyllid grant yn cyflawni rhaglen dair blynedd o weithgarwch treftadaeth, diwylliannol, celfyddydol a chymunedol gan amcanu at gynyddu ymweliadau o dramor â Gogledd Orllewin Sir Benfro a County Wexford, Iwerddon. Cymeradwywyd cais cam 2 ar gyfer y prosiect gan WEFO a chan yr Aelodau ar 2 Rhagfyr. Hysbysebwyd nifer o dendrau drwy GwerthwchiGymru i gefnogi'r gwaith o gyflawni agweddau allweddol ar y fenter Cysylltiadau Hynafol. Dyfarnwyd contract ar gyfer y gwaith gwella yn Sant Non, gyda'r gwaith yn cael ei wneud yn 2021/22.

Ffrwd Waith: Hyrwyddo'r Gymraeg - Sgiliau, cyfleoedd ac ysbrydoliaeth

Cynnwys ac Ymgysylltu: Digwyddiadau, Gweithgareddau a Sesiynau Ysgol yn yr Iaith Gymraeg

Cafodd gallu'r Awdurdod i ddarparu gweithgareddau rhaglenni addysg ei effeithio'n sylweddol yn 2020/21 gan gyfyngiadau COVID-19 ac effaith COVID-19 ar allu'r ysgol i deithio i safleoedd. Cafodd hyn effaith ar nifer y sesiynau Cymraeg a gyflwynwyd, yn enwedig oherwydd effaith y cyfyngiadau ar ddarparu sesiynau yng Nghastell Henllys a sesiynau Gwarcheidwad Treftadaeth.

5	o sesiynau'r rhaglen addysg a gyflwynwyd yn Gymraeg yn 2020/21. Mae hyn yn cymharu â 76 o sesiynau yn sesiynau 2019/20 a 95 yn 2018/19.
184	cyfranogwyr mewn sesiynau addysg a gyflwynwyd yn Gymraeg yn 2020/21. Mae hyn yn cymharu â 2,290 o gyfranogwyr yn 2019/20 a 2,713 yn 2018/19.

Yn yr un modd, gwelodd yr Awdurdod ostyngiad yn nifer y digwyddiadau a'r gweithgareddau (gan gynnwys sesiynau gwirfoddoli) a ddarparwyd yn Gymraeg yn 2020/21, gan adlewyrchu'r gostyngiad ehangach mewn digwyddiadau a gweithgareddau oherwydd effaith cyfyngiadau COVID-19.

10	digwyddiadau a gweithgareddau a ddarparwyd drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2020/21. Mae hyn yn cymharu â 32 sesiwn yn 2019/20 a 54 sesiwn yn 2018/19.
59	cyfranogwyr mewn digwyddiadau a gweithgareddau a gyflwynwyd drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2020/21. Mae hyn yn cymharu â 262 yn 2019/20 a 622 yn 2018/19.

Cafodd pwysigrwydd cael cymorth arweinydd gweithgaredd gwirfoddol sy'n gallu siarad Cymraeg ei amlygu mewn adborth a gafwyd o un o ddigwyddiadau'r Awdurdod:

"Diolch yn fawr i chi am y daith o amgylch maes Castellmartin ddydd Sul. Roedd yn gyfle gwych gydag arweinwyr Gweithgaredd Gwirfoddol APCAP yn rhoi stôr o wybodaeth ddefnyddiol am yr ardal. Roeddwn yn arbennig o falch i allu siarad Cymraeg gyda'r Arweinydd Gweithgaredd Gwirfoddol, a byddai gennyf ddiddordeb mawr mewn gwneud mwy o weithgareddau a theithiau yn Gymraeg pe byddent ar gael. Byddwn hefyd yn awyddus i wirfoddoli yn y digwyddiadau hyn y flwyddyn nesaf os bydd angen pobl arnoch chi i helpu."

Ni ellid gwneud gwaith pellach ar ddatblygu Castell Henllys fel Hwb Iaith Gymraeg yn 2020/21 oherwydd rheoliadau COVID 19 a'r angen iddo ganolbwyntio ar weithgareddau ailagor pan fyddant ar agor.

Cynnwys ac Ymgysylltu: Dysgu a Chymorth Cymraeg

Mae staff yn gallu cael mynediad at gwrs gwaith Cymraeg ar-lein i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg. Gwnaeth y Tîm Arweinyddiaeth ymrwymiad i'r holl staff ddatblygu sgiliau Cymraeg Gwaith Lefel 1, a bydd hyn yn sylfaen ar gyfer unrhyw waith prosiect posibl yn y dyfodol o ran mentora.

19	Cyrsiau ar-lein gwaith Cymraeg cwblhawyd gan staff yn 2020/21, mae hyn yn cymharu â 2 yn 2019/20.
47%	o wybodaeth ar lefel Gymraeg a gwblhawyd ar system rheoli pobl yn 2020/21, mae hyn yn cymharu â 50.5% yn 2019/20.

Cyflwynwyd sesiwn Cymraeg yn y Dirwedd gan Parcmyn APCAP i wirfoddolwyr a staff yn 2020/21.

Amcan Llesiant Byd-eang: Sicrhau bod ein gwaith yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant bydeang.

Ffrydiau gwaith a roddodd gymorth i gyflawni'r amcan hwn yn 2020/21

Ymateb i'r Argyfwng Newid Hinsawdd

Rhinweddau Arbennig - Ysbrydoliaeth ac Ymgysylltu

Crynodeb o'r Diogelwr Taith – Ein Cynnydd yn erbyn yr Amcan hwn

Mae'r Awdurdod wedi datblygu dau faes ffocws clir o ran ein gwaith i gyfrannu at lesiant byd-eang. Y cyntaf yw cyfrannu i'r ymateb i her fyd-eang argyfwng yr hinsawdd trwy ein gweithgareddau. Yn 2020/21 cymeradwyodd yr Awdurdod ei [Gynllun Gweithredu Ymateb i'r Argyfwng Newid yn yr Hinsawdd](#) i helpu i leihau ei allyriadau carbon, allyriadau yn y Parc yn y dyfodol a gwneud y mwyaf o'i gyfraniad at storio carbon yn y Parc. Mae cyllid Tirweddau Cynaliadwy, Mannau Cynaliadwy wedi cefnogi'r Awdurdod i brynu tir yn Trefin at ddibenion dal a storio carbon a chefnogi'r gwaith o ddarparu rhwydwaith o bwyntiau gwefru cerbydau trydan yn y Parc a Sir Benfro.

Yr ail yw cynorthwyo pobl i gael eu hysbrydoli gan natur a diwylliant, gan helpu i greu dinasyddion sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. Parhaodd y gwaith yn 2020/21 i integreiddio cynnig addysg yr Awdurdod ar hyn o bryd ac yn y dyfodol gyda'r cwricwlwm newydd gan ganolbwyntio ar agwedd Cynefin ar y cwricwlwm. Bydd hyn yn galluogi ysgolion, wrth i'r cyfyngiadau COVID-19 gael eu llacio, barhau i ddefnyddio'r Parc i gynorthwyo plant i ddysgu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i fod yn ddinasyddion byd-eang, wedi'u gwreiddio mewn gwerthfawrogiad a dealltwriaeth o'r amgylchedd naturiol a diwylliannol. Mae'r Awdurdod wedi parhau i gefnogi a darparu cyfleoedd hyfforddi i gynorthwyo pobl i gyfrannu at fonitro'r amgylchedd naturiol a gwyddoniaeth dinasyddion yn y Parc.

Mae ein gwaith ar draws y ffrydiau gwaith hyn yn cyfrannu at y dangosyddion llesiant cenedlaethol canlynol.

4. Lefelau llygredd nitrogen deuocsid (NO₂) yn yr aer

14. Ôl Troed Ecolegol Cymru

12. Capasiti (mewn MW) yr offer ynni adnewyddadwy sydd wedi'i osod

28. Y ganran o'r bobl sy'n gwirfoddoli

41. Allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru

29. Sgôr llesiant meddyliol cymedrig ar gyfer pobl

42. Allyriadau nwyon tŷ gwydr sydd i'w priodoli i ddefnyddio nwyddau a gwasanaethau byd-eang yng Nghymru

Mae'r adran nesaf yn amlinellu ein perfformiad yn 2020/21 yn erbyn y ffrydiau gwaith sy'n cyfrannu at ein Hamcan Llesiant byd-eang

Ffrwd Waith: Ymateb i'r Argyfwng Newid Hinsawdd (A6)

Nodwch fod nifer o gamau gweithredu a gweithgareddau o fewn ffrydiau gwaith eraill hefyd yn cyfrannu at ymateb yr Awdurdod i'r Argyfwng Newid yn yr Hinsawdd.


Tymor Hir: Cynllun Gweithredu CRPC Ymateb i'r Argyfwng Newydd yn yr Hinsawdd

Fis Mehefin 2020 roedd Aelodau'r Parc wedi cymeradwyo Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol - Ymateb i'r Cynllun Gweithredu Brys ar Newid Hinsawdd. Bydd y cynllun hwn yn helpu i sbarduno prosiectau a chamau gweithredu i gefnogi'r Awdurdod i leihau ei allyriadau carbon, allyriadau yn y Parc a gwneud y mwyaf o'i gyfraniad at storio carbon yn y Parc. Bydd cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu hwn yn cael ei fonitro'n flynyddol.

Gwybodaeth am Ôl Troed Carbon yr Awdurdod

Mae'r Awdurdod wedi bod yn cyfrifo cyfanswm ei Ôl Troed Carbon ers 2016 gan ddefnyddio dull cyfrifo a fabwysiadwyd gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol sy'n seiliedig ar gyfrifydd carbon DEFRA ar gyfer allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr. Mae'n bwysig nodi bod 2020/21 wedi cael effaith sylweddol ar sut yr oedd yr Awdurdod yn gweithredu. Mae'n bwysig nodi

bod 2020/21 wedi cael effaith sylweddol ar y modd yr oedd yr Awdurdod yn gweithredu ac o ganlyniad i'w allyriadau, gan gynnwys staff sy'n gweithio gartref, canolfannau'n cael eu cau, gweithgareddau a gynhaliwyd a newidiadau mewn arferion i gefnogi iechyd a diogelwch, er enghraifft ataliwyd wardeiniaid rhag teithio yn yr un cerbyd.



Dadansoddiad o allyriadau ar draws meysydd:

Disgrifiad	Cyfanswm CO2 (Kg)	Gwahaniaeth (+/-)
Trydan*	123,650	-54,509
Olew	2,451	-6,793
LPG	1,699	+203
Nwy	1,873	-400
Biomass	51	+6
Trafnidiaeth Uniongyrchol	65,458	-26,255
Trafnidiaeth Anuniongyrchol	21,533	-3,484
Cyflenwad a Thriniaeth Dŵr	516	-1,301
Y Gadwyn Gyflenwi	586,744	-28,872

Disgrifiad	Cyfanswm CO2 (Kg)	Gwahaniaeth (+/-)
Cyfanswm	803,995	-121,406

* Ar hyn o bryd mae'r Awdurdod yn caffael 100% o'r ynni trydan a gyflenwir iddo o ffynhonnell cynhyrchu ynni adnewyddadwy ardystiedig.

Trosolwg o Allyriadau Ynni

Trydan

Mae gostyngiad o 31% yn y defnydd o drydan ar draws yr holl gyflenwadau. Gostyngiad oherwydd gweithio o gartref a chau safleoedd oherwydd COVID-19. Eithriadau nodedig i hyn yw'r cynnydd ymylol i Llanion H.Q (Cyfradd 2 neu gyfradd nos) a goleuadau Hopper Harbwr Porthgain, mae'r ddau yn cael eu hymchwilio.

Olew

Gostyngiad o 73% yn y defnydd o olew oherwydd staff sy'n gweithio o gartref (Pant Glas, Castell Henllys.)

Nwy Petrolewm Hylifedig

Bu cynnydd bach yn y defnydd o LPG (coginio) yn enwedig yng Nghaffi Castell Henllys oherwydd bod y busnes wedi parhau yn ystod y pandemig, nid yw cofnodion nwy Calor am Ebrill 2020 ar gael, ac yn seiliedig ar gofnodion am fisoedd eraill, rydym wedi amcangyfrif bod y defnydd yn ½ y tanc am y flwyddyn ariannol.

Nwy

Gellir priodoli'r gostyngiad o 18% yn y defnydd o nwy naturiol i'r ffaith bod y canolfannau ar gau a'r staff yn gweithio gartref.

Noder: Roedd systemau gwresogi yn parhau i fod yn weithredol yn Oriel Y Parc a Llanion HQ.

Biomass

Mae'r cynnydd bach yn y tanwydd a ddefnyddiwyd i'w briodoli i'r ffaith bod bloc y Gogledd (Pencadlys Llanion) wedi'i ddefnyddio o ddechrau 2020.

Trosolwg o Allyriadau Dŵr

Cyflenwad a Thriniaeth Dŵr

Gostyngiad o 72% yn y defnydd o ddŵr ar draws adeiladau'r Awdurdod a gostyngiad sylweddol mewn trin gwastraff oherwydd cysylltiad draenio'r prif gyflenwad yng Ngardd Furiog Castell Caeriw.

Trosolwg o Allyriadau Trafnidiaeth

Trafnidiaeth Uniongyrchol

Yn ôl y disgwyl, gostyngiad o 29% yn y milltiroedd gan bersonél yr Awdurdod. Bu'n rhaid i'r Awdurdod newid arferion mewn rhai ardaloedd oherwydd COVID-19 er enghraifft cyfyngiadau ar Wardeiniaid yn rhannu cerbydau.

Trafnidiaeth Anuniongyrchol

Mae'r milltiroedd a deithiwyd gan gyflenwyr wedi gostwng 14% hefyd. Mae hyn yn adlewyrchu gostyngiad mewn nwyddau / cyflenwadau oherwydd COVID-19.

Trosolwg o Allyriadau'r Gadwyn Gyflenwi

Er gwaethaf gostyngiad cyffredinol, gwelwyd cynnydd mewn gwariant mewn meysydd gan gynnwys cynhyrchion Amaethyddol, cynhyrchion Coedwigaeth, cynhyrchion Pren a Phren a Pheiriannau ac Offer er bod y cynnydd hwn yn gymharol fach.

Bydd dadansoddiad pellach a chyfres o argymhellion yn cael eu cynhyrchu yn seiliedig ar y data hwn.

Y Camau Nesaf: Yn mis Mai 2021 rhyddhaodd Llywodraeth Cymru ei [Chanllaw Adrodd Sero Net yn y Sector Cyhoeddus](#). Bydd yr Awdurdod yn ceisio treialu'r dull hwn gan ddefnyddio data o 2019/20 a 2020/21 i greu llinell sylfaen a sefydlu diwygiadau i brosesau i gefnogi casglu data sydd ei angen ar gyfer y fethodoleg hon wrth symud ymlaen. Bydd yr Awdurdod hefyd yn ceisio datblygu system Rheoli Amgylcheddol sy'n cyd-fynd â methodoleg adrodd net sero newydd y sector Cyhoeddus. Cafodd y gweithgaredd hwn ei ohirio yn 2020/21 gan fod yr Awdurdod yn aros i'r fethodoleg newydd gael ei rhyddhau.

Cynhyrchu Ynni Adnewyddadwy

Ar hyn o bryd mae gan yr Awdurdod ddarpariaeth ynni adnewyddadwy Ffotofoltäig yn Llanion ac Oriel y Parc.

31,038

Kw cynhyrchwyd o Ffotofoltäig Oriel y Parc Parc (26,702 Kw) a Llanion (4,336 Kw) yn 2020/21. . Mae hyn yn cymharu â 29,260 yn 2019/20.

Roedd APCAP wedi nodi dau safle awdurdod posibl ar gyfer gosod Ffotofoltäig, un yng Nghanolfan Goed Cilrhedyn y llall yn y cae uchaf yng Nghastell Henllys. Fodd bynnag, yn dilyn astudiaeth ddichonoldeb pen desg, clustnodwyd bod Canolfan Coetir Cilrhedyn yn addas ar gyfer y gwaith hwn. Mae peirianwyr ymgynghorol wedi cwblhau adroddiad ar ymweliad

safle a dichonoldeb sy'n rhoi opsiynau ar gyfer cynhyrchu systemau ffotofoltäig, gwresogi gofod ac o bosibl storio batris sy'n gwefru cerbydau trydan.

Mae gan yr Awdurdod foeler biomas ym Mhencadlys Parc Llanion a Chastell Henllys hefyd. Mae gan Gaeriw bwmp gwres ffynhonnell aer ac mae gan Oriel y Parc bwmp gwres o'r ddaear.

Ar hyn o bryd mae'r Awdurdod yn caffael 100% o'r ynni trydan a gyflenwir iddo o ffynhonnell cynhyrchu ynni adnewyddadwy ardystiedig. Mae Cyngor Sir Penfro'n eistedd ar Is-grŵp Ynni'r GCC ac yn cynrychioli buddiannau Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ar y grŵp hwn.

Mae'r Awdurdod yn aelod o Fforwm Ynni Sir Benfro. Disgwylir i gyfarfodydd y fforwm ailddechrau yn 2021/22.

Yn dilyn mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol 2 gan yr Awdurdod Parciau Cenedlaethol ym mis Medi 2020, aeth y Canllawiau Cynllunio Atodol Ynni Adnewyddadwy allan ar gyfer ymgynghori.

Atal: Gwobr Allwedd Werdd mewn Canolfannau a Gweithgareddau yn OYP

Caiff y wobwr Agoriad Gwyrdd ei redeg gan y Sefydliad Addysg Amgylcheddol a'i rheoli yng Nghymru gan yr elusen amgylcheddol Cadwch Gymru'n Daclus. Hon yw'r safon ragoriaeth flaenllaw ym maes cyfrifoldeb amgylcheddol a

gweithredu cynaliadwy o fewn y diwydiant twristiaeth. Mae tair canolfan yr Awdurdod wedi parhau i ymgysylltu â phroses y Wobr Allwedd Werdd yn ystod 2020/21, er gwaethaf effaith COVID-19 ar safleoedd.

Mae Oriel y Parc wedi dod o hyd i gyflenwyr lleol newydd sy'n cynhyrchu nwyddau cartref a ysbrydolwyd gan Sir Benfro i'w gwerthu yn eu siop, ac wedi dod o hyd i gyflenwr teganau meddal newydd, gan ddisodli eu nwyddau blaenorol â nwyddau wedi'u hailgylchu 100%, a gynhyrchwyd o wastraff plastig wedi'i ailgylchu 100%.

Atal: Prosiect Cydnerthedd Tiroedd Comin – Storfa Garbon Mawn

Cynhaliwyd gwaith ffensio ffiniau yn Rhosmaen yn ystod gaeaf 2020/21. Bu'n rhaid gohirio'r gwaith yn Frenni Fawr oherwydd cyfyngiadau symud. Mae 1725m o ffensys ffiniau ar hyd ymyl gogleddol Mynydd Preseli wedi'i gwblhau.

Tymor Hir: Cefnogi dal a storio carbon

Cymeradwywyd cyllid gan Arian Tirweddau Cynaliadwy, Mannau Cynaliadwy Llywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2020 ar gyfer cynnig 'Prynu tir ar gyfer Dal a Storio ar gyfer y Genedl', gyda chyllideb o £200,000 a £20,000 o gostau rheoli / cyflenwi i'w cyflawni erbyn mis Mawrth 2021. Nod y cynnig oedd cefnogi dal a storio carbon a chynyddu bioamrywiaeth drwy gynyddu arwynebedd y tir o dan reolaeth ffafriol barhaus at ddibenion y Parc Cenedlaethol drwy brynu tir gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol.

Ar ôl gwaith ymchwil trylwyr gan swyddogion ar draws yr Awdurdod Parc Cenedlaethol ar amrywiol gyfleoedd i brynu tir ar y farchnad agored ac yn breifat, clustnodwyd a blaenoriaethwyd y safle yn Nhrefin fel safle posibl i'w brynu.

- Creu llain gyffiniol gyda'n bloc presennol o lain arfordirol Trwyn Llwyd.
- Adfer cymysgedd o laswelltir arfordirol, glaswelltir llawn rhywogaethau, prysgwydd gwasgaredig a nodweddion ffiniau er budd ystod gyfan o rywogaethau arfordirol nodweddiadol.
- Dod yn safle i arddangos gwytnwch yr arfordir drwy ddod â nifer o fuddion yn y cefnwlad arfordirol.
- Cynyddu gwytnwch y cynefinoedd arfordirol drwy glustogi'r llain arfordirol rhag effeithiau andwyol a chynyddu maint a chysylltedd y rhwydwaith o gynefinoedd arfordirol.
- Amcangyfrif bras o'r carbon gaiff ei arbed o adfer glaswelltir (ar werth presennol o 60tC/ha) i gymysgedd o laswelltir arfordirol, glaswelltir llawn rhywogaethau, prysgwydd gwasgaredig a nodweddion ffiniau yw 6 tonnell ychwanegol o garbon fesul hectar. Felly gallai tri deg erw (12 hectar) arwain at ddal a storio 72 tonnell o garbon yn ychwanegol.

Er bod yr ystadegau yn dangos bod coetiroedd yn storio mwy o garbon na'r glaswelltir, mae llawer o waith ymchwil yn awgrymu bod glaswelltiroedd yn storfeydd carbon mwy sefydlog na choetiroedd ac nad ydynt yn rhyddhau carbon wrth eu sefydlu (fel sy'n digwydd wrth greu coetir). Mae storio carbon glaswelltir yn briodol iawn ar gyfer tirwedd y Parc

Cenedlaethol. Yn ogystal, bydd rheoli'r tir fel hyn yn ennyn ymwybyddiaeth bod glaswelltir yn storio carbon.

Ym mis Rhagfyr 2020 cymeradwyodd Aelodau Awdurdod yr Awdurdod Parciau Cenedlaethol brynu'r tir yn Trefin, gyda'r tir wedyn yn cael ei gaffael ym mis Chwefror 2021.

Y Camau Nesaf: Bydd APCAP, mewn partneriaeth â'r gymuned leol, yn creu Cynllun Safle Integredig enghreifftiol a threfn monitro/data ar gyfer y safle, ac yn mynd ati i annog pob tîm i weithio ar y cyd i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r cynllun.

Atal: Gwyrddio'r Fflyd

Erbyn diwedd 2020/21 roedd 10% o gerbydau'r Awdurdod yn hybrid neu'n drydanol, cynnydd o 5% yn 2019/20. Mae 3 cerbyd hybrid newydd gan yr Awdurdod yn lle'r ceir blaenorol. Mae archebion wedi'u gwneud i brynu faniau trydan yn lle'r 7 fan sy'n defnyddio tanwydd disel. Disgwylir derbyn y cerbydau hyn yn ystod Haf 2021, ond mae'n bosibl y bydd oedi oherwydd prinder sglodion electronig ledled y byd.

Mae'r cwmni rhentu y mae'r Awdurdod yn ei ddefnyddio wedi cadarnhau eu bod wedi archebu faniau trydan maint canolig ac y byddant yn archebu faniau trydan bach pan fyddant ar y farchnad yn y DU fis Tachwedd 2021. Unwaith mewn stoc, bydd yr Awdurdod yn cyflawni gofynion rhentu gyda faniau trydan.

10%

o gerbydau Awdurdod yn hybrid neu'n drydanol yn 2020/21 cynnydd o 5% yn 2019/20.

Y Camau Nesaf: Bydd y cyllid a sicrhawyd o'r gronfa Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy yn gwneud iawn am y balans o ddisodli 6 fan tanwydd disel yn y fflyd. Mae'r archebion yn cael eu dal yn ôl hyd nes y bydd y gwneuthurwr yn cyhoeddi prisiau'r faniau trydan llai.

Atal: Gwyrddio ein Hadeiladau

Cytunodd y Tîm Arweinyddiaeth i archwilio addasrwydd posibl Cynllun Refit Cymru yn 2020/21. Trefnwyd cyfarfod ar gyfer Ebrill 2021 gyda Llywodraeth Cymru i drafod addasrwydd cynllun Re:Fit ar gyfer Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Bydd gwyrddio Adeiladau sydd wedi'u cynnwys o fewn mesurau lleihau carbon ar gyfer 2021/22 a mesurau ar raddfa fach yn mynd ymlaen fel rhan o'r rhaglen cynnal a chadw adeiladau.

Cydweithredu: Gwyrddu ein Cymunedau

Effeithiwyd ar weithgareddau yn y maes hwn gan COVID-19, fodd bynnag, cyfrannodd y gweithgareddau canlynol at yr Awdurdod yn codi ymwybyddiaeth ac yn ymgysylltu â chymunedau ar weithgareddau sy'n helpu i ymateb i'r argyfwng newid yn yr hinsawdd:

- ✓ Rhaglen plannu coed yng Glwstwr Ysgolion Aberdaugleddau mewn partneriaeth â Chymunedau Arfordirol yn Gweithredu Gyda'n Gilydd.
- ✓ Aelodau'n cytuno i ganolbwyntio'r gronfa CDG ar gefnogi prosiectau datgarboneiddio cymunedol. Dyfarnu cyllid i 12 prosiect cymunedol.
- ✓ Creodd y Pwyllgor Ieuenctid ffilm fer yn rhoi 'persbectif pobl ifanc ar newid yn yr hinsawdd'
- ✓ Mae Oriol y Parc wedi llwyddo i sicrhau lle yn y Grŵp Dysgu Cymheiriaid, Prosiect yr Amgueddfa Hapus. Prosiect yw hwn sy'n ceisio ymchwilio sut all amgueddfeydd a sefydliadau diwylliannol helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd drwy weithio gyda'u cymunedau lleol. Mae'r Rheolwr Gwasanaethau Ymwelwyr (Gorllewin) ynghyd â Swyddog Dehongli y Parc wedi bod yn mynychu gweminarau rhwydweithio a dysgu cymheiriaid yn rheolaidd gyda Grŵp Dysgu Cymheiriaid yr Amgueddfa Hapus. Mewn sesiwn mentora cymheiriaid, ymunodd Oriol y Parc â dau sefydliad tebyg arall yn y DU i drafod blaenoriaethau, heriau a chyfleoedd i gysylltu â chymunedau ynghylch materion sy'n ymwneud â Newid Hinsawdd.
- ✓ Gosodwyd panel dehongli â ffocws ar Newid Hinsawdd yn canolbwyntio ar 'Gofalu nawr am y dyfodol' fel rhan o'r gwaith a wneir ym maes parcio Aber Llydan.

Cydweithredu ac Integreiddio: Datblygu rhwydwaith o bwyntiau gwefru cerbydau trydan

Ar hyn o bryd mae APCAP a Chyngor Sir Penfro yn cydweithio i ddarparu rhwydwaith o fannau gwefru Cerbydau Trydan ledled y Sir. Y nod yw gosod seilwaith gwefru cerbydau trydan 'cyflym' ar draws ein safleoedd, depos a meysydd parcio gyda phwyntiau gwefru cyflym mewn lleoliadau cyrchfan. Dylid nodi bod yr unedau gwefru yr un fath â'r rhai a osodir gan CSP i sicrhau dull cydgysylltiedig a chyflenwi di-dor ledled y sir. Dyluniwyd y rhwydwaith fel bod darpariaeth ar gael ar draws Sir Benfro i ateb gofynion gwefru cerbydau trydan y trigolion, yr ymwelwyr, ac yn bennaf i gefnogi ac annog y newid i gerbydau trydan. O ystyried bod y diwydiant twristiaeth wedi'i sefydlu ac yn hanfodol i Sir Benfro mae'r prosiect hefyd yn galluogi'r sir i hyrwyddo'r cysyniad o 'eco-dwristiaeth' i ymwelwyr.

Cam 1: Gosodwyd 4 safle gwefru cyflym cerbydau trydan (gyda 2 soced y safle) yn 2020/21 gyda phob un o'r pedwar safle yn dod yn weithredol fis Ebrill 2021. Mae'r safleoedd hyn wedi'u lleoli yn:


Saundersfoot – Maes Parcio Brewery Meadow	Tyddewi – Maes parcio canolfan ymwelwyr OYP
Aber Llydan – Maes Parcio Milmoor Way	Harbwr Porthgain – Maes Parcio Hoppers

Roedd COVID-19 wedi effeithio ar y gwaith gosod ac ar y gallu i gysylltu'r trydan oedd yn gofyn am gynnal ymweliadau safle gyda Western Power, wedi achosi peth oedi yn ystod y flwyddyn.

Y Camau Nesaf: Penodwyd contractwr yn 2020/21 ar gyfer Cam 2. Bwriad Cam 2 yw adeiladu ar Gam 1 drwy ehangu nifer y safleoedd gwefru 'cyflym'. Mae hefyd yn cydnabod yr angen i osod gwefru 'carlam' mewn pedwar lleoliad strategol yn Sir Benfro i ganiatáu i ymwelwyr crwydrol wefru eu cerbydau ar garlam a pharhau â'u teithiau cyn gynted â phosibl. Dewiswyd y lleoliadau gwefru carlam sy'n "hybiau" cyrchfannau ymwelwyr ac a leolir yn agos at y rhwydwaith cefnffyrdd a therfynellau fferi mawr yn Sir Benfro, sydd hefyd ar wasgar ar hyd a lled y sir. Disgwylir i Gam 2 gael ei gwblhau yn 2021/22, a ariennir gan gyllid Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy o rhyw 1.2 miliwn. Sicrhawyd cyllid Adferiad Gwyrdd hefyd gan Lywodraeth Cymru o £203,000, a ddefnyddir yn bennaf i osod yr isadeiledd (cyflenwad trydan a philer cludo trydan 3 cham Western Power Distribution) ym mhob un o safleoedd meysydd parcio APCAP nad ydynt yn cael eu hariannu o dan Gam 2.

Cydweithredol ac Integreiddio: Cefnogi'r Gwasanaeth Bysiau Arfordirol

Fe barhaodd yr Awdurdod i roi cymorth ariannol trwy'r Bartneriaeth Greenways i'r gwasanaeth bysiau arfordirol. Mae'r gwasanaeth bysiau arfordirol yn galluogi pobl i fynd i rannau pellennig a gwahanol ddarnau o'r arfordir gan ddefnyddio cludiant cyhoeddus. Yn ôl y disgwyl oherwydd effaith COVID-19 ar wasanaethau, gwelwyd gostyngiad cyffredinol yn ffigurau teithwyr yn 2020/21 o'i gymharu â 2019/20 o 76,107 yn 2019/20 i 8,345 yn 2020/21.



Hyrwyddo rhestrau a mentrau Teithio Cynaliadwy a Llesol

Roedd COVID-19 wedi effeithio ar weithgareddau yn y maes hwn i'r staff oherwydd y rheoliadau oedd yn ymwneud â theithio yn ystod y flwyddyn a hefyd newid yn y lleoliad gwaith i lawer o'r staff. Felly ni fu modd parhau â'r gweithgareddau hyn yn ystod 2020/21. Fodd bynnag, mae'r Staff a'r Aelodau wedi dod yn fwy cyfarwydd â chyfarfodydd rhithiol o ganlyniad i'r trefniadau gweithio gartref/cyfyngiadau teithio allai gael effeithiau cadarnhaol ar y maes hwn yn y dyfodol.

Y Camau Nesaf: Pan fydd cyfleoedd yn codi byddwn yn ymgysylltu â phartneriaid perthnasol i archwilio cyfleoedd i wella trafndiaeth gyhoeddus a chyfleoedd trafndiaeth gynaliadwy fforddiadwy yn y Parc.

Cydweithio ac Integreiddio: Adroddiad ar y Cyd ar Ddigwyddiadau Tywydd Garw a'r Peryglon i'r Gymuned

